

Lefelau Rhybudd yng Nghymru: Canllaw i'r cyfyngiadau ASESIAD EFFAITH CRYNO

Cyflwyniad

1. Daeth Gweinidogion Cymru i'r casgliad bod angen dull o ymdrin â chyfyngiadau rheoleiddiol yng Nghymru a fyddai'n golygu bod gwybodaeth am dynhau neu leddfu mesurau yn cael ei chyfleu mewn ffordd symlach a chliriach. Yn ogystal, roeddent o'r farn bod cysondeb â'r rheolau yn yr Alban a Lloegr yn fuddiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn sydd wedi gweithio (lle bo hynny'n hysbys).
2. O ganlyniad, penderfynodd y Cabinet fabwysiadu a gweithredu dull haenog o ymdrin â lefelau rhybudd y coronafeirws yng Nghymru. Mae'r canllawiau ar y Lefelau Rhybudd i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#).
3. Y bwriad y tu ôl i gyflwyno system Lefelau Rhybudd i reoli trosglwyddiad y feirws sy'n cylchredeg yng Nghymru oedd cael effaith gadarnhaol ar holl ddinasyddion a busnesau ein cenedl. Mae'r canllawiau ar y Lefelau Rhybudd yn rhoi mwy o dryloywder, eglurder a sicrwydd ynghylch y Lefelau; y mesurau cyfyngu o fewn pob Lefel; a'r dangosyddion sy'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar symud i lefel uwch neu lefel is. Mae'r dull yn ymateb yn uniongyrchol i alwadau gan fusnesau yng Nghymru sy'n chwilio am ddull haenog sy'n hawdd i fusnesau a'r cyhoedd ei ddeall a'i ddilyn.
4. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Coronafeirws cyntaf ar Awst 2020. Yng ngoleuni tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â'r effeithiau, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddiwygio a diweddarau'r cynllun er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau ar bob lefel yn gymesur, gan ystyried y newid yng nghydbwysedd y niwed. Cyhoeddwyd 'Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefel Rhybudd 0' ar 14 Gorffennaf 2021 ac mae'n nodi sut y byddwn yn symud y tu hwnt i lefel rhybudd 1 i set o gyfyngiadau llinell sylfaen.
5. Mae lefel rhybudd sero yn canolbwyntio ar gadw'r cyfyngiadau hynny sy'n helpu i gadw pobl yn ddiogel ond sy'n cael yr effeithiau niweidiol lleiaf ar eu hiechyd corfforol ac emosiynol ehangach. Byddwn yn parhau i sicrhau bod cyflogwyr yn amddiffyn eu gweithwyr a phawb sy'n defnyddio eu busnesau.

Y cefndir deddfwriaethol

6. Mae'r prif Reoliadau gafodd eu gwneud ar 18 Rhagfyr 2020 yn nodi'r cyfyngiadau a'r gofynion a fydd yn berthnasol i bedair lefel rhybudd wahanol, gan bennu'r lefelau rhybudd perthnasol fel y'u nodir yng [Nghynllun Rheoli'r Coronafeirws](#). Diweddarwyd y cynllun hwn ar 14 Gorffennaf 2021. Mae modd gweld fersiwn wedi'i chydgrynhoi o'r Rheoliadau diweddaraf [yma](#).
7. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud â diwygio cynllun Rheoli'r Coronafeirws, sy'n cynnwys y mesurau llinell sylfaen ar gyfer cyflwyno lefel rhybudd 0.

Adolygu'r rheoliadau sy'n gosod y cyfyngiadau

8. Adolygir y rheoliadau bob tair wythnos yn unol â'r dystiolaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Lefel rhybudd 0

Mae'r coronafeirws a'r cyfyngiadau cysylltiedig yn peri barn gref ymysg pobl. Mae'r pryderon yn ymwneud nid yn unig â'r materion iechyd uniongyrchol, ond hefyd ag effeithiau eraill y pandemig ar gymdeithas – yn gymdeithasol ac yn economaidd yn ogystal ag o ran lles eraill - yn ogystal â'r goblygiadau tymor hwy oherwydd COVID-19 a'r cyfyngiadau symud a chyfyngiadau dilynol.

Sut mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu defnyddio:

Tymor hir – Egwyddorion ar gyfer mesurau llinell sylfaen

Mae'r mesurau arfaethedig wedi'u cynllunio ar sail yr egwyddorion canlynol, er mwyn bod yn syml ac yn eglur:

- a. Dylai'r llinell sylfaen ddarparu'r graddau mwyaf posibl o lacio sy'n bosibl, gan gydnabod niwed ehangach y cyfyngiadau, tra'n cadw'r feirws ar lefelau y gellir eu rheoli.
- b. Bydd ailadeiladu'r economi, dychwelyd at hyfywedd ariannol i fusnesau a gweithredu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy arferol yn nod allweddol.
- c. Dylai gweddill y cyfyngiadau ar ryddid unigolion fod yn rhai sy'n cael effaith andwyol gymharol fach cyn belled ag y bo modd, heb fod yn cyfrannu at Gronni anghydraddoldebau neu niwed ehangach.

Dylai'r mesurau helpu i ymgorffori ymddygiadau a thueddiadau cadarnhaol hirdymor sy'n gysylltiedig â nodau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Atal

Bydd atal lledaeniad y feirws yn canolbwyntio ar sawl agwedd. Bydd y rhain yn cynnwys sicrhau bod mesurau rhesymol ar waith i fusnesau ac eraill, a bod cyflogwyr yn parhau i alluogi i staff barhau i weithio gartref lle bo hynny'n ymarferol.

Mesurau rhesymol sy'n gysylltiedig ag asesu risg mewn gweithleoedd, safleoedd manwerthu a lletygarwch a gwasanaethau cyhoeddus.

- Gofyniad cyfreithiol ar fusnesau ac eraill i gynnal asesiad risg COVID-19 gann ymgynghori â'r rhai sy'n gweithio ar y safle a'u cynrychiolwyr.

- Gofyniad cyfreithiol ar bersonau sy'n gyfrifol am safleoedd i gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws a lleihau'r risg i staff (ond y rheoliadau yn llai penodol ynghylch mesurau lliniaru unigol).
- Gofyniad cyfreithiol i wisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus ac o bosibl mewn rhai lleoliadau cyhoeddus dan do eraill, oni bai eu bod wedi'u heithrio neu os yw'r cyd-destun yn gwneud hyn yn amhosibl e.e. bwyta ac yfed mewn bwyty.
- Cydgynhyrchu a defnyddio fframweithiau sectorol i reoli'r gwaith o dynhau a llacio mesurau iechyd cyhoeddus, megis ar gyfer gorchuddion wyneb mewn ysgolion.
- Canllawiau ynghylch;
 - cadw pellter corfforol lle bo hynny'n bosibl,
 - cynnal awyru digonol mewn safleoedd,
 - osgoi lleoedd gorlawn,
 - hylendid anadlol a hylendid dwylo
 - gwneud dewisiadau cyfrifol ynghylch lleoedd gorlawn
- Sicrhau bod pecynnau profi LFD ar gael yn eang, naill ai'n rhad ac am ddim drwy ysgolion, neu o bosibl drwy eu cyflenwi'n fasnachol, ac annog pobl i'w defnyddio.

Gweithio gartref ac osgoi mynd i'r gwaith os ydych yn sâl

- Canllawiau i annog pobl i weithio gartref os gallant ac i fusnesau alluogi pobl i weithio gartref, ynghyd â mwy o ganolfannau gweithio o bell i roi mwy o hyblygrwydd a dewis i bobl a busnesau
- Canllawiau iechyd y cyhoedd sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd aros gartref pan fyddwch yn sâl.

Integreiddio

Mae Cynllun Rheoli'r Coronafeirws yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig, gan symud drwy'r lefelau rhybudd pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, gan ddilyn y data gwyddonol diweddaraf sydd ar gael. Mae'n nodi cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r feirws er mwyn helpu gwasanaethau cyhoeddus i weithredu mewn modd mwy arferol.

Bwriedir i'r mesurau hyn ar gyfer Cymru gyfan fod mor syml, teg a chlr â phosibl. Maent hefyd yn adlewyrchu'r cyngor rydym wedi'i gael gan ein Grŵp Cyngor Technegol, sy'n cydlyn cyngor gwyddonol a thechnegol i gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru yn ystod argyfyngau. Mae'r Grŵp wedi awgrymu mai dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau sydd fwyaf tebygol o fod yn effeithiol, ac y mae pobl fwyaf tebygol o'i ddeall. Drwy gydol y pandemig, mae cydbwysedd y niwed wedi newid yn sylweddol. Mae'r cynllun wedi'i ddiweddarau a'i deilwra'n barhaus i sicrhau bod y cynllun yn berthnasol

wrth inni symud drwy'r lefelau rhybudd sy'n datgloi pob rhan o gymdeithas yng Nghymru.

Datblygwyd y cynllun gan sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol yn cael ei hystyried a'u cynnwys wrth lunio polisiau'r ddogfen. Mae hyn yn sicrhau bod y niweidiau ehangach sy'n effeithio ar bob rhan o gymdeithas yng Nghymru, fel niwed economaidd-gymdeithasol, wedi'u hystyried, yn hytrach na dim ond pryderon o ran iechyd y cyhoedd wedi'u hystyried.

Y gwahaniaeth rhwng Lefel Rhybudd 1 a'r mesurau llinell sylfaen a awgrymir

- Byddai clybiau nos a lleoliadau adloniant i oedolion yn cael agor ar yr amod y gallant asesu'r risg a lliniaru unrhyw risg trosglwyddo.
- Ni fyddai unrhyw gyfyngiadau ar y niferoedd y caniateir iddynt gyfarfod dan do neu yn yr awyr agored, ond ar gyfer safleoedd a digwyddiadau a reoleiddir, byddai'r niferoedd a ganiateid yn cael eu pennu gan asesiad risg gan gymryd y camau rhesymol syn angenrheidiol i leihau'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu.
- Gellid llacio'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb mewn rhai lleoliadau, ac ar gyfer lleoliadau fel ysgolion gellid penderfynu ar hyn drwy asesiadau risg sy'n benodol i safle, a hynny'n gysylltiedig â fframwaith sydd wedi'i gydgynghyrchu ar gyfer llacio mesurau.
- Byddai'r gofynion manwl ar gyfer mesurau rhesymol, gan gynnwys y statws arbennig a roddir i 2m o bellter corfforol a'r mesurau penodol iawn ar gyfer safleoedd manwerthu a lletygarwch, yn cael eu troi'n ganllawiau ond byddent yn parhau i gael eu cynghori a'u hystyried ochr yn ochr â mesurau eraill pan gynhelir asesiadau risg.

Cydweithredu a Chynnwys

Mae swyddogion polisi wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol perthnasol drwy gydol y pandemig ac felly wedi sicrhau bod unrhyw fesurau lliniaru posibl yn cael eu hystyried a'u gweithredu pan fydd cyfyngiadau'n cael eu gosod neu eu lleddfu.

Oherwydd natur y pandemig, mae'r gwaith o ddatblygu'r cynllun rheoli a'r polisi yn gyffredinol mewn perthynas â chyfyngiadau wedi'i wneud yn gyflym. O ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu ymgynghori â dinasyddion wrth ddatblygu'r cynllun rheoli yn y ffordd y byddai wedi'i wneud fel arfer.

Fodd bynnag, mae'r Gweinidogion a'r swyddogion polisi wedi cael gwybodaeth drwy arolygon rheolaidd a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r arolygon hyn wedi dangos barn pobl am y pandemig, gan gynnwys barn ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i Ddiogelu Cymru.

Effeithiau Covid Hir

Asesiad o effaith y mesurau ar gydraddoldeb

9. Mae tystiolaeth yn dangos bod y coronafeirws ei hun yn cael effeithiau anghymesur ar gydraddoldeb. Mae astudiaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf, yn dangos bod COVID hir, o ran cyfran o boblogaeth y DU, ar ei uchaf ymhlith pobl rhwng 35 a 69 oed, menywod, pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, y rhai sy'n gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol, a'r rhai â chyflwr iechyd neu anabledd arall sy'n cyfyngu ar eu gweithgarwch. Mae'n achosi effeithiau iechyd mwy difrifol a mwy o debygolrwydd o farwolaeth i bobl hŷn, pobl anabl, dynion, pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, a'r boblogaeth Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd rheoli'r feirws a lleihau'r trosglwyddiad yn golygu effeithiau cadarnhaol o ran cydraddoldeb i'r grwpiau hyn. Mae'r Gweinidogion yr un mor ymwybodol y bydd mesurau i reoli lledaeniad y feirws yn anochel yn cael effaith anghymesur ar gydraddoldeb ar draws y gymdeithas gyfan ond yn effeithio ar rai grwpiau megis oedolion ifanc a phlant, er enghraifft. Felly, dylai lleihau'r effaith ar grwpiau fel y rhain fod yn rhan annatod o'r dull a fabwysiadir ar gyfer rheoli'r pandemig yn barhaus. Mae lleihau rheolaethau i fesurau rheoli llinell sylfaen yn debygol o gael effeithiau parhaus ar bobl sydd mewn perygl o ddal COVID-19 a chael effeithiau niweidiol yn ei sgil (gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl (yn enwedig y rhai sydd â systemau imiwnedd gwannach), dynion, pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, a'r boblogaeth Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol). Gallai lleihau mesurau amddiffynol olygu bod y grwpiau penodol hyn yn profi ac yn teimlo risg uwch o ddod i gysylltiad â'r feirws. ac o ganlyniad bydd hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i fynd allan/cymryd rhan mewn gweithgareddau ac ati er mwyn ceisio amddiffyn eu hunain. Mae yna bobl na ellir eu brechu, am wahanol resymau, neu hyd yn oed pan fyddant wedi'u brechu ddwywaith, ychydig o imiwnedd neu ddim imiwnedd o gwbl i'r feirws sydd ganddynt. Mae hyn yn golygu y gallai'r bobl hyn brofi mwy o gyfyngiadau angenrheidiol (huananosodedig) a mwy o straen a phryder ar adeg pan fydd eraill yn cael mwy o ryddid.
10. O ganlyniad i'r rhaglen frechu lwyddiannus, mae cydbwysedd y niwed wedi newid yn sylweddol, a hynny wedi arwain at godi rhai cyfyngiadau oherwydd eu bod yn anghymesur â'r effaith o ran iechyd y cyhoedd. Fe'n gorfodir i oddef rhai effeithiau andwyol ar sail y risg i iechyd y cyhoedd a'r angen i reoli trosglwyddiad y feirws ond mae cael Ymyriadau Anfferyllol (NPIs) ar waith dros amser – a chan eu bod yn cael eu gwneud yn fwy cyfyngol o bryd i'w gilydd ac yna'n cael eu lliniaru – yn golygu bod yr effeithiau andwyol yn cael eu dwysáu dros amser.
11. Mae lle i liniaru'r effeithiau andwyol mwyaf sylweddol wrth ddethol mesurau (o fewn lefelau Rhybudd) drwy ddarparu pecynnau cymorth ariannol, er enghraifft, ond ni fydd modd mynd i'r afael â'r holl effeithiau anghymesur ac andwyol. Mae rhai o'r effeithiau hynny yn rhai tymor byr ond mae llawer yn debygol o gael effeithiau tymor hwy a gwaethygu'r anfanteision presennol. Mae risg i bobl sydd â system imiwnedd wannach, a phe na bai'r brechlyn yn effeithiol, byddai perygl gwirioneddol o dderbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau Drwy gydol y pandemig roedd 68% o'r marwolaethau a gofnodwyd ymhlith pobl anabl.

12. Ystyrir bod y dull o ymdrin ag aelwydydd estynedig yn Lefelau Rhybudd 1 – 3 yn cael effaith gadarnhaol (mewn termau cymharol) ar lesiant cymdeithasol pobl a all fod yn ynysig ac nad oes ganddynt deulu neu ffrindiau agos gerllaw i greu aelwyd estynedig, gan eu bod yn caniatáu i hyd at bedwar (Lefelau Rhybudd 2 a 3) a chwech (lefel rhybudd 1) gyfarfod mewn lleoliad a reoleiddir neu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, bydd pobl ar incwm is yn llai abl i fforddio mynd allan i gaffi, bwyty neu dafarn, felly bydd effaith y polisi yn atchweliadol (*regressive*) a gallai olygu na fydd yr hyblygrwydd y darperir ar ei gyfer ar gael iddynt i'r fath raddau. Yn ogystal, er na fydd busnesau lletygarwch yn cael gwerthu alcohol (lefel rhybudd 3) gallai hyn arwain at rai pobl yn yfed llai o alcohol, a allai gael effaith lesol ar iechyd y person hwnnw ac ar y teulu ehangach. Fodd bynnag, i rai unigolion gallai hyn annog mwy o yfed gartref gydag amrywiaeth o effeithiau negyddol posibl e.e. mwy o drais domestig.
13. Mae gweithio gartref (sy'n ofynnol ar lefelau 1 – 4 lle bo modd) yn fwy tebygol o fod yn opsiwn i'r rhai sy'n gweithio mewn swyddfa ac mewn swyddi â chyflogau uwch. Mae pryderon mai dynion a phobl nad ydynt yn anabl fydd yn dychwelyd i weithio mewn swyddfeydd, a allai godi materion pellach megis amrywiaeth yn y gweithle, diffyg gwelededd menywod a phobl anabl ac effaith hyn ar gydraddoldeb gwaith, perfformiad canfyddedig a dyrchafiad. Bydd yr effeithiau ar fenywod a phobl anabl yn cael eu hadolygu'n gyson a byddwn yn ymdrechu i nodi mesurau lliniaru addas pe bai materion o'r fath yn codi. Ni fydd y dewis o weithio gartref ar gael i bawb ac ni fyddai'n opsiwn i lawer o alwedigaethau â chyflog is – manwerthu, gwaith gofal, gwasanaethau cyswllt agos a lletygarwch a phobl nad yw eu lleoedd byw yn addas i weithio gartref.
14. Mae'n bosibl y bydd risg ychwanegol hefyd o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol neu bobl yn colli eu swyddi wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben neu wrth i gyflogwyr wneud addasiadau i ddarparu ar gyfer dychweliad pobl i'w gweithle. Y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n anghymesur ac yn andwyol yw pobl anabl a menywod. Mae mwy o risg hefyd i rai gweithwyr, fel y rhai sydd â system imiwnedd wannach, wrth ddychwelyd i'r gweithle. Bydd angen cynnal asesiadau risg cadarn er mwyn sicrhau diogelwch gweithwyr.
15. Nid yw'r cyfle i weithio mewn amgylchedd sy'n 'fwy diogel' ac sy'n cael ei gefnogi gan arferion lechyd a Diogelwch da ar gael i bawb. Mae hyn yn debygol o effeithio ar fenywod i raddau helaethach o ystyried y tebygolrwydd bod mwy o fenywod nag o ddynion mewn swyddi rhan-amser neu swyddi cyflog is, ac mewn swyddi yr effeithir arnynt. Nid yw gweithio gartref ychwaith yn 'beth da' i bawb ac mae'n llawer mwy heriol i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r gwahaniaethau'n cynnwys: diffyg lle i weithio gartref naill ai oherwydd maint y cartref neu'r ffaith eu bod yn gorfod ei rannu ag eraill; cost a dibynadwyedd band eang; biliau gwresogi a goleuo ychwanegol, ac effaith negyddol bod yn ynysig ar iechyd meddwl a llesiant, yn enwedig dros gyfnod y gaeaf. Gellir gwrthbwysu rhai costau cymudo ond byddai hynny'n dibynnu ar amgylchiadau unigolion. Mae'n bosibl y bydd rhai cymudwyr sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn pryderu mwy oherwydd nad oes modd cadw pellter cymdeithasol ac nad ganddynt unrhyw ffordd arall o deithio. Er mwyn lliniaru'r effaith negyddol hon, sicheir bod mesurau lliniaru eraill ar waith, megis masgiau wyneb.

16. Tynnodd adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-Gymdeithasol COVID-19 Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sylw at faterion yn ymwneud â gorlenwi yng nghartrefi Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME). Mae hanner y boblogaeth BAME yng Nghymru yn byw mewn eiddo rhent, o gymharu ag ychydig o dan draean o'r boblogaeth wyn. Mae pobl BAME sy'n rhentu yn fwy tebygol o fyw mewn eiddo rhent preifat nag eiddo cymdeithasol ar rent (o'u cymharu â'r cyfrannau tra thebyg o bobl wyn sy'n byw mewn eiddo rhent preifat ac eiddo cymdeithasol ar rent). Drwy Arolwg Cyflwr Tai Cymru (2017-18) rydym yn gwybod, yn gyffredinol, mai yn y sector rhentu preifat mae'r stoc hynaf o dai a chyfran uwch o dai o ansawdd gwael (e.e. tamprwydd neu beryglon eraill). Mae pobl o nifer o grwpiau BAME yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn na phobl Wyn Prydeinig. Dim ond 4.9% o bobl Wyn Prydeinig oedd yn byw mewn tai gorlawn (hynny yw, roedd ganddynt lai o ystafelloedd gwely nag yr oedd eu hangen arnynt i osgoi sefyllfa anfodddhaol o ran ystafell), o'i gymharu â 28.7% o Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a 27% o bobl Fangladeshaidd; tra bod 19.4% o bobl Dduon a 18.5% o bobl Arabaidd yn gwneud hynny. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â rhwystrau sy'n deillio o'r sectorau economaidd y mae Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o weithio ynddynt, nad yw gweithio gartref o reidrwydd yn opsiwn ymarferol i lawer o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol oherwydd lefelau uwch o orlenwi gartref, o gymharu â phobl Wyn.
17. Ni fydd unrhyw gyfyngiadau teithio y tu mewn i Gymru, ac eithrio yn lefel rhybudd 4 lle cynghorir pobl i aros gartref oni bai eu bod yn teithio gydag esgus rhesymol a ganiateir. Fodd bynnag, ni chaniateir teithio i mewn ac allan o ardaloedd lle mae nifer uchel o achosion yn y DU (Haen 3 yn Lloegr, Lefel 3 ac uwch yn yr Alban, a Gogledd Iwerddon i gyd) heb esgus rhesymol yn unrhyw un o'r Lefelau Rhybudd. Mae ein canllawiau'n cynghori'n gryf yn erbyn unrhyw daith nad yw'n hanfodol yn y DU). Er y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant i lawer (oni bai eu bod yn gweithio oriau hir iawn) drwy gael gwared ar amser cymudo o'r wythnos waith, bydd cyfyngiadau ar deithio yn parhau i gael effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb ac, yn dibynnu pa fesurau diogelwch sydd ar waith, ni fydd rhai pobl yn teimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r rhain yn codi o gyfyngu ar y lleoliadau lle mae pobl yn defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau hamdden ac mewn llawer o achosion bydd yn golygu atal pobl rhag cwrdd â theulu a ffrindiau os ydynt yn byw mewn rhannau eraill o'r DU neu dramor, a allai olygu bod mwy o bobl yn teimlo'n unig ac yn ynysig. Wrth i'r cyfyngiadau ar weithgareddau, treulio amser gyda phobl eraill a theithio i wneud y pethau hyn gael eu llacio, mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gallai'r cynnydd yng nghyfraddau'r feirws ac unrhyw lacio ar fesurau amddiffynnol (megis gwisgo gorchuddion wyneb) olygu bob pobl mewn mwy o berygl o Covid yn teimlo na allant ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus; i'r rhai sydd heb fathau eraill o deithio, gallai hyn eu hatal rhag teithio, gan achosi effaith wahaniaethol amlwg ar y garfan hon.
18. Mewn sectorau sydd wedi gweld effeithiau sylweddol oherwydd cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau, ac a fydd yn parhau i wneud hynny (yn enwedig ar Lefelau Rhybudd 3 a 4) byddwn yn gweld effaith anghymesur ar rai grwpiau: gweithwyr iau (yn enwedig mewn lletygarwch), menywod (yn enwedig mewn gwasanaethau manwerthu a chyswllt agos nad ydynt yn hanfodol), pobl

anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (yn enwedig mewn rhannau o'r sector lletygarwch, swyddi glanhau ac mewn gwasanaethau trafndiaeth gan gynnwys tacsis.) Caiff dynion eu cynrychioli'n anghymesur mewn sectorau a fydd yn cael eu heffeithio gan y mesurau rheoli arfaethedig gan gynnwys trafndiaeth a diogelwch, yn enwedig yn gysylltiedig â'r economi yn ystod y nos. O ran effaith economaidd-gymdeithasol, mae awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn adrodd am gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu cyfeirio at fanciau bwyd, ac yng nghyfran y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn am y tro cyntaf. Cafwyd adroddiadau hefyd bod 24% o famau o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn dweud eu bod yn cael trafferth bwydo eu plant. Mae tystiolaeth dda o gyfnod cynnar y pandemig bod y cyfrifoldebau gofalu ychwanegol sy'n codi o'r pandemig, gan gynnwys gofal plant, yn cael ei ysgwyddo mewn modd anghymesur gan fenywod. Bydd y gofyn ar blant i hunanynysu yn parhau os bydd achosion mewn ysgolion neu leoliadau gofal plant ac, yn seiliedig ar y cyfyngiadau symud cyntaf, bydd y gwaith o ofalu am blant a'u helpu i ddysgu, os bydd dysgu o bell yn digwydd, yn cael ei ysgwyddo'n fwy gan fenywod na chan ddynion. Bydd hyn yn effeithio ar allu rhai menywod i weithio ac ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae pryder y bydd hyn hefyd yn cael effaith tymor hwy ar yrfaeodd menywod a'u gallu i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Bydd busnesau yng Nghymru yn gallu parhau i fanteisio ar y Cynllun Cadw Swyddi, a fydd yn cynnig rhywfaint o gymorth ond drwy gydol y cyfnod hwn mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn cael eu diswyddo neu ddim yn gallu cael gwaith dan gontract, neu eu horiau'n cael eu cwtogi. Bydd hyn yn cynyddu anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n wynebu heriau sylweddol.

19. Ym mhob lefel rhybudd, lle bo hynny'n bosibl, bydd lleoliadau gofal plant, ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn agored i bob dysgwr ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb ar safle'r ysgol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn osgoi creu effeithiau andwyol pellach i blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, a rhai plant o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd unrhyw benderfyniad i symud tuag at ddysgu cyfunol, o dan y cyfyngiadau mwyaf difrifol, yn cael effaith andwyol, er enghraifft, ar deuluoedd incwm is a allai gael eu cyfyngu gan argaeledd TGCh i hwyluso dysgu plant. Mae gennym dystiolaeth glir y bydd cau ysgolion neu gyfyngu amser cyswllt ar safle ysgol, wyneb yn wyneb ag athro, yn cael effaith anghymesur ar blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol a rhai plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. O'r arolwg plant Coronafeirws a Fi a thystiolaeth arall mae'n fwy tebygol y bydd gan blant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol lai o le a thawelwch gartref i weithio oherwydd gorlenwi. Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 14 Rhagfyr, gosododd Llywodraeth Cymru gysail trwy ddeddfu i sicrhau, pe bai ysgolion cynradd yn penderfynu cau, y byddent yn parhau i gynnig darpariaeth addysg i ddysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol - a chedwir yr opsiwn i roi'r gyfarwyddeb hon mewn grym eto, yn y dyfodol.
20. Bydd canolfannau cymunedol, cyfleusterau cyhoeddus, megis llyfrgelloedd a chyrtau chwaraeon a pharciau sgelfrio yn parhau i fod ar agor ym mhob un o'r lefelau o gyfyngiadau heblaw lefel rhybudd 4. Bydd hyn yn cefnogi pob plentyn a pherson ifanc, ond yn benodol plant 7-11 oed o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a oedd yn llawer mwy tebygol o ddweud bod cau canolfannau

cymunedol a'r ffaith nad oeddent yn gallu mynd allan wedi effeithio ar eu dysgu (arolwg Coronafeirws a Fi). Roedd plant a phobl ifanc o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws holl ystodau oedran yr arolwg hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo bod cau llyfrgelloedd wedi effeithio ar eu dysgu. O ganlyniad, o dan gyfyngiadau lefel rhybudd 4, bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cael gweithredu gwasanaeth clicio a chasglu. Bydd rhai gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn dal i gael eu cynnal o ganolfannau cymunedol yn lefel rhybudd 4, gan gynnwys darparu gofal plant.

21. Bydd cadw gwasanaethau cyswllt agos, hamdden a manwerthu ar agor ym mhob cyfyngiad heblaw Lefel 4 yn cael effaith gadarnhaol ar fenywod a phobl ifanc sy'n cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sectorau hyn. Dylai caniatáu i ddosbarthiadau ymarfer corff barhau ym mhob cyfyngiad heblaw lefel rhybudd 4 fod yn gadarnhaol i bobl ar incwm isel gan y gallant fod yn fwy fforddiadwy nag aelodaeth o gampfa. Dylai hyn hefyd fod yn gadarnhaol i fenywod sy'n fwy tebygol na dynion o fynd i ddosbarthiadau ymarfer corff. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau ar letygarwch (yn enwedig ar Lefelau Rhybudd 3 a 4) a'r gofyniad ar y sector adloniant (sinemâu, alïau bowlïo) i gau (Lefelau Rhybudd 3 a 4) yn debygol o gael effaith negyddol ar fenywod, pobl ifanc a phobl o gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd wedi'u cynrychioli'n anghymesur yn y sector. Mae'r niwed economaidd hefyd yn debygol o gael ei deimlo gan y teulu ehangach gan gynnwys plant. Yn fwy cyffredinol, mae tystiolaeth gan Cyngor ar Bopeth a'r Resolution Foundation yn dangos nad yw effeithiau cydraddoldeb yn digwydd yn gyfartal a bod pobl anabl, gofalwyr, pobl sy'n agored i niwed yn glinigol a phobl ar incwm isel mewn mwy o berygl o golli eu swyddi.
22. Ystyrir bod galluogi addoldai i aros ar agor ym mhob lefel rhybudd – sy'n gofyn am eithriad rhag y rheolau ar gynulliadau - yn hanfodol i liniaru effeithiau negyddol yn y maes hwn.

Lefel rhybudd 0

23. Mae brechu wedi newid ein perthynas â'r feirws ac rydym yn symud i gyfnod newydd o'r pandemig. Diolch i waith caled y miloedd o bobl sydd wedi gweithio'n ddiflino ar ein rhaglen frechu lwyddiannus, gallwn fod yn obeithiol o ddyfodol â llai o gyfyngiadau.
24. Rydym yn hyderus bod cael dau ddos o'r brechlyn yn gwanhau'r cysylltiad rhwng heintiau, salwch difrifol, mynd i'r ysbyty a marwolaethau.
25. Mae hyn yn golygu nad yw'r cyfraddau achosion uwch, yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd o ganlyniad o'r amrywiolyn delta, yn arwain at yr un lefelau o salwch difrifol a welsom yn ystod dwy don gyntaf y pandemig. Mae niweidiau eraill y pandemig, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau, bellach yn dechrau gwrthbwysu'r niwed uniongyrchol yn sgil y feirws ac mae angen i ni adlewyrchu hynny yn ein dull o reoli'r coronafeirws.
26. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o *Gynllun Rheoli'r Coronafeirws yn nodi sut y gallwn symud y tu hwnt i'r mesurau lefel rhybudd 1 presennol i "lefel rhybudd sero"*

newydd, a fydd yn golygu symud i ffwrdd yn raddol oddi wrth gyfyngiadau cyfreithiol cymhleth.

27. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyflwynir ar gyfer y mesurau cyfyngu ar bob lefel rhybudd i'w weld yn Atodiad A ac mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i'w weld yn Atodiad B.

Ystyriaethau ychwanegol ac asesiadau effaith eraill

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)

28. Mae'r erthyglau ECHR canlynol yn debygol o fod yn berthnasol o ganlyniad i osod cyfyngiadau a gofynion fel y nodir yn y gwahanol lefelau rhybudd: erthygl 2 (hawl i fywyd), 5 (hawliau i ryddid); 8 (yr hawl i barch at gartref); 9 (rhyddid crefydd); 11 (hawliau i ymgynnull); 14 (gwaharddiad rhag gwahaniaethu), A1P1 (mwynhau eiddo) A2P1 (hawl i addysg). Mae'r rhain i gyd yn hawliau amodol a gall ymyrraeth â'r hawliau hyn fod yn gyfreithlon os oes angen yr ymyrraeth honno er mwyn ceisio cyflawni nod cyfreithlon a bod yr ymyrraeth yn gymesur â'r nod hwnnw.
29. Mae'r cyfyngiadau a gofynion hefyd yn cydbwysu ymyrraeth â'r hawliau uchod â'r hawl i fywyd (Erthygl 2 o'r ECHR) sy'n gosod rhwymedigaethau cadarnhaol ar y wladwriaeth i ddiogelu bywyd. Er y bydd y pecyn o fesurau yn lefel rhybudd 4 yn amharu ar lawer o erthyglau'r ECHR, ystyrir bod hyn yn gymesur er mwyn darparu ymateb iechyd cyhoeddus i bandemig y coronafeirws. Mae mesurau lefel rhybudd 4, gyda'r cyfyngiadau mwyaf difrifol ar symud ac ymgynnull, a chau busnesau ac adeiladau, yn taro cydbwysedd rhwng diogelu iechyd y cyhoedd a'r niwed cymdeithasol, ariannol, economaidd a'r niwed i lesiant a achosir gan y cyfyngiadau. Ystyrir mai po fwyaf o amser y mae'r mesurau hyn ar waith, y mwyaf o niwed a achosir i fywydau a bywoliaeth pobl.
30. Dylid nodi hefyd bod llawer o'r cyfyngiadau, yn enwedig ar symud ac ymgynnull yn destun esgusodion rhesymol – ar bob lefel rhybudd – a fydd yn galluogi pobl i ymgynnull dan do a theithio at ddibenion penodol. Yn ogystal, mae gofynion, er enghraifft i wisgo gorchuddion wyneb, yn destun eithriadau, y bwriedir iddynt liniaru rhai o'r effeithiau anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, mae'r gallu i gael gofal plant (lefelau rhybudd 1 - 4) – neu i rieni sengl greu aelwyd estynedig (lefelau rhybudd 1 - 4) - yn ceisio lliniaru effaith anghymesur y gofyniad i aros gartref ar fenywod. Yn yr un modd, mae'r eithriad mewn perthynas â darparu gofal (lefelau rhybudd 1 - 4) yn ceisio lliniaru'r niwed i

iechyd meddwl a chorfforol y gallai grwpiau agored i niwed ei ddioddef o ganlyniad i'r gofyniad hwn.

Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol

31. Mae goblygiadau'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol wedi cael eu hystyried hefyd. Mae asesiad o'r effaith wedi'i amlinellu isod:

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?
<i>Mae Erthygl 11 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) yn cydnabod hawl pawb i gael safon byw ddigonol ar ei gyfer ei hun a'i deulu, gan gynnwys cartref a digon o fwyd a dillad, ac i sicrhau bod ei amodau byw yn gwella'n barhaus.</i>	<u>Negyddol</u>: Bydd y pecyn o fesurau ar bob lefel rhybudd yn cael effaith negyddol ar fusnesau sy'n gweithredu o fewn y sectorau yr effeithir arnynt, a'u cyflogaeth, mae hyn yn arbennig o ddifrifol ar lefelau rhybudd 3 a 4 yn y sectorau lletygarwch ac mae'n arbennig o arwyddocaol gan fod llawer o weithwyr yn tueddu i fod o aelwydydd incwm isel. Ystyrir amcangyfrif o'r effeithiau economaidd eang a ddisgwylir ar gyfer busnesau sy'n gweithredu mewn sectorau cyfyngedig yn yr Asesiad Effaith Cryno hwn. <u>Cadarnhaol</u>: Mae cyflwyno system lefel rhybudd haenog wedi'i gynllunio i gael effaith gadarnhaol ar bob dinesydd a busnes yng Nghymru drwy ddarparu mwy o dryloywder, eglurder a sicrwydd ar y lefelau, y mesurau o fewn pob lefel a'r dangosyddion i'w hystyried wrth symud i fyny ac i lawr rhwng lefelau.	Bydd gweithwyr sy'n gallu elwa ar gynllun ffyrlo estynedig Llywodraeth y DU yn colli 20% o'u cyflog a'r rhan fwyaf (os nad pob un) o unrhyw gildyrnau y byddent wedi disgwyl eu derbyn. Mae bygythiad o ddiweithdra yn y dyfodol hefyd os bydd busnesau'n mynd yn anymarferol. Mae cyflwyno system Lefelau Rhybudd haenog yn ymateb yn uniongyrchol i alwadau gan fusnesau yng Nghymru am y dull hwn a ddylai fod yn "hawdd i fusnesau a'r cyhoedd ei ddeall a'i ddilyn". Y gobaith yw y bydd y dull hwn yn galluogi busnesau i gynllunio gydag rhywfaint yn fwy o sicrwydd.	Bydd yr effaith negyddol yn cael ei lliniaru i raddau gan becyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru a chynllun ffyrlo Llywodraeth y DU.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

32. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi cael ei ystyried wrth ddatblygu lefelau rhybudd i Gymru a datblygu lefel rhybudd 0.
33. Cyhoeddwyd asesiad effaith ar lefelau rhybudd a chyfyngiadau COVID-19 a'u heffeithiau [ar hawliau plant](#) ar 21 Rhagfyr 2020 ar gyfer lefelau rhybudd 1 – 4.

Lefel rhybudd 0 – Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Effeithiau ehangach ar yr economi, cymdeithas a llesiant

34. Er gwaethaf y gefnogaeth a gynigir i fusnesau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig COVID-19, mae'r effaith ar fywoliaeth pobl wedi bod yn sylweddol. Ymhlith y rhai a gafodd eu taro galetaf mae'r rhai sydd ar gyflogau is, pobl iau, y rhai â lefelau sgiliau / cymwysterau isel, pobl ag iechyd ac anabledau gwael a'r rhai o gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
35. Yn gyffredinol, bydd pobl yn waeth eu byd pan fydd yn ofynnol i fusnesau gau gan nad yw cynlluniau cymorth estynedig Llywodraeth y DU yn talu incwm llawn blaenorol pobl. Rhagwelir cynnydd mewn lefelau diweithdra erbyn hyn ac mae arwyddion clir y bydd creithiau hirdymor.
36. Y risg wrth i bobl fynd yn ddi-waith yw bod eu sgiliau'n tueddu i bylu, eu cysylltiad â'r farchnad lafur yn lleihau, ac – o ystyried y cysylltiad sefydledig rhwng diweithdra a llesiant – gall eu hiechyd meddwl a chorfforol ddioddef. Cynyddodd yr effeithiau hyn yn raddol wrth i hyd y cyfnod a dreulir yn ddi-waith gynyddu. Mae'r holl effeithiau hyn yn lleihau rhagolygon cyflogaeth a chyflogau yn y dyfodol^[2].
37. Disgrifir rhai o'r effeithiau a'r risgiau macroeconomaidd a sectororol posibl yn sgil cyflwyno system Lefelau Rhybudd yng Nghymru yn yr adran hon. Mae'r costau economaidd-gymdeithasol allweddol yn sgil y lefelau cyfyngu arfaethedig yng Nghymru wedi'u crynhoi ar lefel uchel iawn. Dylid ystyried y data a'r amcangyfrifon fel rhai dangosol yn unig.
38. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gyflogaeth yn y sectorau 'lefel rhybudd 1 – risg isel'¹ (h.y. y rhai a fyddai'n cau o dan yr haen hon) oddeutu 8,000f², sef 0.6% o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru. Er nad oes Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) swyddogol ar gael ar gyfer y sectorau hyn, gan ddefnyddio cyfrannau cyflogaeth sectoraidd, gallwn amcangyfrif bod GVA blynyddol 'Gwyrdd' yn 2018 tua £153m6, sef 0.2% o GVA Cymru. Yn fras, ystyrir bod yr effaith amcangyfrifedig ar GVA o ganlyniad i gyfyngiadau Lefel 1 yn debygol o fod yn fach iawn. Mae ychydig dros 800 o fentrau yn yr haen hon³.

¹ Y sectorau sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 yw 56301 Clybiau Trwyddedig, 9001 Y celfyddydau perfformio, 9002 Gweithgareddau cymorth ym maes y celfyddydau perfformio, 9004 Gweithredu cyfleusterau celfyddydol – er y gallai rhywfaint o weithgarwch barhau.

² Ffynhonnell: Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth 2019; NOMIS

³ Ffynhonnell: 2020 UK Business Counts; ONS

39. Mae diffiniadau Lefelau Rhybudd 1 a 2 yn eithrio tafarndai a bwytai yn benodol. Mae asesu'r effaith ar sectorau sy'n parhau i fod ar agor ond sydd â chyfyngiadau (er enghraifft cyfyngiadau ar nifer y cwsmeriaid a chau safleoedd sy'n gwerthu alcohol erbyn 10.20pm) yn heriol ac ar hyn o bryd nid oes llawer o wybodaeth ar gael.
40. Er bod asesu'r effaith ar sectorau sy'n parhau i fod ar agor ond sydd â chyfyngiadau yn heriol, mae rhyw arwydd y byddent yn cael trafferth o dan gyfyngiadau o'r fath. Er enghraifft, mae Emma McClarkin, prif weithredwr Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain, wedi dweud y byddai'r rheol chwech o bobl yn cael effaith negyddol uniongyrchol ar hyder y cyhoedd i ymweld â thafarndai. [Ychwanegodd](#) y bydd yn cael effaith uniongyrchol hefyd ar fasnach, a fydd yn cael ei theimlo'n galed ar draws diwydiant sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd codi'n ôl ar ei draed.
41. Amcangyfrifir fod cyfanswm y gyflogaeth yn y sectorau 'lefel rhybudd 2 – risg ganolig'⁴ - oddeutu 17,000⁵, sy'n cynrychioli 1.3% o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru. Er nad oes GVA swyddogol ar gael ar gyfer y sectorau hyn, trwy ddefnyddio cyfrannau cyflogaeth sectoraidd, gallwn amcangyfrif bod GVA blynyddol 'Oren' yn 2018 tua £367m⁶, sef 0.6% o GVA Cymru. Yn fras, ystyrir bod yr effaith amcangyfrifedig ar GVA o ganlyniad i gyfyngiadau lefel rhybudd 2 yn £20m yr wythnos. Mae bron i 1,400 o fentrau yn yr haen hon⁷.
42. Wrth ystyried effeithiau 'lefel rhybudd 3 – risg uchel', yn 2019 roedd 123,000 yn cael eu cyflogi mewn lletygarwch (llety a gwasanaethau bwyd) yng Nghymru, sy'n cynnwys 9.2% o gyfanswm cyflogaeth. Er y byddem yn disgwyl i lai o staff ar y cyfan fod yn gweithio pan fydd tafarndai a bwytai, sydd fel arfer ar agor i gwsmeriaid eistedd ynddynt, ond yn cynnig gwasanaethau tecawê, mae'n anodd pennu maint hyn. Fodd bynnag, roedd 13,000 yn cael eu cyflogi yn 2019 mewn busnesau a ddosbarthwyd fel 'siopau bwyd tecawê a stondinau bwyd symudol'. 'Roedd 'twristiaeth arall'⁸ sy'n cynnwys diwydiannau fel y celfyddydau perfformio, amgueddfeydd a swâu yn gyfrifol am gyflogi 20,000 o bobl yng Nghymru yn 2019, a byddai cyfyngiadau yn lefel rhybudd 3 yn effeithio'n negyddol arnynt. Yn fras, ystyrir bod yr effaith amcangyfrifedig ar GVA o ganlyniad i gyfyngiadau lefel rhybudd 3 yn £50m yr wythnos.

⁴ Y sectorau sydd wedi'u cynnwys yn lefel rhybudd 2 yw 56301 Clybiau Trwyddedig, 9001 Y celfyddydau perfformio, 9002 Gweithgareddau cymorth ym maes y celfyddydau perfformio, 9004 Gweithredu cyfleusterau celfyddydol, 9311 Gweithredu cyfleusterau chwaraeon a 9319 Gweithgareddau chwaraeon eraill

⁵ Ffynhonnell: Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth 2019; NOMIS

⁶ Yn seiliedig ar Gyfrifon Rhanbarthol ONS ar gyfer 2018. Mae cyfrifo'n rhagdybio bod GYC mewn is-sectorau adrannol yn cael ei ddynnu yn ôl cyfran cyflogaeth.

⁷ Ffynhonnell: 2020 UK Business Counts; ONS

⁸ Yn cynnwys y diwydiannau: gweithgareddau asiantaethau teithio, gweithgareddau gweithredwyr teithiau, gwasanaeth archebu arall a gweithgareddau cysylltiedig, y celfyddydau perfformio, gweithgareddau cymorth ym maes y celfyddydau perfformio, creu artistig, gweithredu cyfleusterau celfyddydol, gweithgareddau amgueddfeydd, gweithredu safleoedd ac adeiladau hanesyddol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr, gerddi botanegol a swolegol a gweithgareddau gwarchodfa natur, gweithredu cyfleusterau chwaraeon, gweithgareddau chwaraeon eraill, gweithgareddau difyrwrch a pharciau thema, gweithgareddau difyrwrch a hamdden eraill.

43. Gallai cau busnesau lletygarwch am wythnos (ac eithrio safleoedd tecawê, sy'n cael aros ar agor), y celfyddydau a hamdden arwain at golli tua £70 miliwn o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) sy'n rhoi rhywfaint o amcan o effaith wythnosol mabwysiadu cyfyngiadau "haen 3" Lloegr yng Nghymru, o ran GDP. Mae'r ffigur yn debygol o fod yn is o dan gyfyngiadau Lefel 3, pan gaiff gwasanaethau lletygarwch aros ar agor tan 6pm er y bydd llawer yn dewis peidio ag agor gan na fyddant yn cael gwerthu alcohol.
44. Os tybiwn gyflogaeth o 110,000⁹ yn y sector llety a gwasanaethau bwyd neu 8.3% o'r gweithlu heb gyfrif y rhai sydd eisoes yn gweithio¹⁰ mewn siopau tecawê ac ati, byddai hyn yn golygu pe bai 50% o'r rheini yn y diwydiant yn rhoi'r gorau i weithio o ganlyniad, byddai hyn yn 55,000 o weithwyr cyflogedig, neu dros 4% o weithlu Cymru ddim yn gweithio, er y byddent wedi bod yn gweithio fel arall. Pe bai 75% yn rhoi'r gorau i weithio, byddai'n 82,500 o weithwyr cyflogedig, neu dros 6% o weithlu Cymru ddim yn gweithio, er y byddent wedi bod yn gweithio fel arall. Pe baent i gyd yn cael 80% o'u cyflogau, gallai hyn fod yn cyfateb i tua £70 miliwn mewn enillion a gollwyd os nad yw 50% yn gweithio a £100 miliwn os nad yw 75% yn gweithio.
45. Gan ystyried effeithiau 'lefel rhybudd 4 – risg uchel iawn', yn 2020 yng Nghymru roedd 3,465 o fusnesau manwerthu nad yw'n hanfodol; 8,900 o fusnesau lletygarwch; 1,905 mewn gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â thwristiaeth; a 4,800 mewn categorïau eraill fel campfeydd, gofal personol a llyfrgelloedd¹¹. Ar draws y sectorau hyn, mae'r mwyafrif yn fusnesau bach a chanolig - gyda chrynodiad uchel yn y band micro. Mae'n bosibl y bydd rhai busnesau llai yn ei chael hi'n arbennig o anodd goroesi. Mae pecynnau ariannu ar y gweill i gefnogi'r rhain yn nhrydydd cam y Gronfa Cadernid Economaidd a'r cynlluniau arfaethedig i ailgyflwyno cam cyntaf y Gronfa ar draws pob band maint. Cefnogir cwmnïau mawr o fewn y cynllun hwn hefyd – ac maent yn tueddu i gefnogi llawer o fusnesau llai drwy'r gadwyn gyflenwi.
46. Bydd cau busnesau lletygarwch yn cael effaith negyddol hefyd ar bobl sy'n cymdeithasu mewn lleoliadau lletygarwch a gallai hyn arwain at fwy o deimladau o fod yn ynysig ac effeithio ar lesiant pobl. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl sy'n gweithio yn ystod y dydd ac nad ydynt yn gallu cwrdd ag eraill cyn 6pm ar ddyddiau'r wythnos (neu mewn rhai achosion ar benwythnosau).
47. Roedd cyfanswm o 223,000¹² o bobl yn cael eu cyflogi yn y sectorau dethol hyn (uchod) yn 2019. Yn fras, ystyrir bod yr effaith amcangyfrifedig ar GVA o ganlyniad i gyfyngiadau lefel rhybudd 4 yn £100m yr wythnos.

⁹ Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (2019) yn dangos bod 123,000 yn cael eu cyflogi yn y sector. Mae 110,000 yn enghraifft o adlewyrchu diswyddiadau disgwylidig yn 2020.

¹⁰ Roedd cyflogaeth o 13,000 mewn busnesau fel 'siopau bwyd tecawê a stondinau bwyd symudol' yng Nghymru yn 2019.

¹¹ Yn seiliedig ar restr o ddiwydiannau SIC a gasglwyd at ddibenion dadansodol a nodir yn **Atodiad B**. Gall hyn fod ychydig yn wahanol i'r [canllawiau](#) a gyhoeddwyd ynghylch pa fusnesau sy'n gorfod cau.

¹² Yn seiliedig ar swm y ffigurau wedi'u talgrynnu.

48. Bydd niwed economaidd tymor byr penodol ar ffurf mwy o ddiweithdra, sy'n gymesur â hyd y cau. Yn ei dro, bydd yr effeithiau hyn yn cael effaith andwyol ar iechyd a llesiant. Disgwylir effaith economaidd negyddol sylweddol o ganlyniad i'r gofyniad i gau pob busnes lletygarwch am 6pm ac i wahardd gwerthu alcohol (lefel rhybudd 3), sy'n cael effaith arbennig o sylweddol yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig, sy'n adeg brysur o'r flwyddyn fel arfer. Bydd y cyfyngiadau teithio hefyd yn cael effaith negyddol ar y sector twristiaeth, er bod lle i ryw faint o deithio i mewn ac allan o ardaloedd nad ydynt yn rhai Lefel 3 (neu uwch) cyfatebol yn y DU.
49. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pecyn cymorth gwerth £340 miliwn ar waith, wedi'i gyfeirio'n bennaf at y sectorau lletygarwch a thwristiaeth, i'w ddefnyddio ym mis Rhagfyr 2020 - Ionawr 2021 sy'n ategu cynlluniau Llywodraeth y DU.

Effeithiau ar Llesiant

50. Mae effeithiau negyddol sylweddol yn gysylltiedig â chyfyngu ar allu pobl i gymdeithasu ac ymgasglu yn yr awyr agored. Mae gofynion cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau ar gapasiti yn yr awyr agored yn cael effaith fawr ar y sector digwyddiadau yn benodol. Mae'r What Works Centre for Wellbeing yn nodi tystiolaeth gref y gall gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol cyfranogol wella llesiant pan fyddant yn dod â chyfranogwyr ynghyd yn yr un lle yn gorfforol¹³. Mae mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiadau, yn enwedig chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn cyfrannu at leihau unigrwydd ac ynysigrydd, yn helpu i greu cenedl iach a gweithgar, ac yn rhan annatod o'r agenda ataliol ehangach ar draws ystod o feysydd portffolio ar draws y llywodraeth.
51. Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg ar iechyd a llesiant (21 i 27 Mawrth 2021), a phan ofynnwyd i bobl sut roeddent yn teimlo yn ystod yr wythnos ddiwethaf, dywedodd 25% o bobl eu bod yn teimlo'n unig o bryd i'w gilydd ac roedd 11% yn teimlo'n unig drwy'r amser neu'n aml. Roedd tua 27% o bobl yn teimlo'n ynysig o bryd i'w gilydd, gyda 10% yn dweud eu bod yn teimlo fel hyn drwy'r amser neu'n aml. Dros y cyfnod hwn, roedd 14% yn dweud eu bod yn poeni am eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Mae hyn er gwaethaf y cyfyngiadau presennol sy'n caniatáu aelwydydd estynedig a rheol chwech mewn lleoliadau a reoleiddir. Dylai caniatáu rheol chwech dan do helpu llesiant y rhai a allai deimlo'n unig neu'n ynysig, drwy ganiatáu cyfleoedd pellach i gymdeithasu.
52. Ar wahân i hynny, yn yr un arolwg, dywedodd 41% o ymatebwyr eu bod wedi bod yn poeni 'ychydig' am fynd allan mewn mannau cyhoeddus a dywedodd 13% eu bod wedi bod yn poeni 'llawer' amdano. Mae hyn yn awgrymu bod lleiafrif sylweddol o boblogaeth Cymru sy'n bryderus am ddal coronafeirws, hyd yn oed ar ôl cael y brechlyn.
53. Dadansoddodd cam blaenorol o arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru (10 i 16 Mai 2021) y tueddiadau mewn atebion i gwestiynau dethol am lesiant pobl yn ystod y

¹ https://whatworkswellbeing.org/blog/places-spaces-and-loneliness-what-matters-for-participatory-art-and-sport/?mc_cid=c975bde8f8&mc_eid=e4236b0dbe

pandemig. Dywedodd 42% o'r ymatebwyr fod eu hiechyd meddwl yn waeth adeg yr arolwg o gymharu â chyn y pandemig, sy'n cyfateb i dros 1 filiwn o oedolion. Roedd menywod a phobl iau yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y pandemig.¹⁴

54. Cynhyrchodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddadansoddiad hefyd ym mis Rhagfyr 2021 a oedd yn edrych ar effaith Coronafeirws ar iselder ymysg oedolion yn y DU. Roedd hyn yn dangos bod tua un rhan o bump o oedolion yn debygol o fod yn profi rhyw fath o iselder ym mis Tachwedd 2020, sydd bron i ddwywaith y cyfraddau a adroddwyd cyn y pandemig. Roedd hefyd yn dangos bod oedolion iau, menywod, y rheini nad oeddent yn gallu fforddio costau annisgwyl a phobl anabl yn fwy tebygol o fod yn profi iselder.¹⁵

Asesiad Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

55. Gan fod cadw pellter cymdeithasol yn gosod cyfyngiadau capasiti ar leoliadau ac amgylcheddau gwaith, mae hynny'n golygu maei'r diwydiant lletygarwch, y celfyddydau, adloniant a hamdden, a theithio/trafnidiaeth sydd wedi cael eu taro galetaf. Dyma'r sectorau hefyd lle mae hi fwyaf anodd gweithio gartref.
56. Ar 31 Mai, y sector llety a gwasanaethau bwyd a sector y celfyddydau, adloniant a hamdden yw'r ddau sector o hyd â'r cyfraddau uchaf o ran defnyddio ffyrlo yng Nghymru, sef 34% a 31% yn y drefn honno, sy'n llawer uwch na chyfanswm cyfradd y defnydd yng Nghymru, sef 7%.
57. Byddai llacio'r cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn lleddfu'r pwysau ariannol ar fusnesau yn y sectorau hyn, er bod amrywiaeth o fewn sectorau a rhyngddynt. Mae cadw pellter cymdeithasol yn cyfyngu ar gapasiti, sy'n golygu bod yn rhaid i lawer o fusnesau gyfyngu neu, mewn rhai achosion, atal eu gweithgareddau nes bod y gofynion cadw pellter cymdeithasol yn dod i ben. Mae'r effaith fwyaf ar sectorau sy'n dibynnu ar ryngweithio cymdeithasol, er enghraifft y celfyddydau, hamdden ac adloniant, gyda busnesau'n nodi gostyngiad o tua 70-80% mewn capasiti ar gyfer rhai lleoliadau chwaraeon, 50-70% ar gyfer y rhan fwyaf o theatrau a 40-60% ar gyfer rhai sinemâu. Ar y pwynt isaf ym mis Mehefin 2020 roedd llai na chwarter y busnesau celfyddydol, adloniant a hamdden yn masnachu.
58. Byddai ailosod gofynion cadw pellter cymdeithasol yn golygu costau sylweddol, yn enwedig pe bai mesurau'n cael eu codi a'u hailosod dro ar ôl tro, er enghraifft mewn ymateb i amrywiadau tymhorol yn nhrosglwyddiad y feirws. Mae busnesau wedi dweud ei bod yn well ganddynt newid di-droi'n-ôl na newid cyflym, gan fod hynny'n rhoi mwy o sicrwydd iddynt allu cynllunio a buddsoddi. Byddai'n well ganddynt hefyd ganddynt weld mesurau'n cael eu cadw os ydynt yn lleihau'r risg o gyfnod clo yn y dyfodol neu ailosod cyfyngiadau llym. Ar gyfer rhai sectorau (er enghraifft digwyddiadau mawr), mae'r angen i gael amseroedd paratoi hirach i drefnu digwyddiadau yn cynyddu'r costau os caiff mesurau eu hailgyflwyno. Mae

¹⁴ <https://icc.gig.cymru/index.cfm?LinkServID=87E5E141-A625-4AE1-AB186CC009C10807>

¹⁵ [Coronavirus and depression in adults, Great Britain - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://www.ons.gov.uk/coronavirus/depression-in-adults)

awdurdodau lleol hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn mesurau cadw pellter cymdeithasol a fyddai'n gostus i'w hailgyflwyno ar ôl eu dileu.

59. Dylid nodi y gallai'r adeg pan gaiff cyfyngiadau pellter cymdeithasol a chyfyngiadau eraill olygu bod rhai o'r busnesau hynny a oedd yn cael eu cynnal gan gyllid Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Du yn ystod y cyfnod segur yn penderfynu na allant ailagor, am eu bod wedi colli staff neu am nad oes ganddynt ddigon o arian wrth gefn i allu ailagor yn hyderus.
60. Amcangyfrifir mai tua 8,000 yw cyfanswm y gyflogaeth yn y sectorau 'lefel rhybudd 1' (h.y. y rhai a fyddai'n cael eu cyfyngu o dan yr haen hon), sy'n cynrychioli 0.6% o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru. Mae ychydig dros 800 o fusnesau yn yr haen hon.
61. Mae codi'r cyfyngiadau hyn a symud i 'lefel rhybudd 0' yn golygu y gallai gweithgarwch economaidd ailddechrau yn y sectorau hyn. Unwaith y bydd busnesau'n dechrau gweithredu eto, mae cyfran fawr o weithwyr yn debygol o ddychwelyd i'w gweithleoedd. Os mai effaith symudiad gofalus rhwng lefel rhybudd 1 a chyfyngiadau Lefel Rhybudd 0 fydd cyfyngu ar ledaeniad y feirws (ac yn arbennig, amrywiolyn Delta), gall busnesau fod yn destun llai o gyfyngiadau yn y dyfodol. Wrth gwrs, bydd y graddau y mae busnesau a'r cyhoedd yn cadw at y cyfyngiadau yn cael effaith sylweddol ar hyn.
62. Ar wahân i hynny, yng nghanlyniadau diweddaraf arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd lechyd Cyhoeddus Cymru, dywedodd 41% o ymatebwyr eu bod wedi bod yn poeni 'ychydig' am fynd allan mewn mannau cyhoeddus a dywedodd 13% eu bod wedi bod yn poeni 'llawer' am hyn. Mae hyn yn awgrymu bod lleiafrif sylweddol o boblogaeth Cymru sy'n bryderus am ddal coronafeirws, hyd yn oed ar ôl cael y brechlyn. O ganlyniad, mae'n rhesymol disgwyl y bydd hyn yn effeithio ar eu hymddygiad unwaith y bydd cyfyngiadau'n cael eu lleddfu ymhellach, a bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar y galw mewn rhai diwydiannau. O dan y cyfyngiadau presennol, dywedodd 67% o ymatebwyr nad oeddent wedi gadael eu cartref i fwyta mewn caffi, tafarn neu fwyty ar unrhyw achlysur yn ystod y 7 diwrnod diwethaf ac nid oedd 17% wedi gadael eu cartref i siopa.

Effeithiau Economaidd

63. Gan fod cadw pellter cymdeithasol yn gosod cyfyngiadau capasiti ar leoliadau ac amgylcheddau gwaith, y diwydiant lletygarwch, y celfyddydau, adloniant a hamdden, a theithio/trafnidiaeth sydd wedi cael eu taro galetaf. Dyma'r sectorau hefyd lle mae hi fwyaf anodd gweithio gartref.
64. Ar 31 Mai, y sector llety a gwasanaethau bwyd a sector y celfyddydau, adloniant a hamdden yw'r ddau sector o hyd â'r cyfraddau uchaf o ran defnyddio ffyrlo yng Nghymru, sef 34% a 31% yn y drefn honno, sy'n llawer uwch na chyfanswm cyfradd y defnydd yng Nghymru, sef 7%. O fewn hyn, mae'r gofynion cadw pellter cymdeithasol sy'n weddill a'r cyfyngiadau ar gapasiti yn yr awyr agored yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar y sector digwyddiadau. Er bod rhai digwyddiadau'n gallu gweithredu ar hyn o bryd, mae'r cyfyngiadau presennol yn

golygu bod y refeniw, i lawer, yn is nag y byddai heb y cyfyngiadau, tra bod llawer o ddigwyddiadau eraill yn anymarferol tra bo'r cyfyngiadau'n parhau.

65. Canfu arolwg o'r diwydiant digwyddiadau ym mis Tachwedd 2020¹⁶ fod 75% o'r ymatebwyr sy'n cyflogi staff wedi gorfod rhoi staff ar ffyrlo. Mae tua hanner (52%) y rhai sy'n cyflogi staff naill ai wedi dileu swyddi, wedi rhoi rhybudd neu'n bwriadu dileu swyddi, neu'n rhagweld gorfod dileu swyddi. Mae'r golled ganolrifol fesul busnes sy'n ymateb i'r arolwg yn sgil yr argyfwng rhwng £50,001 a £100,000. Mae'r golled ganolrifol fesul busnes yn amrywio yn ôl maint y busnes. Mae'r golled ganolrifol ar gyfer y rheini sy'n cyflogi 1 i 5 aelod o staff o fewn yr ystod o £100,000 i £250,000, tra bo'r golled ganolrifol ar gyfer y rheini sy'n cyflogi mwy na 50 o staff yn fwy na £1,000,000¹⁷.
66. Byddai dileu cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn yr awyr agored yn lleddfu'r pwysau ariannol ar fusnesau yn y sectorau hyn, er bod amrywiaeth o fewn sectorau a rhyngddynt. Mae cadw pellter cymdeithasol yn cyfyngu ar gapasiti, sy'n golygu bod yn rhaid i lawer o fusnesau gyfyngu neu, mewn rhai achosion, atal eu gweithgareddau nes bod y cyfyngiadau pellter cymdeithasol yn cael eu dileu. Mae'r effaith fwyaf ar sectorau sy'n dibynnu ar ryngweithio cymdeithasol, er enghraifft y celfyddydau, hamdden ac adloniant, gyda busnesau'n nodi gostyngiad o tua 70-80% mewn capasiti ar gyfer rhai lleoliadau chwaraeon, 50-70% ar gyfer y rhan fwyaf o theatrau a 40-60% ar gyfer rhai sinemâu. 34 Ar y pwynt isaf ym mis Mehefin 2020 roedd llai na chwarter y busnesau celfyddydol, adloniant a hamdden yn masnachu.
67. Bydd dileu'r holl gyfyngiadau yn yr awyr agored yn helpu llawer o weithwyr yn y sectorau hyn i ddychwelyd i'r gwaith – gweithwyr a allai fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod yn cael 80% o'r cyflog roeddent yn ei gael cyn yr argyfwng – yn dychwelyd i'r gwaith. I lawer o bobl yng Nghymru, mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith niweidiol ar incwm eu haelwyd. Mae tystiolaeth o arolygon yn awgrymu bod 20% o bobl mewn sefyllfa waeth yn ariannol o ganlyniad i'r coronafeirws, ac mae 16% yn dweud eu bod mewn sefyllfa well.¹⁸ Mae pryderon wedi'u codi ynglŷn ag effaith niweidiol y coronafeirws ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig y rheini y mae eu haelodau'n gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws nag aelwydydd mwy cyfoethog, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfyngiadau symud drwy ddefnyddio cynilion (a all fod yn gyfyngedig) a'u bod felly'n cronni dyledion.¹⁹ Mae'r rheini sydd ar incwm is wedi bod yn fwy tebygol o weld eu hincwm yn disgyn, ac mae gweithwyr ar gyflogau is

¹⁶ <https://llyw.cymru/arolwg-or-effeithiau-ar-y-diwydiant-digwyddiadau-busnesau-yn-y-gadwyn-gyflenwi-covid-19-12-tachwedd>

¹⁷ Mae maint y sampl yn fach wrth adrodd canlyniadau yn ôl maint y busnes, ac felly mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn.

¹⁸ Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws: Wythnos 48: 1 – 7 Mawrth 2021.

¹⁹ Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.

wedi bod yn fwy tebygol na'r rheini sydd ar gyflogau uwch o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu o golli eu swyddi.²⁰

68. Byddai ailosod y gofynion cadw pellter cymdeithasol yn golygu costau sylweddol, yn enwedig pe bai mesurau'n cael eu codi a'u hailosod dro ar ôl tro, er enghraifft mewn ymateb i amrywiadau tymhorol yn nhrosglwyddiad y feirws. Mae busnesau wedi mynegi eu bod yn ffafrio symud di-droi'n-ôl yn hytrach na newid cyflym, gan fod hynny'n rhoi rhoi mwy o sicrwydd iddynt i allu cynllunio a buddsoddi, a byddai'n well ganddynt weld mesurau'n cael eu cadw os ydynt yn lleihau'r risg o gyfnod clo yn y dyfodol neu ailosod cyfyngiadau llym. Ar gyfer rhai sectorau (er enghraifft digwyddiadau mawr), mae'r angen i gael amseroedd paratoi hirach i drefnu digwyddiadau yn cynyddu'r costau os yw'r mesurau'n cael eu hailosod. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn mesurau cadw pellter cymdeithasol, a fyddai'n gostus i'w hailgyflwyno ar ôl eu dileu.
69. Dylid nodi y gallai'r adeg pan gaiff cyfyngiadau pellter cymdeithasol a chyfyngiadau eraill olygu bod rhai o'r busnesau hynny a oedd yn cael eu cynnal gan gyllid Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Du yn ystod y cyfnod segur yn penderfynu na allant ailagor, am eu bod wedi colli staff neu am nad oes ganddynt ddigon o arian wrth gefn i allu ailagor yn hyderus.
70. Yn arolwg iechyd a llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru (21 i 27 Mehefin) dywedodd 41% o ymatebwyr eu bod wedi bod yn poeni 'ychydig' am fynd allan mewn mannau cyhoeddus a dywedodd 13% eu bod wedi bod yn poeni 'llawer' am hyn. Mae hyn yn awgrymu bod lleiafrif sylweddol o boblogaeth Cymru sy'n bryderus am ddal coronafeirws, hyd yn oed ar ôl cael y brechlyn. O ganlyniad, mae'n rhesymol tybio y bydd hyn yn effeithio ar eu hymddygiad ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi ymhellach ac y bydd hynny, yn ei dro, yn effeithio ar y galw mewn rhai diwydiannau.

Effeithiau ar yr amgylchedd

71. O dan y cyfyngiadau mwyaf difrifol (lefel rhybudd 4) byddwn yn profi effeithiau amgylcheddol cadarnhaol, wrth i gyfyngiadau a chanllawiau gael eu cyhoeddi i gyfyngu ar deithio rhyngwladol. Mae'n debyg y bydd effaith amgylcheddol gadarnhaol yn gyffredinol gan fod llai o bobl yn teithio'n bell i ymweld â ffrindiau a theulu, atyniadau a safleoedd lletygarwch. Fodd bynnag, mae'r rheini sy'n teithio'n debygol o ddefnyddio mwy a mwy ar eu ceir eu hunain i wneud hynny pan fyddant yn cael gwneud. Mae data arolwg IPSOS Mori ar gyfer mis Tachwedd yn dangos bod tua thri chwarter (75% yn ffigurau 20-23 Tachwedd) yn cytuno â'r datganiad 'Byddaf yn osgoi trafnidiaeth gyhoeddus ac yn defnyddio fy nghar yn fwy nag o'r blaen'.
72. Bydd y gofyniad i unigolion weithio gartref, lle bo hynny'n bosibl, hefyd yn arwain at effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Dangosodd astudiaeth²¹ gan dîm y

²⁰ Resolution Foundation: [Incomes, savings and spending through the coronavirus crisis](#) November 2020

²¹ <https://essd.copernicus.org/articles/12/3269/2020/>

Prosiect Carbon Byd-eang ym mis Rhagfyr fod allyriadau carbon yn y DU wedi gostwng 13% yn 2020.

73. Mae graddau effaith gadarnhaol y mesurau cyfyngol hyn ar yr amgylchedd yn debygol o leihau po isaf yw lefel y rhybudd, gyda'r lefel isaf o fanteision amgylcheddol yn cael eu rhagweld ar lefel rhybudd 0.

Y Gymraeg

74. Cyfyngiadau lefel rhybudd 4 sy'n debygol o gael yr effaith negyddol fwyaf ar y Gymraeg, ac ystyrir bod yr effaith yn gymesur ar y cyfan â hyd y cyfyngiadau. Mae effeithiau'r cyfyngiadau yn debygol o amrywio'n sylweddol ar sail cefndir ieithyddol siaradwyr Cymraeg. I blant sy'n unig siaradwr Cymraeg yn eu haelwyd (sy'n wir am rai plant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg) gallai'r cyfleoedd i siarad Cymraeg gael eu lleihau'n ddifrifol gan gyfyngiadau ar ymgynnull dan do ac yn yr awyr agored, yn enwedig o'u cyplysu â chyfyngiadau ehangach ar addysg a sectorau economaidd. Fodd bynnag, mae'n anodd deall union effaith hyn yn llawn, gan y bydd llawer o siaradwyr yn defnyddio adnoddau digidol fel modd o oresgyn rhwystrau ffisegol i gymdeithasu. Fodd bynnag, bydd y gallu i wneud hynny'n rhwydd yn dibynnu ar yr ardal (gwahaniaeth rhwng trefi ac ardaloedd gwledig o ran cysylltedd band eang) ac oedran (gyda charfanau hŷn o'r boblogaeth â lefelau is o lythrennedd digidol na'u cymheiriaid iau).
75. Mae grwpiau cymunedol Cymraeg yn chwarae rhan allweddol wrth alluogi pobl i siarad Cymraeg â'i gilydd yn rheolaidd. Datgelodd arolwg diweddar a oedd yn edrych [ar effaith pandemig y coronafeirws ar grwpiau cymunedol Cymraeg](#) mai dim ond 20% o'r grwpiau hynny oedd wedi llwyddo i addasu eu gweithgareddau i weithredu mewn rhyw ffordd ers y cyfyngiadau symud cyntaf ddechrau ddiwedd mis Mawrth. Mae'n bosibl bod yr 80% arall wedi cadw mewn cysylltiad â'u grŵp, ond heb barhau i weithredu. O'r rhai a oedd wedi gallu gweithredu mewn rhyw ffordd, yn gyffredinol, roeddent yn teimlo eu bod yn llai effeithiol, yn cyfarfod yn llai aml a bod llai o bobl yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau. Pan ofynnwyd iddynt am eu disgwyliadau ar gyfer y dyfodol, credai 62% o'r grwpiau y byddent yn parhau i fodoli fel grŵp ymhén blwyddyn, pe bai'r rheolau cadw pellter gymdeithasol yn parhau mewn grym.

Effeithiau ar ardaloedd gwledig

76. Bydd y cyfyngiadau ar letygarwch (yn enwedig ar Lefelau Rhybudd 3 a 4) ynghyd â chyfyngiadau teithio yn cael effaith andwyol ar y diwydiant twristiaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae masnach tafarndai mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i ddibynnu'n drwm ar y min nos, felly bydd y cyfyngiadau lletygarwch yn cael effaith economaidd-gymdeithasol negyddol ar y busnesau hyn.
77. Yng Nghymru mae tua 20% o bobl yn byw mewn aneddiadau o lai na 2,000 o bobl. Mae 20% arall yn byw mewn aneddiadau o rhwng 2,000 a 9,999 o bobl. Mae hyn ychydig yn llai na chyfran y bobl sy'n byw mewn aneddiadau o 100,000 o bobl o leiaf (Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd). Felly, mae'r aneddiadau llai yn gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru. Gall maint yr anheddiad bach a'r

pellteroedd teithio dan sylw fod â goblygiadau o ran darparu gwasanaethau yn yr ardaloedd hyn.

78. Mae'r rhyngweithio rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol yn gymhleth. Bydd angen i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ymweld ag ardaloedd trefol o bryd i'w gilydd am resymau siopa, addysg, iechyd a chymdeithasol. I'r gwrthwyneb, bydd pobl o ardaloedd trefol yn ymweld ag ardaloedd gwledig neu'n teithio drwyddynt. Ni ellir ystyried bod y rhain yn ddau gategori ar wahân.
79. Mae ardaloedd gwledig yn tueddu i fod â chyfran uwch o bobl oedrannus na gweddill Cymru. Yn 2019 roedd pobl dros 65 oed oedd 21% o boblogaeth Cymru. Mae gan bob un o'r naw awdurdod lleol sy'n wledig, ar y cyfan, gyfran uwch o bobl dros 65 oed.

Effeithiau ar y Trydydd Sector

80. Mae canolfannau cymunedol wedi chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu cymorth i gymunedau drwy gydol y pandemig a byddant yn parhau i chwarae rhan bwysig yn ein huchelgeisiau i sicrhau adferiad teg, gwyrdd a theg. Bydd codi'r cyfyngiadau ar gynulliadau dan do ac yn yr awyr agored yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas gyfarfod ac i fwy o wasanaethau a arweinir gan y trydydd sector gael eu darparu.
81. Er bod y rhan fwyaf o ganolfannau cymunedol bellach ar agor, mae rhai wedi aros ar gau ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod hyn yn tueddu i fod yn ganolfannau cymunedol sy'n cael eu rheoli gan bobl sydd wedi ymddeol. Mae'r adborth o'n grwpiau rhanddeiliaid allanol wedi nodi dau brif reswm a) hyfywedd economaidd a b) ansicrwydd ynghylch rheoliadau, yn enwedig y niferoedd sy'n gallu bod yn bresennol. Bydd camau llacio pellach yn lleihau unrhyw ansicrwydd sy'n parhau. O ran hyfywedd economaidd, mae rhai canolfannau cymunedol wedi aros ar gau oherwydd bod cydymffurfio â'r gofynion cadw pellter cymdeithasol yn golygu nad oes digon o bobl yn cael mynychu'r ganolfan neu'r safle i'w gwneud yn ymarferol ei hgor.
82. Yn ogystal, bydd y bwriad i gadw asesiadau risg yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i ddefnyddwyr, yn enwedig y rhai y gofynnwyd iddynt warchod eu hunain, fod gan y safle fesur priodol ar waith i leihau trosglwyddiad Covid.
83. Mae gwirfoddolwyr yng Nghymru yn chwarae eu rhan mewn sawl agwedd ar fywyd - mewn chwaraeon a'r celfyddydau, mewn addysg ac iechyd, mewn crefydd, yn y sectorau preifat a chyhoeddus, ym maes y Gymraeg ac mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, ac yn yr amgylchedd. Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu'n aruthrol at wydnwch a chydlyniant cymunedol, ac at wneud pentrefi, trefi a dinasoedd Cymru yn lleoedd gwell i fod ynddynt. Mae tystiolaeth o ymateb y cyhoedd i'r pandemig yn dangos parodrwydd ar lawr gwlad i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed, gyda Gwirfoddoli Cymru yn gweld dros 25,200 o unigolion yn cofrestru ers mis Mawrth 2020.
84. Mae rôl gwirfoddolwyr yn y gwaith o gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y sector cyhoeddus yn arbennig o berthnasol, wrth inni adfer yn sgil y pandemig. Mae cyfleoedd gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn enfawr, gan ddenu gwirfoddolwyr o bob oed. Maent yn rhychwantu gofalu am ffrindiau, lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd, ac ôl-ofal a gofal diwedd oes. Yng

Nghymru, mae 10.44% o holl sefydliadau'r trydydd sector yn canolbwyntio ar iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw gwirfoddoli yn y sector 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn cael ei gofnodi'n benodol drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ategol yn dangos ei fod yn denu niferoedd uchel o wirfoddolwyr drwy'r sefydliadau/elusennau sy'n gweithio yn y sectorau hyn. Yn 2015, dangosodd arolwg Omnibws a ddadansoddwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod gan sefydliadau iechyd, anabledd a lles cymdeithasol dros 154,000 o wirfoddolwyr - sef 6% o oedolion Cymru.

85. Yn ogystal, bydd camau llacio pellach, sy'n cynyddu cyfleoedd a'r nifer sy'n gallu cymryd rhan, yn cefnogi cydlyniant cymunedol a gwydnwch. Mae'r rhain yn fanteision penodol lle mae cymunedau neu grwpiau'n trefnu eu hunain yn adeiladol o amgylch materion, prosiectau neu anghenion lleol.

Effeithiau o ran Diogelu Data/Preifatrwydd

86. Cesglir gwybodaeth am unigolion fel rhan o'r cynllun Profi, Orlhain a Diogelu.
87. Bydd gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu (TTP) GIG Cymru yn ymdrin yn ddiogel â data yn yr un modd â data iechyd arall yng Nghymru. Anfonir yr holl ddata gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru at SAIL (y gronfa ddata sy'n cynorthwyo'r Llywodraeth a'r GIG i fynd i'r afael â'r pandemig). Gwnaed Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru mewn perthynas â chyflwyno trefniadau olrhain cysylltiadau ar raddfa fawr yng Nghymru.
88. Mae TTP yn gweithio i leihau lledaeniad COVID-19 drwy ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sydd naill ai â'r feirws neu'r rhai sydd â'r risg uchaf o gael y feirws i hunanynysu am ddeg diwrnod. Bu hyn yn hollbwysig i'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn helpu i arafu ac atal trosglwyddiad COVID-19 i eraill. Yn ystod y cyfnod o lefelau uchel o drosglwyddo ac achosion y gaeaf hwn (y tu allan i'r cyfnod atal byr), amcangyfrifodd y Grŵp Cyngori Technegol fod y rhaglen TTP wedi peri i werthoedd R ostwng o tua 1.7 i 1.3. Drwy ddefnyddio gwerthoedd R diweddar a gwelliannau o ran cadarnhau achosion ac amseroedd profi ac olrhain, gellir peri i werthoedd R ostwng o tua 1.3 i 0.83.
89. Yn ogystal â'r alwad olrhain cysylltiadau, mae'r gwasanaeth TTP yn dibynnu ar y wybodaeth a gesglir gan rai busnesau. Mae hyn yn golygu, os yw trosglwyddo'n digwydd, y gall TTP ymateb yn gyflym a chyfyngu clystyrau hysbys. Mae hyn wedi rhoi beichiau ar fusnesau i gasglu'r wybodaeth hon, ond mae'n galluogi ymateb effeithiol o ran iechyd y cyhoedd drwy nodi mannau problemus a chadwyni trosglwyddo.
90. Mae llacio cyfyngiadau yn golygu bod pobl yn cyfarfod yn amlach mewn cyd-destunau gwahanol a lluosog. Os oes achosion positif yn bresennol, gallai hyn arwain at fwy o gyfleoedd i drosglwyddo, a allai arwain at fwy o achosion a chysylltiadau positif. Ers symud i lefelau rhybudd is, mae nifer y cysylltiadau wedi dyblu o'i gymharu â'r nifer mewn tonnau cynharach. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i fwy o bobl hunanynysu a byddai'r niwed cysylltiedig yn effeithio arnynt.
91. Drwy gydol pandemig COVID-19, mae'r niwed sy'n gysylltiedig â hunanynysu ac amharu ar hawliau pobl wedi'i ddogfennu'n eang ac wedi cynnwys effeithiau

negyddol ar iechyd corfforol a[1]meddylio ; incwm a busnes[2] a phlant a phobl ifanc[3]. Mae'r elfen Diogelu wedi'i chynllunio i liniaru effeithiau o'r fath. Mae elfen Diogelu'r rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu yn nodi unrhyw gymorth y gall fod ei angen i helpu a galluogi pobl i gael profion a hunanynysu'n llwyddiannus er mwyn atal lledaeniad COVID-19. Mae awdurdodau lleol yn cydlynw'r cymorth hwn i amrywiaeth eang o grwpiau penodol ar lefel leol, gan weithio gyda'r cyhoedd, cynghorau gwirfoddol sirol a sefydliadau yn y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ac atgyfeirio achosion at asiantaethau eraill, lle y bo'n briodol.

TTP mewn perthynas â'r Mesurau Llinell Sylfaen wedi'u Diweddaru

Egwyddorion ar gyfer mesurau llinell sylfaen.

Mae'r mesurau arfaethedig wedi'u cynllunio ar sail yr egwyddorion canlynol, er mwyn bod yn syml ac yn eglur:

- b. Dylai'r llinell sylfaen ddarparu'r graddau mwyaf posibl o lacio sy'n bosibl, gan gydnabod niwed ehangach y cyfyngiadau, tra'n cadw'r feirws ar lefelau y gellir eu rheoli.
- c. Bydd ailadeiladu'r economi, dychwelyd at hyfywedd ariannol i fusnesau a gweithredu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy arferol yn nod allweddol.
- d. Dylai gweddill y cyfyngiadau ar ryddid unigolion fod yn rhai sy'n cael effaith andwyol gymharol fach cyn belled ag y bo modd, heb fod yn cyfrannu at Gronni anghydraddoldebau neu niwed ehangach.
- d. Dylai'r mesurau helpu i ymgorffori ymddygiadau a thueddiadau cadarnhaol hirdymor sy'n gysylltiedig â nodau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r mesurau posibl sydd i fod ar waith ar lefel llinell sylfaen

Codi'r set derfynol o gyfyngiadau.

- Dim cyfyngiadau ar nifer y bobl sy'n gallu ymgynnull dan do neu yn yr awyr agored
- Dim cyfyngiadau ar nifer y bobl mewn digwyddiadau dan do neu yn yr awyr agored, gyda chapiau'n cael eu pennu gan asesiad risg (gyda mwy o reolaethau'n ddisgwyliedig dan do, ee awyru, olrhain cysylltiadau a liniaru risgiau i staff)

[1] [https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736\(20\)30460-8/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(20)30460-8/fulltext)

[2] <https://phw.nhs.wales/news/staying-at-home-policy-has-reduced-spread-of-coronavirus-but-has-also-had-other-positive-and-negative-impacts-on-the-well-being-of-welsh-society/a-health-impact-assessment-of-the-staying-at-home-and-social-distancing-policy-in-wales-in-response-to-th/>

[3] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/CoronavirusAndMe_Jan21_110221_CYM.pdf

- Gall yr holl fusnesau sy'n weddill agor (bydd angen trafodaeth bellach gyda chlybiau nos a'r sector adloniant i oedolion er mwyn ystyried cymhwyso'r mesurau hyn yn y lleoliadau hynny).

Mae codi cyfyngiadau yn golygu bod pobl yn cyfarfod yn amlach mewn cyd-destunau gwahanol a lluosog. Os oes achosion positif yn bresennol, gallai hyn arwain at fwy o gyfleoedd i drosglwyddo, a allai arwain at fwy o achosion a chysylltiadau positif. Ers symud i lefelau rhybudd is, mae nifer y cysylltiadau wedi dyblu o'i gymharu â'r nifer mewn tonnau cynharach. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i fwy o bobl hunanynysu a byddai'r niwed cysylltiedig yn effeithio arnynt.

Drwy gydol y pandemig COVID-19, mae'r niwed sy'n gysylltiedig â hunanynysu ac amharu ar hawliau pobl wedi'i ddogfennu'n eang ac wedi cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol^[1] incwm a busnesau^[2] a phlant a phobl ifanc^[3]. Mae'r elfen Diogelu wedi'i chynllunio i liniaru effeithiau o'r fath. Mae elfen Diogelu'r rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu yn nodi unrhyw gymorth y gall fod ei angen i helpu a galluogi pobl i gael profion a hunanynysu'n llwyddiannus er mwyn atal lledaeniad COVID-19. Mae awdurdodau lleol yn cydlynu'r cymorth hwn ar gyfer amrywiaeth eang o grwpiau penodol ar lefel leol, gan weithio gyda'r cyhoedd, cynghorau gwirfoddol sirol a sefydliadau yn y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ac atgyfeirio achosion at asiantaethau eraill, lle y bo'n briodol.

Mae Profi, Orlhain Diogelu (TTP) yn ganolog i'r mesurau sy'n weddill, wedi'u hategu drwy barhau â'r dyletswyddau cyfreithiol a ganlyn

- Cadw'r system TTP, gan gynnwys yr Ap olrhain cysylltiadau, a chadw'r ddyletswydd gyfreithiol i hunanynysu pan fydd swyddog olrhain cysylltiadau yn gofyn ichi wneud hynny
 - Dim effaith ychwanegol, ond mae'r niwed sy'n gysylltiedig â hunanynysu wedi'i ddogfennu'n eang ac wedi cynnwys effeithiau negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol; incwm a busnes a phlant a phobl ifanc. Mae TTP yn gweithio i leihau lledaeniad COVID-19 drwy ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sydd naill ai â'r feirws neu'r rhai sydd â'r risg uchaf o gael y feirws i hunanynysu am y cyfnod lleiaf yn unig.
- Cadw'r drosedd benodol o ddarparu gwybodaeth ffug i swyddogion solrhain cysylltiadau.
 - Dim effaith ychwanegol - mae TTP yn darparu gwybodaeth amser real ledled Cymru ar gwmpas y clefyd, pa mor gyflym y mae'n lledaenu, a lle mae problemau heintio. Mae tystiolaeth yn dangos bod TTP yn helpu i reoli lledaeniad y feirws, gan atal trosglwyddo ymlaen ac achub bywydau. Mae dysgu o fannau lle bu achosion yn llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni polisi ymhellach. Mae hyn yn cynnwys dysgu o bob cwr o Gymru am y ffyrdd gorau o gefnogi pobl sy'n agored i niwed a phwy sydd yn y

^[1] [https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736\(20\)30460-8/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(20)30460-8/fulltext)

^[2] <https://phw.nhs.wales/news/staying-at-home-policy-has-reduced-spread-of-coronavirus-but-has-also-had-other-positive-and-negative-impacts-on-the-well-being-of-welsh-society/a-health-impact-assessment-of-the-staying-at-home-and-social-distancing-policy-in-wales-in-response-to-th/>

^[3] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/CoronavirusAndMe_Jan21_110221_CYM.pdf

sefyllfa orau, fel arfer ar lefel leol, i ddarparu cymorth a chyngor i ddiwallu ystod o anghenion sy'n codi pan fydd pobl yn hunanynysu.

- Dyletswydd ar gyflogwyr i beidio â galluogi nac annog unrhyw un i fethu â hunanynysu
 - Dim effeithiau pellach, ond yn y drydedd don bresennol, rydym yn gweld arwyddion bod nifer y staff nad ydynt yn dod i'r gwaith oherwydd hunanynysu yn cyflwyno heriau o fewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a seilwaith hanfodol a mawr, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol. Serch hynny, mae'n hanfodol nad yw pobl yn cael eu hannog i beidio â hunanynysu - yn ystod y cyfnod lle'r oedd lefelau trosglwyddo ac achosion yn uchel y gaeaf hwn (y tu allan i'r cyfnod atal byr), amcangyfrifodd y Grŵp Cyngor Technegol fod TTP wedi lleihau R o tua 1.7 i 1.3. Drwy ddefnyddio gwerthoedd R diweddar a gwelliannau o ran cadarnhau achosion ac amseroedd profi ac olrhain, gellir peri i werthoedd R ostwng o tua 1.3 i 0.83).⁽⁴⁾
- Dyletswydd ar rai busnesau i gasglu manylion cyswllt i hysbysu TTP
 - Dim effeithiau pellach. Mae'r gwasanaeth TTP yn dibynnu ar y wybodaeth a gesglir gan rai busnesau. Mae hyn yn golygu, lle mae trosglwyddo'n digwydd, y gallwn ymateb yn gyflym i glystyrau hysbys a'u cyfyngu. Mae hyn wedi rhoi beichiau ar fusnesau i gasglu'r wybodaeth hon, ond mae'n galluogi ymateb effeithiol i iechyd y cyhoedd drwy nodi mannau problemus a chadwyni trosglwyddo.
- Cyfyngiadau ar deithwyr rhyngwladol yn dychwelyd i Gymru, yn gyson â dull y DU ac yn gysylltiedig â TTP
- Trefniant ardystio brechlynnau digidol am ddim i alluogi pobl i deithio'n rhyngwladol. [Defnydd dewisol o ardystio at ddibenion domestig.]

Gweithio gartref ac osgoi mynd i'r gwaith pan fyddwch yn sâl

- Canllawiau i annog pobl i weithio gartref os gallant ac ar gyfer busnesau i alluogi pobl i weithio gartref, ynghyd â mwy o ganolfannau gweithio o bell i roi mwy o hyblygrwydd a dewis i bobl a busnesau
- Canllawiau iechyd y cyhoedd sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd aros gartref pan fyddwch yn sâl.
 - Yr effaith ar TTP pe bai pobl yn gweithio gartref – byddai llai o gymysgu, llai o gyfleoedd i COVID-19 ledaenu a fyddai, gobeithio, yn arwain at lai o achosion a chysylltiadau na'r hyn a fyddai fel arall. Bydd atgyfnerthu negeseuon yn galluogi dealltwriaeth a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i atal y feirws rhag ledaenu a byddai'n golygu llai o gysylltiadau posibl.

Mesurau rhesymol sy'n gysylltiedig ag asesu risg mewn gweithleoedd, safleoedd manwerthu a lletygarwch a gwasanaethau cyhoeddus.

- Gofyniad cyfreithiol ar fusnesau ac eraill i gynnal asesiad risg COVID-19 gan ymgynghori â'r rhai sy'n gweithio ar y safle a'u cynrychiolwyr.
 - Mae rheolaethau ac asesiadau risg yn golygu llai o risgiau trosglwyddo a dylai hyn olygu bod llai o achosion a chysylltiadau nag a fyddai pe na baent ar waith. Dylai hyn hefyd olygu llai o absenoldeb staff.
- Gofyniad cyfreithiol ar bersonau sy'n gyfrifol am safleoedd i gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ledaenu coronafeirws a lleihau'r risg i staff (ond y rheoliadau yn llai penodol ynghylch mesurau lliniaru penodol).
 - Mae rheolaethau ac asesiadau risg yn golygu llai o risgiau trosglwyddo a dylai hyn olygu bod llai o achosion a chysylltiadau nag a fyddai pe na baent ar waith. Dylai hyn hefyd olygu llai o absenoldebau staff.
- Gofyniad cyfreithiol i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus ac o bosibl mewn rhai lleoliadau cyhoeddus dan do eraill, oni bai eu bod wedi'u heithrio neu lle mae'r cyd-destun yn gwneud hyn yn amhosibl e.e. bwyta ac yfed mewn bwyty.
 - Mae rheolaethau ac asesiadau risg yn golygu llai o risgiau trosglwyddo a olygu bod llai o achosion a chysylltiadau nag a fyddai pe na baent ar waith. Dylai hyn hefyd olygu llai o absenoldebau staff.
- Cydgynhyrchu a defnyddio fframweithiau sectorol i reoli'r gwaith o dynhau a llacio mesurau iechyd cyhoeddus, megis ar gyfer gorchuddion wyneb mewn ysgolion.
- Canllawiau ynghylch;
 - cadw pellter corfforol lle bo hynny'n bosibl,
 - cynnal awyru digonol mewn safleoedd,
 - osgoi lleoedd gorlawn,
 - hylendid anadlol a dwylo,
 - gwneud dewisiadau cyfrifol am leoedd gorlawn
- Sicrhau bod pecynnau profi LFD ar gael y eang, naill ai'n rhad ac am ddim drwy ysgolion, neu o bosibl drwy eu cyflenwi'n fasnachol, ac annog pobl i'w defnyddio.

Y gwahaniaeth rhwng Lefel Rhybudd 1 a'r mesurau llinell sylfaen awgrymedig

- Byddai clybiau nos a lleoliadau adloniant rhywiol yn cael agor ar yr amod y gallant asesu risg a lliniaru unrhyw risg trosglwyddo.
 - Ni fyddai unrhyw gyfyngiadau ar y niferoedd y caniateir iddynt gyfarfod, ond ar gyfer safleoedd a digwyddiadau a reoleiddir byddai'r niferoedd a ganiateir yn cael eu pennu gan asesiad risg.

- Mae rheolaethau ac asesiadau risg yn golygu llai o risgiau trosglwyddo a dylai hyn olygu llai o achosion a chysylltiadau nag a fyddai pe na baent ar waith.

Fodd bynnag, mae llacio cyfyngiadau yn golygu bod pobl yn cwrdd â mwy o bobl ac yn gwneud mwy o bethau mewn sectorau gwahanol a lluosog. Pe bai achosion positif yn bresennol, gallai hyn arwain at fwy o gyfleoedd i drosglwyddo, a allai arwain at fwy o achosion a chysylltiadau positif. Ers symud i lefelau rhybudd is mae nifer y cysylltiadau wedi dyblu o'r hyn ydoedd mewn tonnau cynharach. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i fwy o bobl hunanynysu a byddai'r niwed cysylltiedig yn effeithio arnynt. Gall hunanynysu arwain at ystod eang o effeithiau negyddol i'r unigolion a'r aelwydydd yr effeithir arnynt. Mae'r elfen Diogelu wedi'i chynllunio i liniaru effeithiau o'r fath.

- Gellid llacio'r gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb mewn rhai lleoliadau, ac ar gyfer lleoliadau fel ysgolion gellid eu pennu drwy asesiadau risg sy'n benodol i safle, a hynny'n gysylltiedig â fframwaith sydd wedi'i gydgynghyrchu ar gyfer llacio mesurau.

- Mae rheolaethau ac asesiadau risg yn golygu llai o risgiau trosglwyddo a dylai hyn olygu llai o achosion a chysylltiadau nag a fyddai pe na baent ar waith.

Fodd bynnag, gallai lleddfu cyfyngiadau a chael gwared ar y gofyniad i wisgo gorchudd wyneb arwain at fwy o gyfleoedd i drosglwyddo, a allai arwain at fwy o achosion a chysylltiadau positif. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i fwy o bobl hunanynysu a byddai'r niwed cysylltiedig yn effeithio arnynt. Gallai hyn hefyd arwain at fwy o absenoldebau staff.

Gallai hyn hefyd effeithio ar y rhai mwyaf agored i niwed a allai deimlo bod risg iddynt wrth fynd i leoliadau lle mae'r gofynion o ran gwisgo gorchudd wyneb wedi'u llacio.

- Byddai'r gofynion manwl ar gyfer mesurau rhesymol, gan gynnwys y statws arbennig a roddir i 2m o bellter corfforol a'r mesurau penodol iawn ar gyfer manwerthu a lletygarwch, yn cael eu troi'n ganllawiau ond byddent yn parhau i gael eu cynghori a'u hystyried ochr yn ochr â mesurau eraill pan gynhelir asesiadau risg.

- Gallai lleddfu cyfyngiadau a throi'r gofyniad i gadw pellter corfforol o 2m yn ganllawiau arwain at fwy o gyfleoedd i drosglwyddo, a allai arwain at fwy o achosion a chysylltiadau positif. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i fwy o bobl hunanynysu a byddai'r niwed cysylltiedig yn effeithio arnynt. Gallai hyn hefyd arwain at fwy o absenoldebau staff.

Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Lefel rhybudd 0 – Mesurau Llinell Sylfaen			
Grŵp neu nodwedd warchodedig	Asesu effaith: cadarnhaol neu negyddol	Crynodeb o'r asesiad	Camau lliniaru (arfaethedig)
<i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	Cadarnhaol: Bydd caniatáu i unrhyw nifer o bobl o wahanol aelwydydd gyfarfod am unrhyw reswm ym mhob lleoliad dan do ac yn yr awyr agored o fudd i'r rhai nad ydynt yn gallu gweld teulu a ffrindiau, gan liniaru effeithiau unigrwydd ac ynysigrwydd neu allgáu digidol. Efallai y bydd pobl o bob oed, ond yn enwedig pobl hŷn, yn poeni am fwy o risgiau o ganlyniad i gynnydd yn nifer y bobl sy'n cwrdd dan do mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio	Mae ymatebion i arolwg yn dangos mai pobl iau (18-29 oed) sydd fwyaf tebygol o boeni am eu hiechyd meddwl a theimlo'n ynysig. Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o fod yn poeni am eu hiechyd a'r risgiau o ddal COVID-19, ond maent hefyd yn fwy tebygol o fod wedi'u hallgáu'n ddigidol. Dangosodd arolwg gan yr ONS fod mwy o ymatebwyr rhwng 16 a 29 oed yn dweud eu bod yn teimlo'n unig yn aml, bob amser, neu rywfaint o'r amser. Mae Astudiaeth Gymdeithasol Covid UCL hefyd yn dangos canlyniadau tebyg: yn wythnosau 36-37 (cyhoeddwyd 3 Rhagfyr), roedd lefelau unigrwydd yn sefydlog iawn yn ystod y pythefnos diwethaf ond maent yn dal ychydig yn uwch (2%) nag yr oeddent dros yr haf cyn i gyfyngiadau newydd gael eu cyflwyno. Mae'r	Dylai deunydd cyfathrebu a chanllawiau bwysleisio'r risgiau sy'n gysylltiedig â ffurfio aelwydydd estynedig er mwyn i'r rheini sy'n eu ffurfio allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Dylid cyfleu bod y cysyniad yn ymwneud â gofal a chymorth ac y dylid felly greu aelwydydd estynedig gyda'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Dangoswyd yn Seland Newydd bod hyn yn lliniaru effeithiau negyddol cael eich eithrio o aelwyd estynedig os deallir bod gan eraill fwy o anghenion. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor sectorau/gwasanaethau/cyfl eusterau, a hynny gyda rhanddeiliaid a diwydiannau. Felly, mae canllawiau cynhwysfawr ar roi'r mesurau ar waith yn ddiogel ar gael i'r meysydd hynny lle mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio, a byddant yn cael eu paratoi fel y bo'n briodol i safleoedd eraill wrth i

		cynnydd mwyaf yn yr wythnosau diwethaf wedi digwydd ymysg pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae'r lefelau ar eu huchaf o hyd mewn oedolion iau, menywod, Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl ag incwm is o gartrefi, pobl sy'n byw gyda phlant, pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol, a phobl â chyflwr iechyd meddwl neu gorfforol sydd wedi cael diagnosis. Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac maent yn poeni mwy am gael y feirws a mynd yn ddifrifol wael (arolwg llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru). O ran gweithwyr cyflogedig, mae'r gyfran cyflogaeth ym maes twristiaeth yn sylweddol uwch ymysg pobl 16-24 oed. Gallai agor y sector arwain at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad i bobl ifanc pe bai hynny'n helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu	baratodau gael eu gwneud ar gyfer eu hailagor.
--	--	--	--

		cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).	
Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd²² a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi rhwystrau sy'n analluogi pobl â gwahanol fathau o namau, neu y gellid defnyddio'r cynnig i ddileu'r rhwystrau hynny)	Cadarnhaol : ar gyfer pobl anabl nad ydynt wedi bod angen cael darpariaeth cymorth a gofal, byddant yn cael cwrdd yn gymdeithasol gyda ffrindiau a theulu ychwanegol dan do <i>mewn aneddiadau preifat a llety gwyliau</i>. Cadarnhaol: bydd lleihau'r angen i wisgo masgiau wyneb anhryloyw yn helpu'r rhai sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau fel rhan allweddol o'u dulliau cyfathrebu. • Negyddol: Mae ystadegau'n dangos mai pobl anabl oedd nifer mawr ac anghymesur o'r marwolaethau'n gysylltiedig â COVID-19. Yn ogystal â'r risg gynyddol o farwolaeth, i rai pobl â namau gall fod perygl y bydd Covid yn achosi cymhlethdodau gyda chyflyrau presennol neu'n eu gwaethygu. Yn ogystal â mwy o risgiau iechyd, gall pobl anabl, yn enwedig y rhai sydd â systemau imiwnedd gwannach, fod yn bryderus iawn am fwy o risgiau iddynt wrth i bobl gymysgu mwy, a pheidio â chymdeithasu pan gaiff cyfyngiadau gorfodol eu	Mae adborth gan ofalwyr yn nodi bod diffyg darpariaeth arbenigol ar gyfer rhai grwpiau, fel y rheini sy'n gofalu am rywun ag anabledd dysgu, awtistiaeth neu ddementia, sy'n llai tebygol o allu deall a delio â'r tarfu ar eu trefn arferol. Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod cynrychiolaeth uwch o bobl anabl yn y sector hwn yng Nghymru – mae 19% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). Wrth i ragor o safleoedd ailagor, dylai pobl anabl elwa ar allu defnyddio amrywiaeth ehangach o wasanaethau a manteisio ar gyfleoedd eraill. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn	Mae canllawiau ar ailagor y sector lletygarwch yn ddiogel wedi'u cyhoeddi, ynghyd â chynghor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Bydd llywodraethau lleol yn ystyried yr effaith ar gydraddoldeb wrth ystyried estyniadau i dir y cyhoedd. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i fusnesau twristiaeth a lletygarwch ar gyfer agor yn raddol ac yn diogel yn nodi y dylai sefydliadau ystyried hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cael gafael ar leoliadau neu wasanaethau. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio ar gyfer busnesau twristiaeth, e.e. i roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i weithdrefnau archebu neu sut y bydd y gyrchfan yn cynorthwyo pobl anabl fel y gallant barhau i gael mynediad i'r lleoliad mewn ffordd ddiogel. Enghraifft arall yw darparu gwybodaeth

²² Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanalluogi gan eu namau ond gan rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnwyd a chwiliwch am 'model cymdeithasol'.

	codi ymhellach yn lefel 0, gan arwain at fod yn unig a gosod cyfyngiadau arnynt eu hunain, yn enwedig os caiff mesurau diogelu fel cadw pellter a gwisgo masgiau eu dileu. • Brechiadau – nifer sylweddol o bobl nad ydynt wedi’u brechu o hyd am wahanol resymau megis rhai meddygol, neu bobl sydd wedi’u brechu ddwywaith ond nad oes ganddynt imiwnedd o hyd. • Mae risg o system ddwy haen ar gyfer y gweithlu, yn dibynnu a yw’r unigolyn yn gweithio gartref ai peidio, ac effaith ar yrfa a datblygu gyrfa. Bydd angen canllawiau clir i gefnogi cyflogwyr a gweithwyr a pharheir i gadw llygad agos ar y sefyllfa. • Mae mwy o risg hefyd i rai gweithwyr, a allai fod â system imiwnedd wannach, wrth iddynt ddychwelyd i'r gweithle. Bydd asesiadau risg cadarn iawn yn hollbwysig. • Mae risg ychwanegol o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol neu bobl yn colli eu swyddi wrth i'r ffyrlo ddod i ben neu fod angen i gyflogwyr wneud addasiadau i ddarparu	teimlo’n ynysig; yn darparu mynediad gwell at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. Ni fydd y budd cadarnhaol posibl hwn, wrth gwrs, yn berthnasol i bobl anabl sy'n teimlo bod angen iddynt osod cyfyngiadau ychwanegol arnynt eu hunain oherwydd eu bod yn teimlo mewn perygl o Covid yng nghyd-destun llai o gyfyngiadau a mesurau diogelu.	ychwanegol i ymwelwyr sydd â nam ar eu golwg cyn eu hymweliad, o ran newidiadau i fynedfa’r adeilad neu’r safle a llwybrau newydd a mwy cymhleth i ymwelwyr eu dilyn ac, yn gyffredinol, drwy sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael i ymwelwyr yn hygyrch. Mae’r canllawiau hefyd yn datgan bod gan gyflogwyr ddyletswyddau statudol tuag at weithwyr anabl a bod rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i wneud yn siŵr nad ydynt dan anfantais.
--	---	--	--

	ar gyfer dychweliad pobl i'w gweithle. Mae trafndiaeth gyhoeddus ac anallu i gadw pellter cymdeithasol dal yn fater sy'n peri pryder. Ni all llawer o bobl sy'n fwy agored i'r feirws gadw pellter cymdeithasol ar drafnidiaeth gyhoeddus ond nid oes ganddynt ddewis arall heblaw ei ddefnyddio.		
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	Cadarnhaol: Efallai fod y cyfyngiadau wedi cyfyngu ar y gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth a fyddai'n cael effaith negyddol ar lesiant.	<i>Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol</i>	<i>Amh.</i>
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Cadarnhaol: Mae'n bosibl fod y cyfyngiadau ar gwrdd ag aelwydydd eraill wedi gwaethygu teimladau o unigrwydd a theimlo'n ynysig a'r gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth.	<i>Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol</i>	<i>Amh.</i>
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	Cadarnhaol: Dim effeithiau gwahaniaethol penodol ar aelwydydd Negyddol: Mae'n hysbys fod unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu mwy o risg yn sgil effeithiau'r coronafeirws ac fe allent fod yn fwy pryderus ynghylch llacio'r cyfyngiadau. Mae risg o system ddwy haen ar gyfer y gweithlu, yn dibynnu a yw'r unigolyn yn gweithio gartref ai peidio, ac effaith ar yrfa a datblygu gyrfa. Bydd		Gweithgareddau cyfathrebu cyffredinol ar y risgiau i grwpiau gwahanol a'r angen parhaus i bawb barhau i ddilyn canllawiau fel cadw pellter cymdeithasol a sicrhau hylendid da.

	angen canllawiau clir i gefnogi cyflogwyr a gweithwyr a pharheir i gadw llygad agos ar y sefyllfa. • Mae mwy o risg hefyd i rai gweithwyr, a allai fod â system imiwnedd wannach, wrth iddynt ddychwelyd i'r gweithle. Bydd asesiadau risg cadarn iawn yn hollbwysig. • Mae risg ychwanegol o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol neu bobl yn colli eu swyddi wrth i'r ffyrlo ddod i ben neu fod angen i gyflogwyr wneud addasiadau i ddarparu ar gyfer dychweliad pobl i'w gweithle. • Y Rhaglen Frechu – nifer sylweddol o bobl nad ydynt wedi'u brechu o hyd am wahanol resymau. Mae yna rai sy'n dymuno cael eu brechu ond nad oes ganddynt unrhyw fanylion adnabod na dogfennau a/neu nad ydynt wedi'u cofrestru gyda meddyg. Cadarnhaol: Mae tystiolaeth gan BAWSO yn dangos eu bod, o fis Mawrth 2020 i fis Ionawr 2021, wedi cefnogi 49 o ddioddefwyr trais ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod o gymharu â 151 o ddioddefwyr yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020. Yn ôl ffigurau llywodraeth y DU, mae nifer y gorchmynion diogelu oherwydd priodasau		
--	---	--	--

	dan orfod a roddwyd yng Nghymru wedi plymio ers dechrau'r pandemig, gan fynd o 60 yn 2019 i lai na phump yn 2020. Negyddol: Gall llacio'r cyfyngiadau ar deithwyr rhyngwladol sy'n dychwelyd i Gymru, sy'n gyson â dull y DU ac yn gysylltiedig â TTP, olygu bod cynnydd yn nifer y rhai yr eir â hwy o'r DU at ddibenion priodas dan orfod.		
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Cadarnhaol: Mae addoldai wedi gallu bod ar agor ers peth amser ac mae'r rhan fwyaf o weithgareddau addoli wedi gallu digwydd gan gynnwys pethau fel canu cynulleidfaoel, bedyddio, a Langar (darparu prydau elusennol mewn Sikhiaeth). Fodd bynnag, mae llawer o'r pethau hyn wedi bod yn gyfyngedig eu natur oherwydd goblygiadau cadw pellter corfforol a gwisgo masgiau. Byddai dileu'r rhwystrau hyn yn debygol o wella'r profiad o addoli a dod ag ef yn nes at y profiad o fynegi eu ffydd (fel Hawl Dynol) yr oedd addolwyr wedi arfer ag ef. Gan y byddai capasiti'n cynyddu, byddai cymunedau ffydd yn elwa lle mae cynulleidfaoedd wedi bod yn rhy fawr i ffitio mewn mannau addoli sydd ar gael. Byddai hyn yn cael effaith benodol ar Fwslimiaid a chymunedau tebyg. Nid yw cadw'r ddyletswydd i asesu risg ar gyfer trefnwyr addoldai yn debygol o gael llawer o effaith negyddol gan	Nid yw'r data ar grefydd rhai sy'n ymweld ag atyniadau i dwristiaid yn cael eu casglu drwy arolygon swyddogol. Treuliwyd ychydig o amser yn chwilio drwy dystiolaeth ac nid oes unrhyw dystiolaeth eilaidd berthnasol ar gael na data procsi ar brofiadau ac ymddygiadau teithio'r grŵp hwn.	Mae canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel wedi'u cyhoeddi, ynghyd â chynghor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Bydd darpariaethau ar gyfer asesiadau risg a mesurau rhesymol i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu yn parhau er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.

	fod grwpiau wedi arfer â'r cyfrifoldeb hwn o brofiad diweddar. Negyddol: Mae siawns y gallai rhai addolwyr sy'n teimlo, neu a allai deimlo, yn arbennig o agored i Covid deimlo'n llai abl i addoli mewn amgylchedd lle mae arferion yn llai diogel o ran Covid. Gallai hyn gael effaith benodol ar gydraddoldeb mewn perthynas ag oedran ac anabledd. Ar hyn o bryd, yn naturiol, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i ddilysu'r pryder hwn.		
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Cadarnhaol: Mae'n ymddangos bod y cyfyngiadau'n effeithio ar wahanol rywiau mewn gwahanol ffyrdd, ac y gellid lliniaru hyn drwy lacio'r cyfyngiadau. Cadarnhaol: mae cyfran y gweithwyr yn y <u>sector lletygrwch</u> sy'n fenywod ychydig yn uwch nag y mae yng ngweithlu Cymru yn gyffredinol, felly mae'n bosibl y bydd effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. Cadarnhaol: Hefyd mae menywod yn fwy tebygol o fod wedi nodi lefelau is o lesiant meddyliol o ganlyniad i beidio â gallu parhau i ryngweithio'n gymdeithasol yn ôl yr arfer. Gallai llacio'r cyfyngiadau yn y <u>sector lletygarwch</u> helpu i fynd	Menywod yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n darparu gofal, â thâl ac yn ddi-dâl, a menywod yw'r rhan fwyaf o weithwyr iechyd, ac maent yn fwy tebygol na dynion o roi gofal di-dâl gartref (Grŵp Cyllideb Menywod, COVID-19: Materion Rhywedd a Chydraddoldeb). Gofalwyr sy'n gweithio, a fydd yn gorfod cydbwysu'r ffaith fod gwasanaethau lleol yn ailgychwyn a gofalu am rywun sy'n agored i niwed. (<i>Carers UK</i>). Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod	Mae canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel wedi'u cyhoeddi, ynghyd â chynghor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Bydd y pecyn o fesurau (wedi'u llacio rywfaint) yn Haen 1 i gyd yn darparu mynediad at fwy o fathau o gymorth i fenywod sydd ei angen.

	i'r afael â theimladau o leihad mewn llesiant. Cadarnhaol: Er nad oes gwybodaeth ar gael yn benodol ar gyfer ffeiriau, fel arfer mae twristiaeth yn cyflogi mwy o fenywod na dynion. Felly, wrth i ragor o fusnesau perthnasol gael yr hawl i ailagor dylai hynny helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). Cadarnhaol: Mae menywod yn dueddol o fod yn bennaf gyfrifol am roi gofal, gan gynnwys i blant yn ystod gwyliau'r ysgol. Dylai mynediad at fwy o amwynderau wella profiad plant a lles y rhai sy'n gofalu amdanynt. Cadarnhaol: Bydd codi'r cyfyngiadau ar gynulliadau dan do ac yn yr awyr agored yn ogystal ag ar y busnesau sy'n weddill yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais domestig (VAWDASV) ddatgelu camdriniaeth. Dengys tystiolaeth fod adroddiadau i'r heddlu am ddigwyddiadau trais rhywiol wedi gostwng yn ystod y pandemig, sy'n gyson â throseddau treisgar eraill y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt. Negyddol: Gall codi'r cyfyngiadau ar symud cyffredinol, digwyddiadau ac	50% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a thai bwyta yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru. Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu y gallai menywod elwa ar ailgydio mewn rhyngweithio cymdeithasol 'normal', fel pryd o fwyd gyda ffrindiau neu deulu/teulu estynedig, a allai roi hwb i lesiant seicolegol. Bydd cyfleoedd i ddychwelyd i weithio yn helpu i leihau'r pryderon sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud, gan gynnwys pryderon ariannol. Mae arolygon yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o fod yn hunanyysu, o boeni'n fawr am eu hiechyd meddwl, o deimlo'n bryderus ac o deimlo'n ynysig. Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfyngiadau symud yn cael effaith negyddol ar eu cwsgr.	
--	--	---	--

	economi'r nos gynyddu nifer yr achosion o VAWASV • Mae risg o system ddwy haen ar gyfer y gweithlu, yn dibynnu a yw'r unigolyn yn gweithio gartref ai peidio, ac effaith ar yrfa a datblygu gyrfa. Bydd angen canllawiau clir i gefnogi cyflogwyr a gweithwyr a pharheir i gadw llygad agos ar y sefyllfa. • Mae'n bwysig cadw staff yn y sectorau gofal a manwerthu, sy'n cyflogi menywod yn bennaf, yn ddiogel drwy gam nesaf y rheoliadau.		
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Cadarnhaol: Mae'n ymddangos bod y cyfyngiadau'n effeithio ar wahanol rywiau mewn gwahanol ffyrdd, a gellid lliniaru hyn drwy lacio'r cyfyngiadau. Cadarnhaol: mae cyfran gweithwyr y sector lletygarwch sy'n fenywod ychydig yn uwch nag y mae yng ngweithlu Cymru yn gyffredinol, felly mae'n bosibl y bydd effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. Cadarnhaol: Hefyd mae menywod yn fwy tebygol o fod wedi nodi lefelau is o lesiant meddyliol o ganlyniad i beidio â	Mae'n bosibl y byddant yn elwa ar allu cymryd rhan mewn gweithgareddau 'normal' eto, gan gynnwys cymdeithasu'n ddiogel ac yn gyfrifol â ffrindiau a rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, yn enwedig os ydynt wedi treulio'r cyfnod cyfyngiadau symud ar eu pen eu hun neu mewn amgylchedd cartref anghefnogol.	

	gallu parhau i ryngweithio'n gymdeithasol yn ôl yr arfer. Gallai llacio'r cyfyngiadau yn y sector lletygarwch helpu i fynd i'r afael â theimladau o lefelau is o lesiant. Cadarnhaol: Er nad oes gwybodaeth ar gael yn benodol ar gyfer ffeiriau, fel arfer mae twristiaeth yn cyflogi mwy o fenywod na dynion. Felly, wrth i ragor o fusnesau perthnasol gael yr hawl i ailagor dylent helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). Cadarnhaol: Mae menywod yn dueddol o fod yn bennaf gyfrifol am roi gofal, gan gynnwys i blant yn ystod gwyliau'r ysgol. Dylai mynediad at fwy o amwynderau wella profiad plant a lles y rhai sy'n darparu'r gofal. Cadarnhaol: Bydd codi'r cyfyngiadau ar gynulliadau dan do ac yn yr awyr agored yn ogystal ag ar y busnesau sy'n weddill yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddioddefwyr VAWDASV ddatgelu camdriniaeth. Dengys tystiolaeth fod adroddiadau i'r heddlu am ddigwyddiadau trais rhywiol wedi gostwng yn ystod y pandemig sy'n gyson â throseddau treisgar eraill a gofnodwyd gan yr heddlu. Negyddol Gallai llacio'r cyfyngiadau a'r cynnydd mewn cymysgu arwain at gynnydd		
--	---	--	--

	cyffredinol o ran trosglwyddo clefydau a heintiau rhywiol. Mae hyn yn debygol o gael effaith, yn enwedig ymhlith y gymuned LGBTQ. Negyddol: Gallai codi'r cyfyngiadau ar symud cyffredinol, digwyddiadau ac economi'r nos gynyddu nifer yr achosion o VAWASV		
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Cadarnhaol: Mae tystiolaeth gan BAWSO yn dangos eu bod, o fis Mawrth 2020 i fis Ionawr 2021, wedi cefnogi 49 o ddioddefwyr trais ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod o gymharu â 151 o ddioddefwyr yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020. Yn ôl ffigurau llywodraeth y DU, mae nifer y gorchmynion diogelu oherwydd priodasau dan orfod a roddwyd yng Nghymru wedi plymio ers dechrau'r pandemig, gan fynd o 60 yn 2019 i lai na phump yn 2020. Negyddol: Gall llacio'r cyfyngiadau ar deithwyr rhyngwladol sy'n dychwelyd i Gymru, sy'n gyson â dull y DU ac yn gysylltiedig â TTP, olygu bod cynnydd yn nifer y rhai yr eir â hwy allan o'r DU at ddibenion priodas dan orfod.	Roedd pobl a oedd yn briod neu'n cydfyw yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo'n unig (unigrwydd y 'cyfnod clo' ac unigrwydd cronig) (arolwg barn a ffordd o fyw yr ONS, Mai 20). Dim tystiolaeth benodol, ond rth i ragor o adeiladau agor, dylai cyplau elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a dylai hyn hybu llesiant.	<i>Amh.</i>
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Cadarnhaol: Nid yw plant o dan 11 oed wedi'u cynnwys yn y chwech o bobl sy'n cael cwrdd dan do mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio. Cadarnhaol: os bydd rhieni'n dychwelyd i weithio, gallai hynny fod yn arwydd o ddychwelyd i fywyd 'normal' a galluogi rhieni i ddarparu'n well ar gyfer eu plant	Roedd yr arolwg 'Coronafeirws a Fi' o tua 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu profiadau o bandemig y coronafeirws a'u hymatebion, eu gobeithion a'u pryderon ar gyfer y	Amh

	Negyddol: os bydd rhieni'n dychwelyd i weithio, gallai hynny achosi teimladau o bryder lle bu cyswllt sylweddol o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.	dyfodol (Erthygl 12, CCUHP). Y ddau brif fater i blant (12-18 oed) o ran cyfyngiadau yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%).	
--	--	---	--

Lefel Rhybudd 1 - Risg isel			
Grŵp neu nodwedd warchodedig	Asesiad effaith: cadarnhaol neu negyddol	Crynodeb o'r asesiad	Camau lliniaru (arfaethedig)
<i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	Cadarnhaol: Bydd gallu creu <u>aelwydydd estynedig mwy</u> o fudd i bob grŵp oedran, gan leihau effeithiau unigrwydd ac ynysigrwydd (problem benodol i bobl iau) neu allgáu digidol (i bobl hŷn). Negyddol: Efallai y bydd pobl dros 70 oed yn pryderu am fwy o risgiau iddynt o gymysgu â mwy o bobl. Negyddol: gallai'r rhai sy'n wynebu'r mwyaf o risg deimlo pwysau i ymuno ag aelwydydd	Mae ymatebion i arolygon yn dangos mai pobl iau (18-29 oed) sydd fwyaf tebygol o fod yn bryderus am eu hiechyd meddwl ac i deimlo'n ynysig. Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o boeni am eu hiechyd a'r risgiau o ddal COVID-19, ond maent hefyd yn fwy tebygol o gael eu hallgáu'n ddigidol. Dangosodd arolwg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fod mwy o ymatebwyr rhwng 16 a 29 oed yn dweud eu bod yn teimlo'n unig yn aml, bob amser, neu rywfaint o'r amser. Mae Astudiaeth Gymdeithasol COVID gan UCL hefyd yn dangos canlyniadau	Dylai deunydd cyfathrebu a chanllawiau bwysleisio'r risgiau sy'n gysylltiedig â chreu aelwydydd estynedig fel bod y rhain sy'n eu ffurfio yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch hynny. Dylid cyfleu bod y cysyniad yn ymwneud â gofal a chymorth ac felly y dylid creu aelwydydd estynedig gyda'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Dangoswyd yn Seland Newydd bod effeithiau negyddol cael eu heithrio o o aelwyd estynedig yn cael eu lliniaru os yw pobl yn deall y gallai eraill fod mewn mwy o angen. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor sectorau/gwasanaethau/cyfleusterau, a hynny gyda rhanddeiliaid a diwydiannau. Felly, mae canllawiau cynhwysfawr ar roi'r mesurau ar

	estynedig i ddarparu gofal a chymorth (e.e. neiniau a theidiau oedrannus) Cadarnhaol: Mae carfanau iau o'r boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio yn y <u>sector lletygarwch</u> yng Nghymru na charfanau hŷn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun y DU ar gyfer Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd. Negyddol: Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal COVID-19 yn cynyddu ag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector. Mae dadansoddiad	tebyg: yn wythnosau 36-37 (cyhoeddwyd 3 Rhagfyr), roedd lefelau unigrwydd yn sefydlog iawn yn ystod y pythefnos diwethaf ond yn dal ychydig yn uwch (2%) nag yr oeddent dros yr haf cyn cyflwyno cyfyngiadau newydd. Mae'r cynnydd mwyaf yn yr wythnosau diwethaf wedi digwydd yn nifer y bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae'r lefelau ar eu huchaf o hyd mewn oedolion iau, menywod, Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl ag incwm aelwyd is, pobl sy'n byw gyda phlant, pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol, a phobl â chyflwr iechyd meddwl neu gorfforol sydd wedi cael diagnosis. Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac yn poeni mwy am gael y feirws a mynd yn ddifrifol wael (arolwg llesiant iechyd Cyhoeddus Cymru). O ran gweithwyr, mae'r gyfran cyflogaeth ym maes twristiaeth yn sylweddol uwch ymysg pobl 16-24 oed. Er nad oes data penodol ar gael ar gyfer ffeiriau, gallai eu hagor arwain at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad i bobl ifanc pe bai hynny'n helpu i gadw swyddi a	waith yn ddiogel ar gael i'r meysydd hynny lle mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio, a byddant yn cael eu paratoi fel y bo'n briodol i safleoedd eraill wrth i baratodau gael eu gwneud ar gyfer eu hailagor.
--	---	--	---

	Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a thai bwyta yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). Cyhoeddwyd canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel, ynghyd â chynghor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Cadarnhaol: Bydd ailagor rhagor o safleoedd, gan ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau ac atyniadau, yn fuddiol i bob grŵp oedran. Mae agor meysydd chwarae a ffeiriau yn arbennig o debygol o fod o fudd i blant a phobl iau, o ran gwella iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, yn ogystal â llesiant economaidd.	chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (h.y. drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).	
--	---	---	--

Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd²³ a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi rhwystrau sy'n analluogi pobl â gwahanol fathau o namau, neu y gellid defnyddio'r cynnig i ddileu'r rhwystrau hynny)	Cadarnhaol: Gallai gofal a chymorth i'r rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain helpu unigolion sy'n wynebu bod yn ynysig, y rhai ag anghenion gofal a'r rhai sy'n darparu gofal ar hyn o bryd. Bydd cynyddu maint <u>aelwydydd estynedig</u> yn debygol o olygu y gall mwy o bobl anabl elwa ar fod yn rhan o aelwyd estynedig. Cadarnhaol: Mae pobl anabl ychydig yn fwy tebygol o fod yn gweithio ym maes twristiaeth yng Nghymru na phobl nad ydynt yn anabl, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun y DU ar gyfer Cadw Swyddi	Mae adborth gan ofalwyr yn nodi bod diffyg darpariaeth arbenigol ar gyfer rhai grwpiau, fel y rheini sy'n gofalu am rywun â nam dysgu, awtistiaeth neu ddementia, sy'n llai tebygol o allu deall a delio â'r tarfu ar eu trefn arferol. Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod cynrychiolaeth uwch o bobl anabl yn y sector tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru – mae 19% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). Wrth i ragor o safleoedd ailagor, dylai pobl anabl elwa ar allu defnyddio amrywiaeth ehangach o wasanaethau a manteisio ar gyfleoedd eraill. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu mwy o fynediad at gymorth; ac yn hybu llesiant yn gyffredinol.	Cyhoeddwyd canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel, ynghyd â chynghor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Bydd Llywodraeth Leol yn ystyried yr effaith ar gydraddoldeb wrth ystyried estyniadau sy'n golygu defnyddio mannau cyhoeddus. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru "Canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch ar ailagor yn raddol a diogel" a ddarparwyd i fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn nodi y dylai sefydliadau ystyried hawliau'r rhai â nodweddion gwarchodedig o ran cael mynediad i leoliadau neu wasanaethau. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio ar gyfer busnesau twristiaeth, e.e. i roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i weithdrefnau archebu neu sut y bydd y gyrchfan yn cynorthwyo pobl anabl fel y gallant barhau i gael mynediad i'r lleoliad mewn ffordd ddiogel. Enghraifft arall yw darparu gwybodaeth ychwanegol i ymwelwyr â nam ar eu golwg cyn ymweliadau ynghylch newid mynediad i adeiladau neu safleoedd a llwybrau ymwelwyr newydd a mwy cymhleth ac, yn gyffredinol, drwy wneud yr holl wybodaeth i ymwelwyr yn hygyrch
--	--	---	--

²³ Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanalluogi gan eu namau ond gan rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnwyd a chwiliwch am 'model cymdeithasol'.

	drwy gyfnod y Coronafeirws. Negyddol: Mae'n bosibl y bydd ymestyn trwyddedau ar ôl ailagor y <u>sector lletygarwch</u> yn arwain at fannau cyhoeddus yn cael eu defnyddio i gynyddu capasiti awyr agored gwirioneddol. Bydd hi'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw hyn yn creu amgylcheddau peryglus i'r rheini â phroblemau symudedd neu nam ar eu golwg. Cadarnhaol: O ran gweithwyr, mae'r gyfran <u>cyflogaeth ym maes twristiaeth</u> ychydig yn uwch ymysg pobl anabl felly gallai ailagor rhagor o fusnesau yn y sector twristiaeth helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y <u>sector lletygarwch</u> (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).		Mae'r canllawiau yn nodi hefyd bod gan gyflogwyr ddyletswyddau statudol tuag at weithwyr anabl a bod yn rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i wneud yn siŵr nad ydynt dan anfantais.
<i>Ailbennu Rhywedd (y</i>	Cadarnhaol: Bydd cynyddu maint	Mae'n bosibl y byddant yn elwa ar allu cymryd	Cyhoeddwyd canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel, ynghyd â chynghor

<i>broses o newid rhywedd a phobl Drawsryweddol)</i>	<u>aelwydydd estynedig</u> o bosibl yn caniatáu i bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon gael mynediad at rwydweithiau cymorth yn haws. Mae'n bosibl y bydd y cynlluniau i ailagor y sector yn arwain at fannau cyhoeddus yn cael eu defnyddio i gynyddu capasiti awyr agored gwirioneddol. Bydd hi'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw hyn yn creu amgylcheddau peryglus i rieni â phlant ifanc neu bramiau.	rhan mewn gweithgareddau 'normal' eto, gan gynnwys cymdeithasu'n ddiogel ac yn gyfrifol â ffrindiau a rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, yn enwedig os ydynt wedi treulio'r cyfnod cyfyngiadau symud ar eu pen eu hunain neu mewn amgylchedd cartref anghefnogol. Wrth i ragor o leoliadau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hybu llesiant yn gyffredinol.	ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Mae'r "Canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch ar ailagor yn raddol a diogel" gan Lywodraeth Cymru yn cynghori y dylai sefydliadau ystyried hawliau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a sut y byddant yn gallu parhau i gael mynediad i'ch lleoliad / gwasanaethau yn ddiogel. Mae'r canllawiau twristiaeth yn nodi y dylid trin gweithwyr yn deg trwy gymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig hefyd.
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Cadarnhaol: Bydd cynyddu maint <u>aelwydydd estynedig</u> o bosibl yn caniatáu i bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon gael mynediad at rwydweithiau cymorth yn haws. Cadarnhaol: Mae'n bosibl y bydd agor y <u>sector lletygarwch</u> yn arwain at fannau cyhoeddus yn cael eu defnyddio i gynyddu capasiti awyr agored gwirioneddol.	Gallai agor y sector lletygarwch ar gyfer gwasanaeth yn yr awyr agored ei gwneud yn fwy heriol defnyddio mannau cyhoeddus gyda phlant ifanc gan geisio cadw pellter cymdeithasol priodol ar yr un pryd. Gallent hefyd elwa ar gymryd rhan mewn gweithgareddau 'normal' eto, fel pryd o fwyd gyda ffrindiau neu deulu/teulu estynedig, a allai roi hwb i lesiant seicolegol. Wrth i ragor o safleoedd agor, bydd mamau/gofalwyr yn	Cyhoeddwyd canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel, ynghyd â chynghori ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Mae'r Canllawiau ar gyfer busnes twristiaeth a lletygarwch yn amlygu bod asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer menywod beichiog, waeth beth fo maint y busnes, a bod gan gyflogwyr ddyletswydd statudol tuag at famau newydd neu ddarpar famau.

	Bydd hi'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw hyn yn creu amgylchedd peryglus i rieni â phlant ifanc neu bramiau. Cadarnhaol: Bydd ailagor meysydd chwarae a ffeiriau yn darparu ystod ehangach o weithgareddau y gallai fod modd i <u>famau/gofalwyr</u> fynd â phlant ifanc iddynt i'w diddanu.	elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hybu llesiant yn gyffredinol.	
<i>Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)</i>	Negyddol: Mae risgiau ychwanegol yn gysylltiedig â chreu <u>aelwydydd estynedig</u> ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig o ystyried effaith anghymesur COVID-19 ar unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Cadarnhaol: Mae gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o weithio ym maes twristiaeth yng Nghymru na'r boblogaeth wyn, felly gallai agor y sector gael effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm	Ystod o dystiolaeth wahanol ar yr effaith anghymesur ar y gymuned Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (e.e. yr ONS, Grŵp cynghori Llywodraeth Cymru ar Bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol). Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2019 yn amcangyfrif bod 12% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (tra bod y grŵp hwn ond yn cynrychioli 5% o weithlu Cymru). Cafodd data ei gyfuno o 2016-2018 o arolygon GBTS a GBDVS i ddeall unrhyw wahaniaethau mewn cymhellion rhwng ymwelwyr gwyn ac ymwelwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol â	Dylid cyfleu ac ystyried risgiau pan fydd unigolion yn penderfynu creu aelwyd estynedig. Mae hyn yn arbennig o wir lle gallai aelwyd estynedig gynnwys unigolion sydd mewn mwy o berygl o ledaenu'r feirws, gan gynnwys yn asymptomatig (e.e. plant sy'n dychwelyd i'r ysgol neu i ofal plant, neu weithwyr gofal iechyd). Cyhoeddwyd canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel, ynghyd â chynghori ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Mae negeseuon cyson a chlir yn cael eu cynnal, gan atgoffa Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o'r risgiau y mae COVID-19 yn eu hachosi. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru "Canllawiau ar i fusnesau twristiaeth a lletygarwch ar ailagor yn raddol a diogel" yn cynghori'r defnydd o negeseuon syml, clir a hygyrch i esbonio canllawiau, gan ystyried grwpiau nad ydynt efallai'n siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf.

	aelwydydd drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi'r DU. Negyddol: Mae'n bosibl bod pobl BAME yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal COVID-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid sy'n gweithio yn y sector lletygarwch. Cadarnhaol: O ran gweithwyr, mae'r gyfran cyflogaeth ym maes twristiaeth yn sylweddol uwch ymysg pobl o gefndir BAME ac felly, wrth ailagor rhagor o fusnesau, dylai hyn helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). Cadarnhaol: Cyfyngiadau yw'r wybodaeth am ffeiriau teithiol ac mae'n ymddangos nad yw'r rhan fwyaf ohonynt	Chymru o fewn Prydain. Ar gyfer ymwelwyr dros nos, roedd y prif gymhellion i deithio yn dilyn patrwm tebyg, gydag ymwelwyr gwyn a Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn teithio'n bennaf ar gyfer gwyliau/pleser/hamdden (63% o gymharu â 54%) ac yna ymweld â theulu a pherthnasau (26% o gymharu â 28%) ac yna teithio ar fusnes (8% o gymharu â 12%). Y rheswm mwyaf cyffredin dros ymweliadau dydd ar gyfer ymwelwyr gwyn a Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol oedd ymweld â ffrindiau a theulu (23% o gymharu â 19%).	Mae canllawiau twristiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r asesiadau risg roi sylw penodol i ganfod a yw'r bobl sy'n gwneud y gwaith yn arbennig o agored i COVID-19 ac i roi camau ar waith i'w diogelu. Darperir cyngor penodol yn y canllawiau ar addoldai ar gyfer y gymuned Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar bwy ddylai fod yn bresennol a'r rhagofalon y dylent eu cymryd.
--	---	---	---

	wedi'u lleoli yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai darparu ar gyfer ailagor ffeiriau yn debygol o fod o fudd i gymuned y pobl y ffeiriau. Deallwn fod y <i>Travellers Times</i> wedi ysgrifennu at y Canghellor i nodi'r effaith negyddol y mae cau ffeiriau yn ei chael.		
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Ni chesglir data ar grefydd ymwelwyr ag atyniadau i dwristiaid drwy arolygon swyddogol. Cafwyd chwiliad byr o dystiolaeth ac nid oes unrhyw dystiolaeth eilaidd berthnasol na data procsi ar gael ar brofiadau teithio ac ymddygiad y grŵp hwn.	Cyhoeddwyd canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel, ynghyd â chynghor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr.
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Effeithiau cadarnhaol a negyddol: Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn darparu gofal gartref. Felly, gallai cynyddu maint <u>aelwydydd estynedig</u> gael effeithiau cadarnhaol drwy agor cyfleoedd i gael cymorth, ond gallai gael effeithiau negyddol os yw'n cynyddu'r baich	Menywod yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n darparu gofal, bod hynny â thâl neu'n ddi-dâl, a menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithwyr iechyd, ac maent yn fwy tebygol na dynion o roi gofal di-dâl gartref (Grŵp Cyllideb Menywod, COVID-19: Materion Rhywedd a Chydraddoldeb). Bydd yn rhaid i ofalwyr sy'n gweithio gydbwyso gwasanaethau lleol yn ailagor a gofalu am	Cyhoeddwyd canllawiau ar ailagor y sector yn ddiogel, ynghyd â chynghor ar fesurau lliniaru ychwanegol i leihau'r risg o drosglwyddo lle nad yw'n bosibl cadw pellter o 2 fetr. Bydd y pecyn o fesurau (wedi'u lliniaru'n gymharol) yn Haen 1 i gyd yn darparu mynediad i ragor o fathau o gymorth i fenywod sydd ei angen.

	gofal drwy ei ymestyn i aelwyd arall. Cadarnhaol: mae cyfran gweithwyr y <u>sector lletygarwch</u> sy'n fenywod ychydig yn uwch nag y mae yng ngweithlu Cymru yn gyffredinol, felly mae'n bosibl y bydd effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun y DU ar gyfer Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Cadarnhaol: Mae menywod yn fwy tebygol o fod wedi nodi lefelau is o lesiant meddyliol o ganlyniad i beidio â gallu parhau i ryngweithio'n gymdeithasol yn ôl yr arfer. Gallai llacio cyfyngiadau yn y <u>sector lletygarwch</u> helpu i fynd i'r afael â theimladau o lesiant is. Cadarnhaol: Er nad oes gwybodaeth ar gael yn benodol ar gyfer ffeiriau, fel arfer mae	berson sy'n agored i niwed. (<i>Carers UK</i>). Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 50% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a thai bwyta yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru. Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu y gallai menywod elwa ar ailgydio mewn rhyngweithio cymdeithasol 'normal', fel pryd o fwyd gyda ffrindiau neu deulu/teulu estynedig, a allai roi hwb i lesiant seicolegol. Bydd cyfleoedd i ddychwelyd i weithio yn helpu i leihau'r pryderon sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud, gan gynnwys pryderon ariannol.	
--	---	--	--

	twristiaeth yn cyflogi mwy o fenywod na dynion. Felly, wrth i ragor o fusnesau perthnasol gael yr hawl i ailagor dylai hyn helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). Cadarnhaol: Menywod sy'n dueddol o fod yn bennaf gyfrifol am ofalu, gan gynnwys gofalu am blant yn ystod gwyliau'r ysgol. Dylai mynediad at fwy o amwynderau wella profiad plant a llesiant y rhain sy'n rhoi'r gofal.		
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Mae'n bosibl y byddant yn elwa ar allu cymryd rhan mewn gweithgareddau 'normal' eto, gan gynnwys cymdeithasu'n ddiogel ac yn gyfrifol â ffrindiau a rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, yn enwedig os ydynt wedi treulio'r cyfnod cyfyngiadau symud ar eu pen eu huain neu mewn amgylchedd cartref anghefnogol.	

<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Roedd pobl a oedd yn briod neu'n cyd-fyw yn llai tebygol na'r cyffredin o deimlo'n unig (unigrwydd cronig ac unigrwydd oherwydd cyfyngiadau) (arolwg barn a ffordd o fyw yr ONS, 20 Mai). Dim tystiolaeth benodol, ond wrth i ragor o adeiladau agor, dylai cyplau elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a dylai hyn hybu llesiant.	Amh.ERTHNASOL
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Cadarnhaol: Bydd plant yn cael bod yn rhan o <u>aelwydydd estynedig</u> mwy gyda theulu a ffrindiau, gan liniaru effeithiau negyddol bod ar wahân. Cadarnhaol: cadarnhaol: os bydd rhieni'n dychwelyd i weithio, gallai hynny fod yn arwydd o ddychwelyd i fywyd 'normal' a galluogi rhieni i ddarparu'n well ar gyfer eu plant Negyddol: os bydd rhieni'n dychwelyd i weithio, gallai hynny achosi teimladau o	Mae'r arolwg 'Coronafeirws a Fi' o tua 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu profiadau o bandemig y coronafeirws a'u hymatebion, eu gobeithion a'u pryderon ar gyfer y dyfodol (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Y ddau brif fater i blant (12-18 oed) sy'n ymwneud â chyfyngiadau yw 'ddim yn gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'ddim yn gallu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%) Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth 2018 yn awgrymu bod gan 11,400 o'r oedolion sy'n gweithio yn y sector	Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant ac wedi galluogi pobl i gael gafael ar ofal a chymorth anffurfiol, gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar deuluoedd lle mae angen i'r oedolion ddychwelyd i safleoedd ffisegol i weithio o bosibl. Bydd cyfathrebu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn cael ei wella drwy hysbysebion a dylanwadwyr a fydd yn targedu sianeli cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc (er enghraifft, TikTok) ac fe'u defnyddir i drosglwyddo negeseuon 'Diogelu Cymru'.

	bryder, os oes cyswllt helaeth wedi bod o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.	tafarndai a thai bwyta blant o dan 16 oed. Mae hawliau plant wedi cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad hwn (gweler uchod); a bydd y mesurau sy'n darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau grŵp wedi'u trefnu (e.e. dosbarthiadau dawns), yn gadarnhaol i blant ac maent yn cydymffurfio ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthyglau 18 a 27).	
--	---	---	--

Lefel Rhybudd 2 – risg ganolig

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Oedran (meddylwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	Cadarnhaol: O ystyried bod effeithiau'r coronafeirws ar iechyd yn fwy difrifol i bobl hŷn, bydd lleihau'r cyfraddau trosglwyddo yn cael effaith gadarnhaol. Bydd y gallu i greu aelwydydd estynedig yn cael effaith gadarnhaol ar bob grŵp oedran, a bydd yn lliniaru effeithiau unigrwydd ac ynysigrwydd (i bobl iau) ac allgáu digidol (i bobl hŷn). Negyddol: Mae pobl ifanc yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector lletygarwch a bydd y cyfyngiadau yn y tymor byr ac unrhyw effeithiau tymor canolig a thymor hir a gânt ar fusnesau yn y sector yn effeithio'n negyddol arnynt. Mae pobl iau hefyd wedi derbyn niferoedd anghymesur o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd hyd yma. Fodd bynnag, efallai fod pobl dros 70 oed yn bryderus am risgiau uwch iddynt o gymysgu â mwy o bobl a gallai'r rhai sy'n wynebu mwy o risg deimlo pwysau i ymuno ag aelwydydd estynedig i ddarparu gofal a chymorth (e.e. neiniau a theidiau oedrannus).	Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, a'r rhai ar gyflog isel. Hyd at 22 Medi, roedd 61% o'r Hysbysiadau Cost Benodedig a roddwyd yng Nghymru wedi'u rhoi i bobl o dan 35 oed. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran hysbysiadau cosb benodedig neu a oes gwahaniaethau ychwanegol nad ydym yn gwybod amdanynt, o ystyried y data cyfyngedig	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio'r "dull 4E" lle mae gorfodaeth yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau ar gydraddoldeb o ran oedran. Awgryma profiad blaenorol hefyd fod llawer llai o Hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu rhoi o dan lefel rhybudd 2. O dan yr holl Lefelau Rhybudd ar gyfer cyfyngiadau, gan gynnwys lefel rhybudd 2, mae cadw ysgolion ar agor yn flaenoriaeth. Mae'r penderfyniad hwn wedi'i wneud i liniaru'r risg dros y tymor hwy i bobl sy'n dod yn oedolion a allai fel arall brofi effeithiau creithiau'r pandemig yn y tymor hir.

	Bydd effeithiau negyddol ar bobl ifanc oherwydd canlyniadau economaidd tymor canolig a thymor hwy yr ymdrechion i reoli'r feirws o ran eu cyfleoedd i gael swyddi ac i ennill cyflog. I ddisgyblion y gofynnir iddynt hunanynysu, nid yw dysgu cyfunol (cyfuniad o ddysgu ar-lein ac addysgu wyneb yn wyneb) yn cael ei ystyried yn ddewis boddhaol yn lle addysgu wyneb yn wyneb a byddai'n effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr sy'n fwy agored i niwed a'r rhai sydd dan anfantais		
	Cadarnhaol: Mae COVID-19 yn cael effaith anghymesur sylweddol ar iechyd rhai pobl anabl a rhai pobl â chyflyrau iechyd cronig. Bydd mesurau cryfach i leihau trosglwyddo yn cael rhai effeithiau cadarnhaol ar bobl anabl. Bydd caniatáu i wasanaethau cyswllt agos aros ar agor hefyd yn helpu i leihau effeithiau andwyol ar bobl anabl. Gall newid tuag at fwy o weithio o bell agor cyfleoedd cyflogaeth newydd neu gyfleoedd eraill i bobl sydd wedi'u hanalluogi oherwydd diffyg gwasanaethau teithio hygyrch neu gan agweddau cymdeithasol neu wahaniaethu. Negyddol: Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, roedd pobl anabl yn fwy tebygol o fod ar ffyrlo ac mae'n bosibl y caiff y patrwm hwn ei ailadrodd. I bobl anabl, mae'n bosibl y bydd yr ymdeimlad o	Canfu Adroddiad Cyngor ar Bopeth: An Unequal Crisis (Cymru a Lloegr) fod cyfran uwch o bobl anabl (1 o bob 4) yn wynebu colli eu swyddi na'r boblogaeth gyffredinol (1 o bob 6).	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Gallai'r ddarpariaeth ynghylch aelwydydd estynedig a'r gallu i gwrdd â hyd at bedwar o bobl y tu allan neu mewn lleoliad rheoleiddiedig, a darpariaethau ar gyfer gweithgarwch a drefnir dan do helpu i liniaru teimladau o unigrwydd ac ynysigrwydd.

	fod yn ynysig a'r effeithiau negyddol ar eu hiechyd oherwydd problemau iechyd meddwl yn cynyddu.		
<i>Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhywedd a phobl Drawsryweddol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.		
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Cadarnhaol: Bydd gwasanaethau mamolaeth ac amenedigol yn parhau, gyda mynediad at ymwelwyr iechyd a gwasanaethau cymorth ehangach. Bydd hyn yn cynnwys cynnal dosbarthiadau bwydo ar y fron a dosbarthiadau rhiant a phlentyn, i gefnogi iechyd meddwl mamau cyn yr enedigaeth a sicrhau bod plant bach yn cael eu gweld a bod eu datblygiad yn cael ei asesu er mwyn galluogi ymyrraeth gynnar yn ôl y gofyn. Negyddol: Mae rhai menywod hefyd wedi adrodd am bryderon ôl-enedigol ynghylch cymorth iechyd meddwl, bwydo ar y fron ac ati.		Rydym yn cynnal y ddarpariaeth sy'n galluogi grwpiau fel grwpiau rhieni a babanod / plant bach i weithredu mewn cyfleusterau cymunedol o wahanol fathau a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.
<i>Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)</i>	Negyddol: Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth fod nifer anghymesur o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u rhoi i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'n bosibl fod creu troseddau newydd a allai arwain at roi hysbysiadau cosb benodedig yn cael effaith andwyol ar gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'n bosibl fod cyfyngiadau ar deithio yn cael effaith andwyol ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol	Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yw 12% o'r gweithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai. Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr Du, Asiaidd ac ethnig	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Mae pecyn Llywodraeth Cymru wedi'i dargedu'n benodol at y sector lletygarwch a thwristiaeth. Bydd cadw lefelau hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, gan eu hadolygu'n

	sydd â theulu mewn mannau eraill yn y DU neu dramor. O dan y ddyletswydd i hunanynysu, mae'r defnydd o wybodaeth Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i sicrhau cydymffurfiaeth yn fater pwysig o ymddiriedaeth a hyder mewn awdurdodau cyhoeddus.	leiafrifol, a'r rhai ar gyflog isel. Adroddwyd bod 24% o famau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi dweud eu bod yn cael trafferth bwydo eu plant. Cafodd 10% o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd yng Nghymru hyd at 22 Medi eu rhoi i bobl sy'n nodi eu bod o gefndir Asiaidd neu'n Tsieineaidd, sy'n cynrychioli tua 2% o'r boblogaeth. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran hysbysiadau cosb benodedig neu a oes gwahaniaethau ychwanegol nad ydym yn gwybod amdanynt, o ystyried y data cyfyngedig	rheolaidd a'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio'r "dull 4E" lle mae gorfodaeth yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau ar gydraddoldeb hiliol. Awgryma profiad blaenorol hefyd fod llawer llai o hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu cyhoeddi ar lefel rhybudd 2. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd briodol a theg. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyrff gorfodi yn cael yr isafswm o ddata sy'n ofynnol i gyflawni eu swyddogaethau, a chaiff y rhain eu rhannu yn unol â deddfwriaeth diogelu data gan gynnwys GDPR.
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Cadarnhaol: Bydd addoldai yn aros ar agor ac yn cael gweithredu mewn ffordd ddiogel o ran COVID.		
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Cadarnhaol: Mae tystiolaeth glir bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar ieuchyd dynion. Felly bydd mesurau i ddod â'r feirws yn ôl dan reolaeth a lleihau trosglwyddo yn cael effaith gadarnhaol ar ddynion. Bydd aelwydydd estynedig yn rhoi gofal a chymorth ychwanegol gwerthfawr a gallai hyn fod yn gadarnhaol i	Mae 76% o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd hyd at 22 Medi wedi'u rhoi i ddynion. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran rhyw a hysbysiadau cosb benodedig, o ystyried y data cyfyngedig.	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Bydd cadw lefelau hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n

	fenywod yn enwedig, sydd yn aml â baich anghymesur o ran gofalu Negyddol: Bydd y cyfyngiadau ar y sector lletygarwch yn effeithio ar fenywod gan eu bod yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio os bydd yn rhaid i'w plentyn hunanynysu gan ei fod yn tueddu i fod yn fwy cyfrifol am ofal plant. Derbyniodd dynion nifer anghymesur o hysbysiadau cosb benodedig. Mae dynion yn fwy tebygol o gael eu effeithio'n ddifrifol gan COVID-19 o safbwynt iechyd; os caiff cyfyngiadau eu llacio mae hyn yn eu rhoi mewn mwy o berygl. Effeithiau negyddol y mesurau 'aros gartref' o ran menywod a phlant sy'n cael eu cam-drin.	Menywod yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n darparu gofal, bod hynny â thâl neu'n ddi-dâl, a menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithwyr iechyd, ac maent yn fwy tebygol na dynion o roi gofal di-dâl gartref (Grŵp Cyllideb Menywod COVID-19: Adroddiad COVID-19) Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2019 yn amcangyfrif bod 50% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a thai bwyta yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru.	parhau i ddefnyddio "dull 4E" lle mae gorfodaeth yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau ar gydraddoldeb rhywiol. Awgryma profiad blaenorol hefyd fod llawer llai o hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu rhoi ar lefel rhybudd 2.
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)</i>	Cadarnhaol: Byddai'r gallu parhaus i gwrdd â hyd at bedwar o bobl mewn lleoliadau a reoleiddir neu i gymryd rhan mewn gweithgarwch wedi'i drefnu yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol, a fyddai'n bwysig o ran mynd i'r afael ag effeithiau andwyol i'r rhai yr oedd eu cartref yn negyddol neu'n elyniaethus o ran cyfeiriadedd rhywiol yr unigolyn.	Mae rhywfaint o dystiolaeth yn gynharach yn y pandemig bod gorfod aros gartref wedi effeithio'n negyddol ar rai pobl yr oedd eu teuluoedd yn negyddol neu'n elyniaethus o ran cyfeiriadedd rhywiol yr unigolyn.	

<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol		
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Cadarnhaol: Bydd cadw ysgolion, cyfleusterau chwarae cyhoeddus a cholegau ar agor yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed neu sydd o gefndiroedd difreintiedig. Bydd y penderfyniad i ganiatáu i chwaraeon a gweithgareddau eraill a drefnir barhau hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant, yn ogystal â'r ddarpariaeth ynghylch cyfarfod yn yr awyr agored neu mewn lleoliadau a reoleiddir. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl ifanc yn eu harddegau a fydd yn croesawu'r cyfle i gwrdd â'u ffrindiau. Cadarnhaol: Caniateir i weithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau wedi'u trefnu fynd rhagddynt. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon, ond hefyd amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol, addysgol a datblygiadol. Er enghraifft, mynychu clybiau dawnio, drama a chwaraeon, yn ogystal â grwpiau cymorth i ofalwyr ifanc a phlant ag anghenion ychwanegol, namau dysgu neu anghenion iechyd cymhleth. Cadarnhaol: Bydd cyfleusterau chwarae, gan gynnwys meysydd chwarae awyr agored ac ardaloedd chwarae dan do, yn parhau ar agor ac yn hygyrch, yn unol â hawl y	Mae'r dystiolaeth o'r cyfyngiadau symud cyntaf yn dangos bod yr effaith ar blant sy'n agored i niwed a phlant difreintiedig wedi bod yn arbennig o ddifrifol. Yn yr holiadur 'Coronafeirws a Fi', nodwyd mai'r prif beth a oedd yn cael effaith ar deimladau plant a phobl ifanc oedd methu â gallu gweld ffrindiau. Yn yr arolwg 'Coronafeirws a Fi' plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol oedd fwyaf tebygol o ddweud bod angen help arnynt i sicrhau bod gan eu teulu ddigon o fwyd. Maent yn fwy tebygol o roi gwybod am arwyddion o ansicrwydd bwyd. Adroddwyd am hyn hefyd gan randdeiliaid sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r gymuned DDU, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol	Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu teuluoedd sydd mewn tlodi drwy, er enghraifft, y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Datblygu Plant ar gyfer plant y mae risg y bydd oedi o ran eu datblygiad. Bydd cyfathrebu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn cael ei wella drwy hysbysebion a dylanwadwyr a fydd yn targedu sianeli cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc (er enghraifft, TikTok) ac fe'u defnyddir i drosglwyddo negeseuon 'Diogelu Cymru'.

	plentyn i chwarae sydd wedi'i nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac sy'n rhan o gyfraith Cymru. Negyddol: Bydd effeithiau economaidd negyddol a brofir gan y teulu yn effeithio ar blant.		
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	Cadarnhaol: Mae lleihau'r swm ar gyfer methu â hunanynysu yn debygol o gael effaith gadarnhaol fach ar grwpiau difreintiedig. Negyddol: Mae'n bosibl y bydd pobl o gartrefi incwm is yn llai abl i gyfarfod mewn lleoliad a reoleiddir.	Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'r rhai ar gyflog isel	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr er ein bod yn cydnabod y bydd yn rhaid i lawer ymdopi ar lai o arian nag arfer gan fod ffyrlo yn 80% o gyflog. Mae hefyd yn arbennig o anodd i rai categorïau o weithwyr fel y rhai sydd ar gontractau dim oriau, gweithwyr asiantaeth a chynlluniau lleoliadau gwaith eraill.

Lefel Rhybudd 3 (risg uchel)

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Oedran (meddylwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	Cadarnhaol: O ystyried bod effeithiau'r coronafeirws ar iechyd yn fwy difrifol i bobl hŷn, bydd lleihau cyfraddau trosglwyddo yn cael effaith gadarnhaol. Negyddol: Mae pobl ifanc yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector lletygarwch a bydd y cyfyngiadau yn y tymor byr ac unrhyw ganlyniadau tymor canolig a hirdymor a gaiff ar fusnesau yn y sector yn effeithio'n negyddol arnynt. Mae pobl iau hefyd wedi derbyn niferoedd anghymesur o'r hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd hyd yma.	Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'r rhai ar gyflog isel. Hyd at 22 Medi, roedd 61% o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd yng Nghymru wedi'u rhoi i bobl o dan 35 oed. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran hysbysiadau cosb benodedig neu a oes gwahaniaethau ychwanegol nad ydym yn gwybod amdanynt, o ystyried y data cyfyngedig	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio'r "dull 4E" lle mae gorfodaeth yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau ar gydraddoldeb o ran oedran
Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd²⁴ a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi rhwystrau sy'n analluogi pobl â gwahanol fathau o	Cadarnhaol: Mae COVID-19 yn cael effaith anghymesur sylweddol ar iechyd rhai pobl anabl a rhai pobl â chyflyrau iechyd cronig. Bydd mesurau cryfach i leihau trosglwyddo yn cael rhai effeithiau cadarnhaol ar bobl anabl. Bydd caniatáu i wasanaethau cyswllt agos aros ar agor hefyd yn helpu i leihau effeithiau andwyol ar bobl anabl.	Canfu adroddiad Cyngor ar Bopeth: An Unequal Crisis (Cymru a Lloegr) fod cyfran uwch o bobl anabl (1 o bob 4) yn wynebu colli eu swyddi na'r boblogaeth gyffredinol (1 o bob 6).	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Gallai'r ddarpariaeth ynghylch aelwydydd estynedig a'r gallu i gwrdd â hyd at bedwar o bobl y tu allan neu mewn lleoliad rheoleiddiedig a

²⁴ Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanalluogi gan eu namau ond gan rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnwyd a chwiliwch am 'model cymdeithasol'.

namau, neu y gellid defnyddio'r cynnig i ddileu'r rhwystrau hynny)	Negyddol: Yng nghyfnod cynnar y pandemig, roedd pobl anabl yn fwy tebygol o fod ar ffyrlo ac mae'n bosibl y caiff y patrwm hwn ei ailadrodd. O ran pobl anabl, mae'n bosibl y bydd bod yn ynysig a'r effeithiau negyddol ar eu hiechyd oherwydd problemau iechyd meddwl yn cynyddu.		darpariaethau ar gyfer gweithgareddau a drefnir dan do helpu i liniaru teimladau o unigrwydd a bod yn ynysig.
<i>Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhywedd a phobl Drawsryweddol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.		
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Negyddol: Mae rhai menywod wedi adrodd am bryderon ar ôl rhoi genedigaeth, ynghylch cymorth iechyd meddwl, bwydo ar y fron ac ati.		Rydym yn cynnal y ddarpariaeth sy'n galluogi grwpiau fel grwpiau rhieni a babanod / plant bach i weithredu mewn cyfleusterau cymunedol o wahanol fathau a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.
<i>Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)</i>	Negyddol: mae pobl o gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector lletygarwch a bydd y gofyniad i gau am 6pm yn cael effaith negyddol arnynt. Mae pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hefyd yn anghymesur o debygol o fod yn yrwyr tacsis a bydd cau lleoliadau lletygarwch yn effeithio'n sylweddol arnynt. Negyddol: Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth fod niferoedd anghymesur o hysbysiadau cosb	Mae Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cynnwys 12% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'r rhai ar gyflog isel. Adroddwyd bod 24% o famau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi dweud eu bod yn cael trafferth bwydo eu plant.	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Mae pecyn Llywodraeth Cymru wedi'i dargedu'n benodol at y sector lletygarwch a thwristiaeth. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau ddefnyddio'r "dull 4E" lle mae gorfodi yn ddewis olaf, oll yn helpu i

	benodedig wedi'u rhoi i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Gall creu troseddau newydd a allai arwain at gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig gael effaith andwyol ar gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Gall y cyfyngiadau ar deithio gael effaith andwyol ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd â theulu mewn mannau eraill yn y DU neu dramor.	Cafodd 10% o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd yng Nghymru hyd at 22 Medi eu rhoi i bobl sy'n nodi eu bod o gefndir Asiaidd neu Tsieineaidd, sy'n cynrychioli tua 2% o'r boblogaeth. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran hysbysiadau cosb benodedig neu a oes gwahaniaethau ychwanegol nad ydym yn gwybod amdanynt, o ystyried y data cyfyngedig	liniaru'r effeithiau o ran cydraddoldeb hiliol.
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Cadarnhaol: Bydd addoldai yn aros ar agor ac yn cael gweithredu mewn ffordd ddiogel o ran COVID. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau ffydd.		
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Cadarnhaol: Mae tystiolaeth glir bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar ieuchyd dynion. Felly bydd mesurau i ddod â'r feirws yn ôl dan reolaeth a lleihau trosglwyddo yn cael effaith gadarnhaol ar ddynion. Negyddol: Bydd y cyfyngiadau ar y sector lletygarwch yn effeithio ar fenywod gan eu bod yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio os bydd yn rhaid i'w plentyn hunanynysu gan eu bod yn dueddol o	Mae 76% o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd hyd at 22 Medi wedi'u rhoi i ddynion. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran rhyw a hysbysiadau cosb benodedig, o ystyried y data cyfyngedig.	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau ddefnyddio'r "dull 4E" lle mae gorfodi yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

	wneud mwy o'r gwaith o ofalu am blant. Negyddol: Derbyniodd dynion nifer anghymesur o hysbysiadau cosb benodedig.		
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)</i>	Cadarnhaol: Byddai parhau i gael cwrdd â hyd at bedwar o bobl mewn lleoliadau a reoleiddir neu gymryd rhan mewn gweithgarwch wedi'i drefnu yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol, a fyddai'n bwysig o ran mynd i'r afael ag effeithiau andwyol i unigolion y mae eu cartref yn negyddol neu'n elyniaethus o ran eu cyfeiriadedd rhywiol.	Roedd rhywfaint o dystiolaeth yn gynharach yn y pandemig am effaith negyddol y gofyniad i aros gartref ar rai pobl yr oedd eu teuluoedd yn negyddol neu'n elyniaethus o ran cyfeiriadedd rhywiol yr unigolyn.	
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effaith wahaniaethol		
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Cadarnhaol: Bydd cadw ysgolion, a cholegau ar agor (hyd yn oed os oes rhaid i hyn fod drwy ddysgu o bell gartref) yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed neu o gefndiroedd difreintiedig. Fodd bynnag, nid yw'r posibilrwydd y bydd plant yn gweithio gartref yn cael ei ystyried yn rhywbeth mor gadarnhaol, ac yn sicr nid yn y tymor canolig na'r tymor hir. Negyddol: Mewn sefyllfa lle mae angen dysgu o bell neu ddysgu cyfunol ar y lefel rhybudd hon, gallai plant o deuluoedd incwm	Mae'r dystiolaeth o'r cyfyngiadau symud cyntaf yn dangos bod yr effaith ar blant sy'n agored i niwed a phlant difreintiedig wedi bod yn arbennig o ddifrifol. Yn yr holiadur Coronafeirws a Fi, nodwyd mai'r prif beth a oedd yn cael effaith ar deimladau plant a phobl ifanc oedd methu â gallu gweld ffrindiau. Yn yr arolwg Coronafeirws a Fi, plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a oedd yn fwy tebygol o ddweud bod angen help arnynt i sicrhau bod gan eu teulu ddigon o fwyd. Maent yn fwy tebygol o roi gwybod am	Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu teuluoedd sydd mewn tlodi drwy, er enghraifft, y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Datblygu Plant ar gyfer plant sydd mewn perygl o oedi datblygiadol. Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 14 Rhagfyr, gosododd Llywodraeth Cymru gysail trwy ddeddfu i sicrhau, pe bai ysgolion cynradd yn penderfynu cau, y byddent yn parhau i gynnig darpariaeth addysg i ddysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol – cedwir yr opsiwn i ddod â'r

	is fod o dan anfantais oherwydd bod cost TG (o bosibl) yn eu rhoi o dan anfantais o ran hwyluso addysg eu plant. Cadarnhaol: Bydd cadw ysgolion, cyfleusterau chwarae cyhoeddus a cholegau ar agor yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed neu o gefndiroedd difreintiedig. Bydd y penderfyniad i ganiatáu i chwaraeon a gweithgareddau eraill a drefnir barhau hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant plant, yn ogystal â'r ddarpariaeth i gyfarfod yn yr awyr agored neu mewn lleoliadau a reoleiddir. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl ifanc yn eu harddegau a fydd yn croesawu'r cyfle i gwrdd â'u ffrindiau. Negyddol: Bydd effeithiau economaidd negyddol a brofir gan y teulu yn effeithio ar blant. Negyddol: Mae cau lleoliadau adloniant (sinemâu, arcedau bowlio, mannau chwarae dan do) yn lleihau'r opsiynau hamdden sydd ar gael i blant a phobl ifanc.	arwyddion o ansicrwydd bwyd. Adroddwyd am hyn hefyd gan randdeiliaid sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r gymuned DDU, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol	gyfarwydddeb hon i rym eto, yn y dyfodol. Bydd cyfathrebu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn cael ei wella drwy hysbysebion a dylanwadwyr a fydd yn targedu sianeli cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc (er enghraifft, TikTok) a byddant yn cael eu defnyddio i gyfleu negeseuon 'Diogelu Cymru'
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	Negyddol: Mae pobl ar incwm isel yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector lletygarwch a bydd y gofyniad i gau am	Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i ffyrlo yn helpu i liniaru effeithiau andwyol y mesur

	6pm yn effeithio'n negyddol arnynt. Efallai y bydd pobl o gartrefi incwm is yn llai abl i gyfarfod mewn lleoliad a reoleiddir, Cadarnhaol: Mae lleihau'r swm ar gyfer methu â hunanyysu yn debygol o gael effaith gadarnhaol fach ar grwpiau diffreintiedig.	huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'r rhai ar gyflog isel	hwn yn y tymor byr er ein bod yn cydnabod y bydd yn rhaid i lawer ymdopi ar lai o arian nag arfer gan fod ffyrlo yn 80% o gyflog. Mae hefyd yn arbennig o anodd i rai categorïau o weithwyr fel y rhai sydd ar gontractau dim oriau, gweithwyr asiantaeth a chynlluniau lleoliadau gwaith eraill.
--	---	---	--

Lefel Rhybudd 4 (risg uchel iawn)

Grŵp neu nodwedd warchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Oedran (meddylwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	Cadarnhaol: O ystyried bod effeithiau'r coronafeirws ar iechyd yn fwy difrifol i bobl hŷn, bydd lleihau cyfraddau trosglwyddo yn cael effaith gadarnhaol. Negyddol: Mae pobl ifanc yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector lletygarwch a bydd y cyfyngiadau yn y tymor byr ac unrhyw ganlyniadau tymor canolig a hirdymor a gaiff hynny ar fusnesau yn y sector yn effeithio'n negyddol arnynt. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd. Mae pobl iau hefyd wedi cael niferoedd anghymesur o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd hyd yma. Negyddol: Mae'r gofyniad i aros gartref – hyd yn oed am gyfnod byr – yn debygol o effeithio ar iechyd meddwl pob grŵp oedran: pobl hŷn sydd fwyaf tebygol o boeni am ddal y feirws, tra bod pobl 18-29 oed yn fwyaf tebygol o deimlo'n ynysig.	Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'r rhai ar gyflog isel. Hyd at 22 Medi, roedd 61% o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd yng Nghymru wedi'u rhoi i bobl o dan 35 oed. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran hysbysiadau cosb benodedig neu a oes gwahaniaethau ychwanegol nad ydym yn gwybod amdanynt, o ystyried y data cyfyngedig Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a thai bwyta yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu y mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). Mae ymatebion i'r arolwg yn amlygu mai pobl iau (18-29) sydd fwyaf tebygol o fod yn bryderus am eu	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio "dull 4E" lle mae gorfodaeth yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau ar gydraddoldeb o ran oedran Dylai eithriadau ac esgusodion rhesymol i greu aelwydydd estynedig os ydych yn byw ar eich pen eich hun, ac i gyfarfod dan do i ddarparu gofal, liniaru yn erbyn effeithiau gwaethaf y mesurau. Gall gweithgarwch corfforol a bod yn yr awyr agored gael effaith sylweddol ar leihau unigrwydd, felly dylai'r esgus rhesymol i alluogi ymarfer corff helpu i liniaru effaith y mesurau i ryw raddau.

		hiechyd meddwl ac i deimlo'n ynysig. Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o boeni am eu hiechyd a'r risgiau o ddal COVID-19. Canfu arolwg ffordd o fyw yr ONS (20 Mai) fod cyfraddau unigrwydd ar eu huchaf ymhlith oedolion o oedran gweithio sy'n byw ar eu pennau eu hunain (e.e. soniodd 13% o'r rhai 16-64 oed a oedd yn byw ar eu pennau eu hunain am unigrwydd cronig o gymharu â 5% ar aelwydydd â dau oedolyn o oedran gweithio). Nid oedd pobl hŷn yn fwy tebygol o nodi eu bod yn unig ac roedd y gyfran uchaf ymysg oedolion ifanc. Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod yn hunanymysu ac yn poeni mwy am gael y feirws a mynd yn ddifrifol wael (arolwg llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru)	
Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd ²⁵ a'r	Cadarnhaol: Mae COVID-19 yn cael effaith anghymesur sylweddol ar iechyd rhai pobl anabl a rhai pobl â chyflyrau iechyd cronig. Bydd mesurau	Canfu Adroddiad Cyngor ar Bopeth: An Unequal Crisis fod cyfran uwch o bobl anabl (1 o bob 4) yn wynebu colli eu swyddi	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau

²⁵ Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanalluogi gan eu namau ond gan rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnwyd a chwiliwch am 'model cymdeithasol'.

ffordd y gallai eich cynnig achosi rhwystrau sy'n analluogi pobl â gwahanol fathau o namau, neu y gellid defnyddio'r cynnig i ddileu'r rhwystrau hynny)	cryfach i leihau trosglwyddo yn cael rhai effeithiau cadarnhaol ar bobl anabl. Bydd caniatáu i wasanaethau cyswllt agos aros ar agor hefyd yn helpu i leihau effeithiau andwyol ar bobl anabl. Negyddol: Yng nghyfnod cynnar y pandemig, roedd pobl anabl yn fwy tebygol o fod ar ffyrlo ac mae'n bosibl y caiff y patrwm hwn ei ailadrodd. I bobl anabl, mae'n bosibl y bydd yr teimlad o fod yn ynysig a'r effeithiau negyddol ar eu hiechyd oherwydd problemau iechyd meddwl yn cynyddu. Negyddol: Yng nghyfnod cynnar y pandemig, gwelodd rhai pobl anabl ostyngiad yn eu pecyn gofal gan awdurdodau lleol neu newidiadau eraill yn y cymorth sydd ar gael. Roedd hyn yn effeithio ar annibyniaeth, cydraddoldeb, ansawdd bywyd a llesiant pobl. I rai pobl anabl, efallai na fydd eu cartref yn lle diogel. Gallai'r gofyniad i aros gartref eu gwneud yn agored i niwed arall a gallai fod yn esgus rhesymol i eraill gadw gwasanaethau draw. Gall gofynion aros gartref a chyfyngiadau eraill effeithio'n fwy difrifol ar rai pobl anabl nag	na'r boblogaeth gyffredinol (1 o bob 6). Mae dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod gan bobl anabl gynrychiolaeth uwch mewn tafarndai, bwytai a chaffis yng Nghymru, gyda 19% o'r rhai mewn cyflogaeth yn cael eu dosbarthu'n anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r cyfan mewn cyflogaeth). Mae adborth gan ofalwyr yn nodi bod diffyg darpariaeth arbenigol ar gyfer rhai grwpiau, fel y rheini sy'n gofalu am rywun â nam dysgu, awtistiaeth neu ddementia, sy'n llai tebygol o allu deall a delio â'r tarfu ar eu trefn arferol. Dangosodd yr arolwg Coronafeirws a Fi fod plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o sôn am effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a bod cau gwasanaethau yn cael effaith fawr ar sut roedden nhw'n teimlo. Gall cyfyngiadau symud effeithio'n anghymesur ar bobl anabl. Efallai y bydd lle diogel a phriodol yn brin gartref neu yn eu hardal leol ac efallai y bydd angen teithio i leoliad pellach i ffwrdd. Bydd unrhyw	andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Dylai eithriadau ac esgusodion rhesymol dros greu aelwydydd estynedig os ydych yn byw ar eich pen eich hun, ac i gyfarfod dan do i ddarparu gofal, liniaru effeithiau gwaethaf y mesurau.
--	--	--	---

	eraill. Gallai hyn fod oherwydd bod cadw at drefn arferol yn helpu i reoli eu llesiant neu oherwydd anhawster i gyfleu neu ddeall yr angen am gyfyngiadau penodol. Roedd cau 'gwasanaethau cyswllt personol' hefyd yn effeithio ar bobl anabl – yn enwedig gwasanaethau therapiwtig, yn cael effaith negyddol ar lesiant corfforol a meddyliol.	gyfyngiad ar amllder ymweliadau allanol yn effeithio'n fwy sylweddol ar rai pobl anabl. Yn ei adroddiad ar anghydraddoldebau ac effaith COVID-19^[1], nododd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau fod cadw pellter cymdeithasol a'r newidiadau i'n hamgylchedd adeiledig yn effeithio'n arbennig ar bobl anabl.	
<i>Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhywedd a phobl Drawsryweddol)</i>	Negyddol: Roedd rhywfaint o dystiolaeth yn gynharach yn y pandemig am effaith y gofyniad i aros gartref ar rai pobl yr oedd eu teuluoedd yn negyddol neu'n elyniaethus o ran hunaniaeth rhywedd yr unigolyn. Gallai gofyniad i aros adref ailgyflwyno'r materion hyn.		
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Negyddol: Mae amrywiaeth o faterion wedi'u nodi ar gyfer beichiogrwydd a mamolaeth o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud. Mae'r rhain wedi amrywio o ddylanwadu ar benderfyniadau menywod p'un ai i gael genedigaethau naturiol os nad yw eu partner yn bresennol, i anawsterau gyda bwydo ar y fron. Gellid teimlo'r effeithiau negyddol hyn eto yn ystod cyfnodau parhaus o'r	Nododd yr arolwg Babies in Lockdown fod ychydig dros chwarter (28%) o'r rhai sy'n bwydo ar y fron yn teimlo nad ydynt wedi cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn bwydo ar y fron (55%), ond nid oedd dros hanner y rhai a oedd yn defnyddio fformiwla wedi bwriadu gwneud hynny (53%). Nododd yr adroddiad bod bron i hanner (47%) o rieni yn dweud bod eu baban	Mesurau lliniaru: Bydd gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a gofal plant (gan gynnwys Dechrau'n Deg) yn parhau ar agor yn ystod cyfyngiadau lefel rhybudd 4 a byddant yn helpu i ddarparu cymorth i'r grŵp hwn.

	cyfyngiadau llymach ar lefel rhybudd 4.	wedi mynd yn fwy dibynnol arnynt. Roedd chwarter (26%) yn dweud bod eu babi'n crio mwy nag arfer. Roedd nifer y rhai a nododd gynnydd mewn babanod yn crio, strancio a bod yn fwy dibynnol arnynt ddwywaith mor uchel ymhlith y rhai ar yr incwm isaf o gymharu â'r rhai ar yr uchaf. Nododd yr adroddiad hwn hefyd fod 6 o bob 10 rhiant yn rhannu pryderon sylweddol am eu hiechyd meddwl.	
<i>Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)</i>	Cadarnhaol: Dangoswyd bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, felly bydd mesurau i reoli'r feirws o fudd arbennig i'r grŵp hwn. Negyddol: Amlygodd adroddiad Is-grŵp Economaidd-Gymdeithasol COVID-19 Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol faterion gorlenwi mewn cartrefi i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd gofyniad i aros adref yn effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n byw mewn amodau gorlawn. Negyddol: Mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o weithio o	Ceir ystod o dystiolaeth wahanol ar yr effaith anghymesur ar y gymuned Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (e.e. ONS, Grŵp cynghori Llywodraeth Cymru ar Bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, Coronafeirws a Fi). Dywedodd plant a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fod y cyfyngiadau'n effeithio ar eu gallu i gynnal corff a meddwl iach, a bod diffyg lle neu fyw mewn cartref gorlawn yn gwneud hyn yn anoddach. Mae pobl dduon Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynnwys 12% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Mae pecyn Llywodraeth Cymru wedi'i dargedu'n benodol at y sector lletygarwch a thwristiaeth. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio "dull 4E" lle mae gorfodi yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau o ran cydraddoldeb hiliol Dylai'r eithriadau a'r esgusodion rhesymol dros greu aelwydydd estynedig

	fewn y sector lletygarwch yng Nghymru na phobl wyn. Negyddol: Bydd cau rhai sectorau yn cael effaith anghymesur ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Gall fod effaith andwyol arbennig hefyd ar fusnesau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n gwerthu bwydydd diwylliannol arbenigol, fel bwyd ethnig, sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cynnal cwsmeriaid oherwydd prinder cynhyrchion bwyd. Negyddol: Bydd cau ysgolion hefyd yn cael effaith andwyol ar bobl hyn y genhedlaeth Windrush ac o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd wedi sôn am deimlo'n ynysig a gorbryder, iselder ac anawsterau iechyd meddwl yn gysylltiedig â bod o dan gyfyngiadau ac wedi'u hynysu mewn cartrefi i ffwrdd oddi wrth aelodau eu cymuned neu eu teulu. Negyddol: Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth bod niferoedd anghymesur o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u rhoi i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Gall creu troseddau newydd a allai arwain at gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig gael effaith andwyol ar gymunedau	Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'r rhai ar gyflog isel. Adroddwyd bod 24% o famau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi dweud eu bod yn cael trafferth bwydo eu plant. Dosbarthwyd 10% o hysbysiadau cosb benodedig yng Nghymru hyd at 22 Medi i bobl sy'n nodi eu bod o gefndir Asiaidd neu Tsieineaidd, sy'n cynrychioli tua 2% o'r boblogaeth. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran hysbysiadau cosb benodedig neu a oes gwahaniaethau ychwanegol nad ydym yn gwybod amdanynt, o ystyried y data cyfyngedig. Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2019 yn amcangyfrif bod 12% o'r rhai sydd mewn cyflogaeth mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (tra bod y grŵp hwn ond yn cynrychioli 5% o'r holl bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru).	os ydych yn byw ar eich pen eich hun, ac i gyfarfod dan do i ddarparu gofal, liniaru effeithiau gwaethaf y mesurau tymor byr.
--	--	---	--

	Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Gall y cyfyngiadau ar deithio gael effaith andwyol ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd â theulu mewn mannau eraill yn y DU neu dramor.		
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Cadarnhaol: Bydd addoldai yn aros ar agor ac yn cael gweithredu mewn ffordd ddiogel o ran COVID. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau ffydd.		
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Cadarnhaol: Mae tystiolaeth glir bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar ieuchyd dynion. Felly bydd mesurau i ddod â'r feirws yn ôl dan reolaeth a lleihau trosglwyddo yn cael effaith gadarnhaol ar ddynion. Negyddol: Bydd y cyfyngiadau ar y sector lletygarwch yn effeithio ar fenywod gan eu bod yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael eu effeithio os bydd yn rhaid i'w plentyn hunanynysu gan eu bod yn tueddu i ysgwyddo mwy o'r gwaith o ofalu am blant. Negyddol: Mae tystiolaeth dda o gyfnod cynnar y pandemig bod y cyfrifoldebau gofalu ychwanegol sy'n codi o'r pandemig, gan gynnwys gofal plant, yn cael ei ysgwyddo'n anghymesur gan fenywod. Bydd hyn yn	Mae 76% o'r hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd hyd at 22 Medi wedi rhoi i ddynion. Nid yw'n glir beth sydd wedi sbarduno'r gwahaniaethau o ran rhyw a hysbysiadau cosb benodedig, o ystyried y data cyfyngedig. Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2019 yn amcangyfrif bod 50% o'r rhai sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru mewn tafarndai a bwytai yn fenywod, tra bod menywod yn cynrychioli 47% o'r holl bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru. Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu y gallai menywod elwa ar ailgydio mewn rhyngweithio cymdeithasol 'normal', fel pryd o fwyd gyda ffrindiau neu deulu/teulu estynedig,	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr. Bydd cadw lefelau'r hysbysiadau cosb benodedig yn gymharol isel, eu hadolygu'n rheolaidd a'r Heddlu'n parhau i ddefnyddio "dull 4E" lle mae gorfodi yn ddewis olaf, oll yn helpu i liniaru'r effeithiau ar gydraddoldeb rhywiol Mae'r gallu i gael gofal plant – neu i rieni sengl greu aelwyd estynedig - yn ceisio lliniaru effaith anghymesur y gofyniad i aros gartref ar fenywod. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall gwasanaethau allweddol barhau i weithredu, gan gynnwys wyneb yn wyneb yn ystod cyfyngiadau Lefel 4 (er enghraifft,

	effeithio ar allu rhai menywod i weithio ac ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae pryder y bydd hyn hefyd yn cael effaith tymor hwy ar yrfaeodd menywod a'u gallu i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Negyddol: Mae tystiolaeth o alw cynyddol am gymorth gyda thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dilyn y cyfyngiadau symud cenedlaethol. Bydd unrhyw fesurau sy'n dweud wrth bobl am aros adref a chyfyngu ar y mannau lle gallant fynd i wneud datgeliad yn cynyddu'r risgiau hynny ac yn cyfyngu ar y cyfle i gael gafael ar gymorth neu gefnogaeth. Negyddol: Derbyniodd dynion nifer anghymesur o hysbysiadau cosb benodedig.	a allai roi hwb i lesiant seicolegol. Menywod yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n darparu gofal, bod hynny â thâl neu'n ddi-dâl, a menywod yw'r rhan fwyaf o'r gweithwyr ieuchyd, ac maent yn fwy tebygol na dynion o roi gofal di-dâl gartref (Grŵp Cyllideb Menywod, COVID-19: Materion Rhywedd a Chydraddoldeb) Gofalwyr sy'n gweithio, a fydd yn gorfod cydbwysu agor gwasanaethau lleol a gofalu am berson sy'n agored i niwed. (<i>Carers UK</i>)	gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a Dechrau'n Deg).
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)</i>	Negyddol: Mae rhywfaint o dystiolaeth o gyfnod cynnar y pandemig am effaith y gofyniad i aros gartref ar rai pobl yr oedd eu teuluoedd yn negyddol neu'n elyniaethus o ran cyfeiriadedd rhywiol yr unigolyn. Gallai gofyniad i aros gartref ailgyflwyno'r materion hyn.		
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Negyddol: Mae mesurau lefel rhybudd 4 yn cyfyngu ar nifer y gwesteion a all fynychu seremoni priodas neu bartneriaeth sifil (gan gynnwys priodasau dyneiddiol).	Roedd pobl a oedd yn briod neu'n cyd-fyw yn llai tebygol na'r cyffredin o deimlo'n unig (unigrwydd cronig ac unigrwydd oherwydd cyfyngiadau	

		symud) (arolwg barn a ffordd o fyw ONS, 20 Mai).	
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Cadarnhaol: Bydd cadw ysgolion, a cholegau ar agor (hyd yn oed os oes rhaid i hyn fod drwy ddysgu o bell gartref) yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed neu o gefndiroedd difreintiedig. Fodd bynnag, nid yw'r posibilrwydd y bydd plant yn gweithio gartref yn cael ei ystyried yn rhywbeth mor gadarnhaol, ac yn sicr nid yn y tymor canolig na'r tymor hir. Negyddol: Mewn sefyllfa lle mae angen dysgu o bell neu ddysgu cyfunol, gallai plant o deuluoedd incwm is fod o dan anfantais oherwydd bod cost TG (o bosibl) yn eu rhoi o dan anfantais o ran hwyluso addysg eu plant. Negyddol: Mae peryg y bydd cyfyngiadau lefel rhybudd 4 yn niweidio iechyd meddwl plant, yn enwedig o ran cynyddu teimladau o unigrwydd neu o fod yn ynysig yn ystod y cyfyngiadau mwyaf llym. Negyddol: Bydd effeithiau economaidd negyddol a brofir gan y teulu yn effeithio ar blant. Negyddol: Mae cau lleoliadau adloniant a chwaraeon (sinemâu, arcedau bowlio, mannau	Mae'r dystiolaeth o'r cyfyngiadau symud cyntaf yn dangos bod yr effaith ar blant sy'n agored i niwed a phlant difreintiedig wedi bod yn arbennig o ddifrifol. Yn yr holiadur Coronafeirws a Fi, nodwyd mai'r prif beth a oedd yn cael effaith ar deimladau plant a phobl ifanc oedd methu â gallu gweld ffrindiau. Yn yr arolwg Coronafeirws a Fi, plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a oedd fwyaf tebygol o ddweud bod angen help arnynt i sicrhau bod gan eu teulu ddigon o fwyd. Maent yn fwy tebygol o roi gwybod am arwyddion o ansicrwydd bwyd. Adroddwyd am hyn hefyd gan randdeiliaid sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r gymuned DDU, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol	Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu teuluoedd sydd mewn tlodi drwy, er enghraifft, y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Datblygu Plant ar gyfer plant sydd mewn perygl o oedi datblygiadol. Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 14 Rhagfyr, gosododd Llywodraeth Cymru gysail trwy ddeddfu i sicrhau, pe bai ysgolion cynradd yn penderfynu cau, y byddent yn parhau i gynnig darpariaeth addysg i ddysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol – cedwir yr opsiwn i ddod â'r gyfarwydddeb hon i rym eto, yn y dyfodol. Mae canllawiau'n cael eu datblygu i gyfleu hyblygrwydd y cyfyngiadau i addasu i anghenion grwpiau penodol, h.y. yr esgusodion rhesymol y gellir eu defnyddio gan gynnwys y gallu i fynd allan. Bydd cyfathrebu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn cael ei wella drwy hysbysebion a dylanwadwyr a fydd yn targedu sianeli cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc (er enghraifft, TikTok) ac fe'u defnyddir i drosglwyddo negeseuon 'Diogelu Cymru'.

	chwarae dan do a'r holl weithgareddau a drefnir yn yr awyr agored) yn lleihau'r opsiynau hamdden sydd ar gael i blant a phobl ifanc.		Mae'r cyfyngiadau yn lefel rhybudd 4 sy'n ymwneud â gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu, fel arfer yn cynnwys plant a'u rhieni/gwarcheidwaid yn teithio ac o bosibl yn cymysgu ag aelwydydd eraill. Y risg gynyddol o drosglwyddo yw'r hyn y mae cyfyngiadau lefel rhybudd 4 yn ceisio'i osgoi.
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	Negyddol: Mae natur cyflogaeth yn y sectorau yr effeithir arnynt fwyaf yn golygu y bydd effeithiau'n tueddu i waethgu anghydraddoldebau – mae'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf yn tueddu i fod ar gyflog isel, mewn cyflogaeth ansicr, ac yn ifanc.	Mae data dros dro ar gyfer 2020 o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2-ddigid yng Nghymru. Ar gyfer Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod (cod SIC 56), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.20 – sef £4.22 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.42. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £140.40 yw'r canolrif – tua £299.60 yn is na chanolrif Cymru. Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod o leiaf 80% o weithwyr Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru. Adroddodd y Resolution Foundation ar 27 Hydref	Bydd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ac estyniad Llywodraeth y DU i'r cynllun ffyrlo yn helpu i liniaru effeithiau andwyol y mesur hwn yn y tymor byr er ein bod yn cydnabod y bydd yn rhaid i lawer ymdopi ar lai o arian nag arfer gan fod y ffyrlo yn darparu 80% o gyflog unigolyn. Mae hefyd yn arbennig o anodd i rai categorïau o weithwyr fel y rhai sydd ar gontractau dim oriau, gweithwyr asiantaeth a chynlluniau lleoliadau gwaith eraill.

		fod 9 y cant o'r rhai a fu ar ffyrlo wedi colli eu swyddi. Roedd y gyfradd hon ar ei huchaf ymhlith pobl 18-24 oed, gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'r rhai ar gyflog isel. <i>Arolwg Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru:</i> mae'r rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac o deimlo'n bryderus ac ynysig yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, yn ogystal â bod yn fwy pryderus am eu hiechyd meddwl.	
--	--	---	--

Atodiad B: 1.3 Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mesurau llinell sylfaen lefel rhybudd 0 - Hawliau plant

Diffiniad o Blentyn

Mae Erthygl 1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn diffinio plentyn fel person o dan 18 oed oni bai, mewn perthynas â chyfraith sy'n gymwys i blentyn, y deir i lawn oed yn gynharach.

O ganlyniad, wrth ystyried effeithiau unrhyw newidiadau i lefelau rhybudd a chyfyngiadau yng Nghymru a ategir gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ar blant, rhaid inni ystyried y ffordd y mae'r effeithiau hynny'n amrywio yn ôl oedran, yn ogystal ag yn ôl rhyw, ethnigrwydd, statws economaidd-gymdeithasol a daearyddiaeth.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 12 CCUHP yn nodi bod gan blant yr hawl i ddweud beth yn eu barn nhw ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac i'w barn gael ei hystyried.

Effaith gronol y cyfyngiadau ar blant a phobl ifanc

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth. Disodlwyd y rhain gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2), (Rhif 3) a (Rhif 4) (Cymru) 2020.

Mae cyfoeth o dystiolaeth yn dod i'r amlwg ar effaith negyddol cyfyngiadau COVID-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, ond mae'r dystiolaeth yn dameidiog ac o ansawdd amrywiol.

Y patrwm cyson yn y dystiolaeth sydd ar gael yw bod y niwed sy'n deillio o gyfyngiadau COVID-19 ar blant a phobl ifanc:

- Yn uchel ac yn effeithio ar bob agwedd ar eu bywyd a'u datblygiad;
- Yn cael ei deimlo'n wahanol ar draws gwahanol grwpiau oedran a chlyfnodau datblygu;
- Wedi'i ddosbarthu'n anwastad.

Elfen arwyddocaol yw bod y plant a'r bobl ifanc hynny a oedd eisoes dan anfantais cyn y cyfyngiadau yn fwy tebygol o fod wedi cael eu heffeithio'n anghymesur (e.e. plant a phobl ifanc ar aelwydydd incwm isel, â namau ac anghenion dysgu ychwanegol, yng ngofal yr awdurdod lleol, y rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc, Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol).

Daeth yn amlwg hefyd fod grŵp o blant a phobl ifanc sy'n 'agored i niwed o'r newydd', sef y rhai sy'n byw ar aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur gan golli incwm, cau ysgolion, cau cyfleusterau cymunedol a hamdden, hunanynysu, a gorchmynion aros gartref ac aros yn lleol (e.e. plant a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd sy'n dibynnu ar incwm o swyddi a ystyrir yn rhai nad ydynt yn hanfodol a/neu nad oedd ganddynt unrhyw arian wrth gefn ar ddechrau'r cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, plant a phobl ifanc mewn amgylchedd cartref is-optimadd sy'n

dibynnu ar ysgolion, cyfleusterau cymunedol a hamdden fel lloches neu am eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, plant gweithwyr hanfodol, y rhai sy'n gadael addysg, dysgwyr mewn addysg bellach sydd â phlant).

Mae'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau pandemig wedi'u goddef gan y plant a'r bobl ifanc eu hunain a'r rhai sy'n eiriol ar ran plant a phobl ifanc ar sail y risg i iechyd y cyhoedd. Gan fod y fwyaf o bobl wedi cael y ddau ddos o'r brechlyn erbyn 9 Awst, mae cydbwysedd yr ystyriaethau niwed yn symud oddi wrth y rhai a achosir gan y coronafeirws i'r niwed ehangach sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau'r coronafeirws.

Symud i fesurau llinell sylfaen lefel rhybudd 0

Yn ganolog i'n penderfyniad i symud i lefel rhybudd 0 mae ein dealltwriaeth mai hwn yw cyfnod plentyndod pob plentyn yng Nghymru – ac mai **dyma'r unig blentyndod a gânt**. Mae dychwelyd at brofiad plentyndod mwy arferol yn ddymunol gan fod y brechlyn wedi'i gynnig i bob oedolyn cymwys, gyda 90% yn manteisio arno (ar 9/7/21). Bydd pob oedolyn wedi cael cynnig ei ail ddos erbyn mis Medi fan bellaf; ac i adlewyrchu'r lefelau trosglwyddo presennol a'r capasiti yn y GIG.

Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu. Bydd y newid i fesurau llinell sylfaen Lefel Rhybudd O yn dibynnu ar fesurau ac ymddygiadau amddiffynol parhaus.

Mae ein penderfyniad i symud i Lefel Rhybudd O wedi'i lywio gan adborth gan ein rhanddeiliaid, rhieni a phlant a phobl ifanc eu hunain sydd wedi tynnu sylw at amrywiaeth o faterion hawliau plant o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud yr ydym wedi dysgu ohonynt i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl, bod mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith a bod yr effaith ar blant a phobl ifanc yn cael ei hystyried a'i dadansoddi'n barhaus.

Egwyddorion cyffredinol wrth wneud penderfyniadau

1. Dylai plant a phobl ifanc fod yn ddiogel, yn cael eu gweld, eu clywed, eu meithrin a'u datblygu
2. Dylai plant allu mynd i'r ysgol a gofal plant (gan gynnwys Dechrau'n Deg)
3. Dylai plant allu mynd allan i chwarae ac i wneud ymarfer corff
4. Dylid caniatáu i blant iau, dan 12 oed, gymysgu'n rhydd
5. Dylai gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd barhau i weithredu a gallu cynnig gwasanaethau wyneb yn wyneb lle mae angen y plentyn/teulu yn golygu bod galw am hynny. Efallai y bydd angen cymorth ar deuluoedd difreintiedig i gael mynediad at wasanaethau ar-lein – gan gynnwys cit IT a/neu 'ddata'.
6. Dylai plant ag anghenion ychwanegol gael yr asesiadau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt – gall hyn gynnwys swigen gefnogi ehangach i deuluoedd/gwasanaethau er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw deulu ei adael i frwydro ar ei ben ei hun – gall olygu bod grŵp mwy yn mynd allan i ymarfer corff i gefnogi'r plentyn
7. Ni ddylai unrhyw blentyn fynd yn llwglyd
8. Dylai cymorth i rieni fod ar gael drwy ystod o fecanweithiau, gan gynnwys mamau/rhieni newydd

9. Dylid cynnal asesiadau datblygu blynyddoedd cynnar arferol (a hynny wyneb yn wyneb lle bo angen, gydag amddiffyniadau COVID-19) a rhoi ymyriadau ar waith (e.e. iaith a lleferydd, golwg a chlyw)
10. Dylid cyfleu'r uchod i gyd yn glir, gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc

Mesurau llinell sylfaen sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc

Ystyriwyd effeithiau'r mesurau llinell sylfaen yng nghyd-destun ymddygiadau da parhaus o ran cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo a gwisgo gorchuddion wyneb pan fo angen gwneud hynny, a chyda'r disgwyliad y gallai asesiadau risg lleol ofyn am fesurau lliniaru eraill.

Dylid nodi bod rhai grwpiau o blant a phobl ifanc sydd â chyflyrau iechyd sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl o COVID-19. Ar gyfer y grwpiau hyn o blant a phobl ifanc, efallai na fyddant yn gallu manteisio ar ddileu cyfyngiadau ymhellach. Er bod effeithiau cadarnhaol wedi'u nodi ar gyfer y rhan fwyaf o blant ar gyfer y cyfyngiadau unigol isod, nid yw'r effeithiau hyn yn cael eu profi'n gyfartal gan bob plentyn a pherson ifanc. I rai, oherwydd effeithiau anghymesur y feirws ar iechyd, bydd effeithiau niwtral neu negyddol.

Dileu'r cyfyngiadau ar niferoedd sy'n cyfarfod mewn anheddau preifat, yn cyfarfod dan do ac yn yr awyr agored ac mewn aelwydydd estynedig

Bydd effeithiau cadarnhaol ar blant a phobl ifanc gan y byddant yn gallu ymweld a threulio amser gyda theulu a ffrindiau estynedig, gan gynnwys aros dros nos. Bydd hyn o fudd i blant a phobl ifanc nad ydynt wedi gallu gweld pob aelod o'u teuluoedd o ganlyniad i'r cyfyngiadau. Efallai y bydd goblygiadau cadarnhaol hefyd i aelodau ehangach o'r teulu a all ddarparu trefniadau gofal plant anffurfiol.

Bydd effeithiau cadarnhaol ar blant a phobl ifanc gan y byddant yn gallu ymweld ac aros dros nos yn nhŷ ffrindiau a/neu gyfarfod â ffrindiau i chwarae neu gymdeithasu.

Cydnabyddir bod cam-drin ac esgeuluso plant yn ogystal â gweld trais domestig fel plentyn yn Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod(ACE). Gall dod i gysylltiad ag ACE newid sut mae ymennydd plant yn datblygu yn ogystal â newid datblygiad eu systemau imiwnolegol a hormonaidd.

Bydd rhai plant wedi cael profiadau o ACE yn ystod y pandemig. Mae gennym dystiolaeth gan rai darparwyr gofal plant eu bod wedi gwneud mwy o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd esgeuluso a chynnydd mewn trais domestig yn y cartref. Nododd arweinwyr ysgolion hefyd fod achosion diogelu a oedd eisoes yn bodoli wedi'u gwaethygu gan y cyfyngiadau symud cenedlaethol, oherwydd bod sefyllfaoedd teuluol anodd yn dirywio ymhellach. Er enghraifft, nododd rhai arweinwyr gynnydd mewn achosion o drais domestig ers y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf. Dywedodd rhai eu bod wedi dod yn ymwybodol o fwy o gamddefnyddio alcohol a chyffuriau gan rieni gartref. Nododd llawer o arweinwyr

ysgolion cynradd anawsterau disgyblion dros y cyfnod hwn, gan gynnwys trais domestig, trawma neu ddiffyg strwythur a threfn gyffredinol.

Nid oes gennym unrhyw ddata i ddangos bod cydberthynas rhwng cynnydd mewn adroddiadau cam-drin domestig a chynnydd mewn atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol. Rydym wedi parhau i dderbyn data gan bob awdurdod lleol i ddangos nifer y cysylltiadau diogelu a dderbynnir ar gyfer pob plentyn yng Nghymru. Tan ddiwedd mis Mehefin, mae'r data hwn wedi'i gasglu'n wythnosol (gan symud i bob pythefnos ers 23006.²¹) o ddechrau'r pandemig. Drwy gydol y pandemig, mae'r cyfraddau atgyfeirio wedi amrywio.

Mynegwyd pryder gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant yn gynnar yn ystod y pandemig, gan fod gostyngiad yn y cyfraddau atgyfeirio. Roedd hyn yn effaith uniongyrchol i gau ysgolion a'r cyfyngiadau symud. Mae gwaith monitro rheolaidd wedi'i wneud i asesu niferoedd yr atgyfeiriadau. Mae'r rhain wedi amrywio drwy gydol y flwyddyn, yn ystod y cyfyngiadau symud pellach, ond mae'r gostyngiadau hyn wedi bod yn debyg i'r rhai a welir yn ystod gwyliau ysgol. Mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant a Chadeiryddion Byrddau Diogelu Rhanbarthol a thrafodir nifer yr atgyfeiriadau yn aml fel rhan o'r trafodaethau hyn. Mae ailagor ysgolion wedi lleddfu pryderon proffesiynol oherwydd y ffaith fod plant yn cael eu gweld. Cynhyrchwyd cyfres o ganllawiau yn barod ar gyfer dychwelyd i ysgolion ym mis Medi 2020 i gefnogi ymarferwyr, rhieni, gofalwyr, neiniau a theidiau a phlant i baratoi'r amodau priodol ar gyfer datgelu. Mae'n wir y gallai effaith y pandemig gymryd peth amser i'w deall, gan y bydd angen i blant a phobl ifanc deimlo'n gyfforddus yn ei ddatgelu. Mae ymarferwyr yn parhau i fod yn barod i ymateb pan fo angen.

Gallai ymestyn nifer y cartrefi y gall plant a phobl ifanc ymweld â hwy ac aros dros nos ynddynt roi rhywfaint o seibiant iddynt o amgylcheddau cartref camdriniol, neu gallai eu gwneud yn agored i niwed ehangach.

Mae erthyglau 15, 18 a 19 yn berthnasol

Trefnu digwyddiadau dan do ac yn yr awyr agored

Manteision cadarnhaol i blant a phobl ifanc o allu cymryd rhan mewn digwyddiadau dan do ac awyr agored wedi'u trefnu a allai fod wedi'u canslo neu eu gohirio oherwydd y cyfyngiadau.

Mae erthyglau 15 a 31 yn berthnasol

Stadia a digwyddiadau

Manteision cadarnhaol i blant a phobl ifanc o allu cymryd rhan mewn digwyddiadau a allai fod wedi'u canslo neu eu gohirio oherwydd y cyfyngiadau.

Mae erthyglau 15 a 31 yn berthnasol

Chwaraeon ac ymarfer corff a chyfleusterau hamdden a ffitrwydd (campfeydd, pyllau nofio, sbas, stiwdios ffitrwydd) a chyrtiau chwaraeon, cyrsiau golff, caeau caeedig

Manteision cadarnhaol i blant a phobl ifanc o allu cymryd rhan mewn timau chwaraeon neu ddosbarthiadau ymarfer corff a allai fod wedi'u canslo neu eu gohirio oherwydd y cyfyngiadau. Bydd codi'r cyfyngiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc.

Mae erthyglau 15 a 31 yn berthnasol

Gweithgareddau plant dan oruchwyliaeth

Manteision cadarnhaol i blant a phobl ifanc o allu cymryd rhan mewn timau chwaraeon neu ddosbarthiadau ymarfer corff a allai fod wedi'u canslo neu eu gohirio oherwydd y cyfyngiadau.

Mae erthyglau 15 a 31 yn berthnasol

Manwerthu nad yw'n hanfodol

Yn gyffredinol, effaith niwtral ar blant a phobl ifanc o ailagor manwerthu nad yw'n hanfodol. Bydd rhai effeithiau cadarnhaol ar bobl ifanc sy'n cael eu cyflogi gan fusnesau manwerthu, o ran diogelwch swyddi ac incwm. Bydd effeithiau tebyg llai uniongyrchol ar blant a phobl ifanc y mae eu rhieni/gofalwyr yn gweithio mewn rolau manwerthu nad ydynt yn hanfodol.

Mae erthygl 32 yn berthnasol

Gwasanaethau cyswllt agos (trinwyr gwallt, salonau ewinedd a harddwch, busnesau tatŵs, tylino, ac ati.)

Effaith gadarnhaol ar y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n dymuno defnyddio cyfleusterau gwasanaethau cyswllt agos sy'n briodol i'w hoedran.

Bydd effeithiau anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc y mae eu rhieni/gofalwyr yn gweithio mewn gwasanaethau cyswllt agos o ran diogelwch swyddi ac incwm.

Mae erthygl 32 yn berthnasol

Tafarndai, bwytai, caffis, bariau, clybiau aelodau

Yn gyffredinol, effaith gadarnhaol gyffredinol ar allu plant a phobl ifanc i brofi gwasanaethau lletygarwch.

Mae erthyglau 15 a 31 yn berthnasol

Llety gwyliau

Manteision cadarnhaol cyffredinol i blant a phobl ifanc ac i deuluoedd sy'n defnyddio llety gwyliau gael gwyliau teuluol.

Mae erthygl 31 yn berthnasol

Lleoliadau adloniant (sinemâu, neuaddau bingo, alïau bowlïo, canolfannau ac ardaloedd chwarae dan do do, casinos, arcedau difyrion, theatrau a neuaddau cyngerdd) ac atyniadau ymwelwyr dan do (gan gynnwys amgueddfeydd, orielau, atyniadau addysgol a threftadaeth, a safleoedd treftadaeth fel cartrefi bonedd) ac atyniadau awyr agored a mannau awyr agored mewn atyniadau (gan gynnwys parciau hanesyddol, gerddi, safleoedd gyrru i mewn, amgueddfeydd awyr agored, atyniadau fferm, sŵau) a chanolfannau sglefrio (defnydd hamdden cyhoeddus) a ffeiriau a pharciau thema.

Manteision cadarnhaol i blant a phobl ifanc o allu cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol sy'n briodol i'w hoedran a allai fod wedi'u canslo neu eu gohirio oherwydd y cyfyngiadau. Bydd codi'r cyfyngiadau hyn yn cael effaith

gadarnhaol ar iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau a gallu treulio amser gyda ffrindiau.

Mae erthyglau 15 a 31 yn berthnasol

Clybiau nos a lleoliadau adloniant hwyr y nos

Effaith gyfyngedig gan eu bod wedi'u hanelu'n bennaf at bobl dros 18 oed. Mae rhywfaint o effaith gadarnhaol o ran lleoliadau sy'n cynnal digwyddiadau i rai dan 18 oed, gan y bydd pobl ifanc yn gallu cymryd rhan a chymdeithasu â'u ffrindiau.

Mae erthygl 15 yn berthnasol

Mannau addoli

Effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc a fydd yn gallu arfer eu ffydd.

Mae erthygl 14 yn berthnasol

Cyfleusterau cymunedol

Effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc o ran gallu defnyddio cyfleusterau cymunedol a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ynddynt.

Mae erthygl 15 yn berthnasol

Llyfrgelloedd

Effeithiau cadarnhaol i blant a phobl ifanc o ran gallu defnyddio gwasanaethau llyfrgell am ddim. Bydd hyn yn cynnwys effeithiau cadarnhaol ar ddarllen plant a phobl ifanc, gallu cael gafael ar ystod eang o lyfrau ac adnoddau eraill a mynediad i'r rhyngryd.

Bydd manteision cadarnhaol hefyd yn cael eu gweld drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddigwyddiadau llyfrgell sy'n hyrwyddo darllen a/neu'n annog cyfleoedd i gyfarfod ag aelodau eraill o'r gymuned.

Mae erthyglau 15 a 17 yn berthnasol

Meysydd chwarae, parciau cyhoeddus

Effeithiau cadarnhaol i blant a phobl ifanc o ran mynediad i gyfleusterau chwarae. Bydd dileu'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â meysydd chwarae a pharciau cyhoeddus o fudd i iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc ac i'w cyfleoedd i chwarae gyda ffrindiau.

Mae erthyglau 15 a 31 yn berthnasol

Priodasau (gan gynnwys rhai dyneiddiol), partneriaethau sifil ac angladdau

Effaith fach ar blant a phobl ifanc, ar wahân i'r cyfle i gymryd rhan mewn achlysuron teuluol hapus.

O ran angladdau yn benodol, efallai y bydd plant a phobl ifanc yn gallu profi a phrosesu galar yn fwy priodol os ydynt yn gallu mynychu angladdau.

Mae erthygl 14 yn berthnasol

Digwyddiadau bywyd eraill (gan gynnwys bar mitzvah, bedydd, neu rai eraill)

Effeithiau cadarnhaol o ran plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu ffydd drwy ddigwyddiadau crefyddol arwyddocaol.

Mae erthygl 14 yn berthnasol

Gwersi a phrofion gyrru

Effaith gadarnhaol ar bobl ifanc o ran cael gwersi gyrru a phrofion gyrru, gan gynnwys y rhyddid a'r hyblygrwydd y mae gyrru yn ei roi i bobl ifanc. Nodir effeithiau cadarnhaol hefyd drwy allu manteisio ar gyfleoedd gwaith a hamdden.

Nid oes unrhyw erthyglau'n berthnasol

Teithio

Effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc o ran gallu teithio ac elwa ar brofiadau teithio.

Mae tystiolaeth gan BAWSO yn dangos eu bod, o fis Mawrth 2020 i fis Ionawr 2021, wedi cefnogi 49 o ddioddefwyr trais ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod o gymharu â 151 o ddioddefwyr yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020. Yn ôl ffigurau llywodraeth y DU, mae nifer y gorchmynion diogelu oherwydd priodasau dan orfod a roddwyd yng Nghymru wedi plymio ers dechrau'r pandemig, o 60 yn 2019 i lai na phump yn 2020. Gallai llacio'r cyfyngiadau ar deithwyr rhyngwladol sy'n dychwelyd i Gymru, sy'n gyson â dull y DU ac yn gysylltiedig â Phrofi, Olrhain Diogelu, olygu bod cynnydd yn nifer y rhai yr eir â hwy allan o'r DU at ddibenion priodas dan orfod ac FGM.

Nid oes unrhyw erthyglau'n berthnasol

Darparwyr gofal plant a gofal plant anffurfiol

Effeithiau cadarnhaol ar blant ifanc sy'n elwa ar wasanaethau darparwyr gofal plant a gofal plant anffurfiol gan gynnwys gofal plant, dysgu, lleferydd, iaith a chyfathrebu. Goblygiadau cadarnhaol i rieni o ran defnyddio darparwyr gofal plant i ofalu am blant.

Nodwyd effeithiau cadarnhaol ar rieni o ran defnyddio gwasanaethau gofal plant a gofal plant anffurfiol er mwyn gallu gweithio.

Mae erthyglau 28, 29 a 31 yn berthnasol

Ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd

Effeithiau cadarnhaol ar blant a phobl ifanc wrth i'r byd addysg ddychwelyd i ddarpariaethau cyn y pandemig, o ran trefn a strwythur. Mae manteision cadarnhaol o ran dysgu a phrofi cyson. Mae manteision cadarnhaol i addysg hefyd o ran treulio amser gyda ffrindiau.

Bydd effeithiau cadarnhaol wrth ailgychwyn gweithgareddau mewn ysgolion, megis clybiau ar ôl ysgol, timau chwaraeon, clybiau brecwast a theithiau ysgol, sydd o fudd cyffredinol i bob plentyn sy'n cymryd rhan ynddynt.

I rai plant a phobl ifanc bydd dychwelyd at y ddarpariaeth fel yr oedd cyn y pandemig mewn ysgolion yn cael effaith negyddol, yn benodol y plant hynny sy'n cael trafferth gyda dysgu yn yr ysgol, y rhai sy'n cael eu bwlio neu'r rhai nad ydynt yn gallu goddef y system addysg fwy ffurfiol honno. Gallai hyn fod yn berthnasol i rai plant awtistig (ond nid pob un ohonynt), plant â rhai mathau o anghenion dysgu ychwanegol neu blant ag anawsterau cymdeithasol neu ymddygiadol (gall eraill yn y grwpiau hyn elwa'n sylweddol o ddychwelyd i drefn 'normal' – bydd yr effeithiau'n amrywio gymaint ag y mae unigolion yn amrywio).

Un o'r gwersi pwysicaf o'r dystiolaeth yw bod cau ysgolion nid yn unig yn arwain at golli dysgu; mae hefyd yn amddifadu plant a phobl ifanc o'r mecanwaith pwysicaf sy'n meithrin gwydnwch ynddynt sy'n lliniaru effeithiau negyddol ar iechyd a lles corfforol a meddyliol, ac yn darparu cyfle i chwarae, rhyngweithio â chyfoedion, mynediad at oedolyn dibynadwy, datblygiad a chyfleoedd bywyd i'r rhai y mae eu hamgylchedd cartref yn is-optimaid, gydag effaith sylweddol gydol oes.

Bydd angen inni fod yn ymwybodol o effaith gronol cau ysgolion a chyfnodau o hunanynysu gorfodol ar lefelau cyrhaeddiad dysgwyr a faint y maent wedi'i golli ers mis Mawrth. I rai dysgwyr bydd angen mwy o waith wedi'i dargedu i adennill tir a gollwyd yn ystod y bylchau hyn.

- Byddwn yn darparu cymorth â ffocws i'r dysgwyr hyn a'u teuluoedd i sicrhau nad yw'r enillion a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad yn cael eu colli.
- Byddwn yn datblygu cynllun trawslywodraethol i fynd i'r afael â chyrhaeddiad a deilliannau addysgol ehangach mewn ffordd systematig, gydgyssylltiedig a chydweithredol, gan wneud y gorau o'r adnoddau a'r ysgogiadau sydd ar gael. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y dysgwr, gan gwmpasu'r daith 'ysgol gyfan'.
- Byddwn yn bwrw ati mewn perthynas â'n hymrwymiad maniffesto i ysgolion bro, gan ganolbwyntio ar sut y gall hyn hybu gwell cyrhaeddiad, dyheadau, llesiant a deilliannau addysgol i'n holl ddysgwyr

Llwyddiant yn hyn o beth fydd:

- Gwell cyrhaeddiad addysgol, gan fod pob dysgwr, yn enwedig mewn carfanau targed, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu a symud ymlaen tuag at bedwar diben Cwricwlwm Cymru, gan symud tuag at safonau a chyrhaeddiad addysgol gwell ac wedi'u hategu gan addysgu o ansawdd uchel
- mwy o degwch rhwng dysgwyr o deuluoedd dan anfantais economaidd neu anfantais arall, o'u cymharu â'u cyfoedion, gan helpu i gau bylchau mewn cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr a chefnogi symudedd cymdeithasol. Dylai pob un o'n plant a'n pobl ifanc gael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt waeth ble y cânt eu cyfleoedd dysgu a datblygu
- Byddwn hefyd yn cadw golwg ar faterion penodol sydd wedi codi oherwydd y pandemig, er enghraifft bwlch cyrhaeddiad cynyddol, newidiadau i'r berthynas rhwng ysgolion a'u cymunedau lleol, ac effeithiau ar les meddyliol ac iechyd corfforol dysgwyr.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y pandemig wedi effeithio ar rai grwpiau o ddysgwyr yn fwy nai'i gilydd. Mae angen i natur ein cymorth adlewyrchu hynny, gan gydnabod a chefnogi gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn y ffordd briodol. Yn benodol:

- Nid yw dysgwyr agored i niwed neu ddifreintiedig, a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, o reidrwydd wedi cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt; efallai bod rhai wedi wynebu heriau gyda dysgu o bell, a bod rhai'n ailaddasu i ddysgu wyneb yn wyneb.

- Mae dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar mewn cyfnod tyngedfennol ar gyfer datblygiad iaith, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol. Maent mewn perygl o golli cerrig milltir datblygiad allweddol, a allai effeithio ar eu lles emosiynol, eu cyfathrebu a'u datblygiad dysgu. Efallai y bydd ganddynt heriau penodol o ran datblygu ymdeimlad o berthyn yn eu hysgolion neu leoliadau, neu o ran bod i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd
- Bydd dysgwyr ôl-16 a phontio a'r rhai sy'n symud i ddarpariaeth ôl-16 yn meddwl am symud ymlaen i'w camau nesaf, yn ogystal â'u cyflogadwyedd a'u sgiliau tymor hwy. Bydd y dysgwyr hyn wedi profi pwysau ac ansicrwydd penodol, a bydd eu hyder wedi cael ei effeithio
- Bydd heriau penodol wedi bod hefyd i ddysgwyr trochi Cymraeg ar aelwydydd Saesneg eu hiaith, a dysgwyr sy'n pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Mae llawer o ddysgwyr ym mhob un o'r grwpiau hyn wedi gwerthfawrogi'r cymorth personol y maent wedi'i gael gan eu teuluoedd ac wedi symud ymlaen ar eu llwybr dysgu eu hunain. Ni fydd dull 'un ateb sy'n addas i bawb' yn caniatáu i ddysgwyr wneud y cynnydd angenrheidiol; mae ein cynllun yn cydnabod bod ymarferwyr yn gwybod beth sydd ei angen ar eu dysgwyr ac yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i'w cefnogi. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod ein cefnogaeth yn cydnabod profiadau gwahanol ddysgwyr o'r pandemig a'r anghenion dilynol – gyda charfanau targed penodol – a rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion a darparwyr dysgu eraill fanteisio ar y cymorth hwnnw yn y ffordd sydd orau i'w dysgwyr.

Mae maes arall o effaith negyddol bosibl yn gysylltiedig â defnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion uwchradd. Mae'r canllawiau presennol yn dweud os na ellir cynnal pellter cymdeithasol, y dylid gwisgo gorchuddion wyneb yn unrhyw le ar ystad yr ysgol, gan gynnwys staff mewn ysgolion cynradd yn yr ystafell ddosbarth, a chan staff a dysgwyr mewn ysgolion uwchradd. Mae defnyddio gorchuddion wyneb yn cael effaith anghymesur o negyddol ar blant a phobl ifanc sy'n parhau i fod yn grŵp heb ei frechu ar hyn o bryd.

Rhaid inni hefyd ystyried a ydym yn trin plant a phobl ifanc yn wahanol i oedolion os disgwylir i blant wisgo gorchudd wyneb yn yr ysgol drwy'r dydd.

Bydd angen ystyried effaith gofyn i blant a phobl ifanc hunanynysu (os bydd aelod o'u dosbarth yn profi'n bositif). Dylid ystyried yr achosion hyn fel cyfanswm cronol o ran yr effaith ar ddysgu yn ogystal â'r tarfu cymdeithasol a'r effaith ar les a cholli allan ar lawer o bethau eraill.

Mae erthyglau 28, 29 a 31 yn berthnasol

Colegau, sefydliadau addysg bellach

Bydd effeithiau cadarnhaol i ddysgwyr coleg ac addysg bellach wrth ddychwelyd i ddarpariaeth fel yr oedd cyn y pandemig.

Mae erthyglau 28 a 29 yn berthnasol

Unedau Cyfeirio Disgyblion, Ysgolion Arbennig ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Mae effeithiau cadarnhaol i ddysgwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, Ysgolion Arbennig a dysgwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol wrth ddychwelyd i'r ddarpariaeth fel yr oedd cyn y pandemig.

Mae erthyglau 28 a 29 yn berthnasol

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Yn ogystal â'r erthyglau penodol sy'n ymwneud â'r mesurau llinell sylfaen, mae hawliau plant ehangach eraill wedi'u hystyried. Maent yn cynnwys

Erthygl 1: Mae gan bawb o dan 18 oed yr holl hawliau yn y Confensiwn.

Erthygl 2: Mae'r confensiwn yn **berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu**, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag y maent yn ei feddwl neu'n ei ddweud, beth bynnag fo'u cefndir teuluol.

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 6: Mae gan bob plentyn **yr hawl i fywyd**; dylai Llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach

- Mae'r hawl i fywyd yn fwy na bod yn ddiogel rhag y feirws. Mae'n ymwneud â datblygu'n gymdeithasol, yn emosiynol, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn ysbrydol.
- Mae gallu chwarae ac ymarfer corff yn hanfodol i ddatblygiad corfforol plentyn a'i iechyd meddwl a'i les.
- Dylai plant iau allu cymdeithasu – mae hyn yn bwysig i fabanod a phlant bach yn ogystal ag i blant o oedr ysgol gynradd.
- Nododd yr arolwg 'Babies in Lockdown' fod ychydig dros chwarter (28%) y rhai sy'n bwydo ar y fron yn teimlo nad ydynt wedi cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn bwydo ar y fron (55%), ond nid oedd dros hanner y rhai a oedd yn defnyddio fformiwla wedi bwriadu gwneud hynny (53%).

Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud **beth yn eu barn nhw ddylai ddigwydd**. pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

- Roedd yr arolygon 'Coronafeirws a Fi' yn rhoi cipolwg ar farn y 23,700 o blant 3-18 oed a ddewisodd ymateb ym mis Mai/Mehefin 2020 a bron i 20,000 arall a ymatebodd ym mis Ionawr 2021. Nodir rhai o'r canfyddiadau isod. Dyma a ddywedodd y plant:
 - Roedd ganddynt bryderon ynghylch pa mor hir y byddai'r sefyllfa'n para ac yn ofni y byddent hwy neu'r rhai y maent yn eu caru yn dal y feirws. Roedd rhai'n teimlo eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel ar adeg pan oedd niferoedd dyddiol y marwolaethau'n gostwng a bod llai o bobl yn cael eu heffeithio. Efallai y byddant yn teimlo'n wahanol nawr bod cyfraddau heintio'n cynyddu ac y bydd tarfu ar eu bywydau eto.
 - Roedd plant anabl yn fwy tebygol o deimlo'n bryderus am y feirws ac roeddent yn pryderu am ei ddal.
 - Yn ôl pobl ifanc (12-18 oed) y tri phrif beth y mae'r rheolau aros gartref yn effeithio arnynt yw eu hatal rhag treulio amser gyda ffrindiau (72%), eu hatal rhag ymweld ag aelodau o'r teulu (59%) a chau'r ysgol neu'r coleg' (42%).
 - Mae pobl ifanc 12-18 oed yn dweud bod ganddynt bryderon am eu haddysg: dim ond 11% o'r ymatebwyr yn y grŵp oedran hwn a ddywedodd nad oeddent yn teimlo'n bryderus am eu haddysg, a'r prif bryder oedd y byddent yn mynd ar ei hôl hi o ran eu dysgu (54%). Roedd ymatebwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn poeni am fynd ar ei hôl hi o ran eu dysgu.
 - Y prif rwystrau i ddysgu yn y cartref oedd mynediad at ddyfeisiau electronig a phwysau yn amgylchedd y cartref. Dywedwyd bod heriau penodol hefyd i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
 - Dim ond 17% o bobl ifanc oedd yn teimlo'n hapus bod arholiadau'n cael eu canslo. Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o deimlo'n ansicr (51%) neu'n poeni (18%). Dywedodd pobl ifanc hefyd eu bod yn teimlo'n ddig (6%) ac yn drist (5%).
 - Mae'r rhan fwyaf o blant yn dweud eu bod yn chwarae mwy nag arfer (53%) a soniwyd am amrywiaeth eang o chwarae ar-lein ac all-lein gan gynnwys chwarae yn yr awyr agored, chwarae dychmygol, chwarae gyda theganau neu gemau, chwaraeon, a chwarae creadigol. Roedd hyn yn ystod yr adeg pan oedd y rheoliadau wedi newid i ganiatáu i blant fynd allan i chwarae ac i wneud ymarfer corff yn amlach. Roedd plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn chwarae llai.
- Mae'n bwysig inni barhau i wrando ar blant a phobl ifanc. Dyna pam yr ydym, drwy ein trefniant gyda Plant yng Nghymru, wedi cynnal digwyddiadau ymgynghori penodol yn ddiweddar gyda phlant a phobl ifanc ar ddefnyddio gorchuddion wyneb a'u profiad o gael mynediad at wasanaethau iechyd yn ystod y pandemig.

- Byddwn yn cynnal sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc drwy Plant yng Nghymru a Chomisiynydd Plant Cymru i geisio barn pobl ifanc ar y ffordd mae'r trefniadau'n cael eu gweithredu mewn ysgolion.

Erthygl 13: Mae gan blant yr hawl i **fynegi eu meddyliau a'u barn ac** i gael a **rhannu gwybodaeth**, cyn belled nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy nac i eraill.

- Mae pobl ifanc wedi dweud eu bod am gael mwy o wybodaeth sy'n berthnasol iddynt, beth bynnag fo'u cefndir.
- Mae angen inni sicrhau bod negeseuon yn briodol ar gyfer gwahanol ystodau oedran a lefelau dealltwriaeth.
- Dylai Gweinidogion siarad yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc i glywed eu barn a'u pryderon. Dywedodd pobl ifanc wrth y Prif Weinidog mai anaml y byddant yn gwyllo'r teledu. Gofynnwyd a oedd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethant ddweud bod y digwyddiadau yn y wasg yn tueddu i gael eu cynnal amser cinio pan oeddent yn yr ysgol.

Erthygl 14: Mae gan blant yr hawl i **feddwl a chredu'r** hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyn belled nad ydynt yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

Erthygl 15: Mae gan blant yr hawl i **gydgyfarfod â phlant eraill ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau**, cyn belled nad yw hynny'n yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

Mae canolfannau cymunedol, cyfleusterau cyhoeddus, megis llyfrgelloedd a llysoedd chwaraeon a pharciau sgelfrio yn cefnogi pob plentyn a pherson ifanc ond yn benodol pobl ifanc 7-11 oed Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a oedd yn llawer mwy tebygol o ddweud bod cau canolfannau cymunedol a methu â mynd allan wedi effeithio ar eu dysgu (arolwg Coronafeirws a Fi). Roedd plant a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws holl ystodau oedran yr arolwg hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo bod cau llyfrgelloedd wedi effeithio ar eu dysgu.

Erthygl 17: Mae gan blant yr **hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy** gan y cyfryngau torfol; dylai teledu, radio a phapurau newydd ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall, ac ni ddylent hyrwyddo deunyddiau a allai niweidio plant.

- Mae pobl ifanc wedi dweud eu bod am gael mwy o wybodaeth sy'n berthnasol iddynt, beth bynnag fo'u cefndir.
- Mae angen inni sicrhau bod ein negeseuon yn briodol ar gyfer gwahanol ystodau oedran a lefelau dealltwriaeth.
- Dylem geisio cyrraedd plant a phobl ifanc drwy amrywiaeth o gyfryngau a gofyn am eu hadborth.

Erthygl 18: Rhaid i lywodraethau gefnogi rhieni drwy **greu gwasanaethau cymorth i blant a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar rieni** i fagu eu plant.

- Mae teuluoedd na fyddent fel arfer yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol am gymorth wedi cysylltu am eu bod wedi cael trafferth gydag effaith cyfyngiadau symud a threfniadau ehangach y pandemig ar fywyd teuluol. Mae ffynonellau cymorth yn cynnwys -
 - Magu Plant - Rhowch Amser Iddo, lle gall rhieni ddod o hyd i wybodaeth, cyngor a chymorth
 - Teuluoedd yn Gyntaf
 - VAWDASV – gwasanaethau cymorth, llochesi. Gall unrhyw un sy'n pryderu am eu lles/diogelwch eu hunain neu eu plant barhau i gael cymorth drwy linell gymorth a Gwefan 24 awr Byw Heb Ofn.
 - Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn parhau i fod yn weithredol i ddarparu gofal a chymorth i blant a rhieni sydd â'r angen mwyaf.

Erthygl 19: Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i **sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael** gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.

- Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn dibynnu ar wasanaethau cyffredinol ac ataliol i sylwi ar arwyddion risg o niwed neu gamdriniaeth a rhoi gwybod amdanynt. Fe wnaeth trefniadau cychwynnol y cyfyngiadau beri gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu yn ymwneud â phlant.
 - Mae lefelau'r atgyfeiriadau diogelu wedi gwella ond ailddechreuodd ysgolion weithredu'n llawn roedd yr achosion a atgyfeiriwyd yn fwy cymhleth. Nododd tuedd ddiweddar fod mwy o atgyfeiriadau dienw gan gymdogion/aelodau o'r gymuned yn poeni am blant.
 - Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn parhau i fod yn weithredol ac wedi cadw mewn cysylltiad â phlant sy'n wynebu risg, a'u teuluoedd. Mae natur ac amllder y cyswllt hwnnw wedi'i lywio gan asesiad risg a adolygwyd yn rheolaidd.
 - Mae angen cymorth asiantaethau partner ar y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant i gadw golwg ar blant ac ymateb i bwysau ar wasanaethau sy'n dal i fod ar waith drwy gydol y cyfnod ers mis Mawrth er mwyn cadw plant yn ddiogel.
 - Mae gwybodaeth i gefnogi'r broses o nodi cam-drin a datgelu plant wedi'i datblygu a'i hyrwyddo i'r cyhoedd, i ymarferwyr ac i'r plant a'r bobl ifanc eu hunain.
 - Ailgydiwyd yn y gwaith i gyflawni camau gweithredu o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, ac mae'n dod yn ei flaen yn dda.

Erthygl 21: dylai'r broses fabwysiadu fod **yn ddiogel ac yn gyfreithlon a dylai lles pennaf plant fod yn flaenoriaeth.**

- Diogelu plant a sicrhau bod plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu cefnogi yw ein prif flaenoriaeth, felly nid ydym yn ystyried diwygio rheoliadau ar hyn o bryd fel y mae rhai gwledydd eraill wedi'i wneud. Mae adborth gan bartneriaid awdurdodau lleol yn cefnogi'r safbwynt hwn.
- Fodd bynnag, cyhoeddwyd Cyfrol 7 o Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ym mis Mawrth 2021 <https://gov.wales/written-statement-working-together-safeguard-people-volume-7-safeguarding-children-child-sexual>
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau i gefnogi'r modd y mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau plant. Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd ar sicrhau bod plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn parhau i gael y cymorth sydd ei angen arnynt a threfniadau iddynt gael cyswllt parhaus â'u teuluoedd lle bynnag y gellir cynnal hyn yn ddiogel.
- Mae un eithriad. Yn dilyn trafodaeth â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant, Comisiynydd Plant Cymru a rhanddeiliaid y Trydydd Sector, rhoddwyd hyblygrwydd dros dro o ran gofynion gweithdrefnol penodol ac amserlenni sy'n gysylltiedig â'r camau yn y Rheoliadau, er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau'n gyson o fewn y sector mabwysiadu.
- Er mwyn helpu awdurdodau lleol i baratoi i adfer gwasanaethau plant arferol yn raddol wrth i reoliadau'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant a rhanddeiliaid i ddatblygu Fframwaith Adfer. Mae'r Fframwaith yn nodi llwybr realistig a chyson ar gyfer adfer gwasanaethau cymdeithasol plant; addasu i ffyrdd newydd o weithio a dysgu o'r profiadau cadarnhaol y mae'r cyfyngiadau wedi'u cyflwyno. Mae'n nodi egwyddorion gweithio er mwyn helpu awdurdodau lleol i gynllunio mewn ffordd gyson ac ar gyflymder a bennir gan awdurdodau lleol unigol. Prif nod yr egwyddorion hyn yw helpu i flaenoriaethu gwaith a gwasanaethau, gan gynnal llesiant y gweithlu, darparu lleoliadau, cysylltu â phlant a theuluoedd ac ymgysylltu â'r Farnwriaeth.

Erthygl 23: Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd²⁶ gael gofal a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol.

- Mae rhieni plant ag anghenion ychwanegol wedi dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu hanghofio, a'u bod yn ansicr ble i gael cymorth a chefnogaeth.
- Roedd plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o gyfeirio at effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl yn eu hymateb i'r arolwg Coronafeirws a Fi.
- Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r cyfyngiadau cychwynnol a oedd yn nodi na châi neb fynd allan fwy nag unwaith y dydd – penderfynodd rhai rhieni dorri'r gyfraith i sicrhau'r 'gofal gorau' i'w plentyn.
- Byddai negeseuon clir a syml am gamau lliniaru posibl yn helpu teuluoedd â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

²⁶ Defnyddir y gair "anabledd" yma i olygu nam. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r model cymdeithasol o anabledd sy'n cydnabod bod pobl anabl yn cael eu hanalluogi nid gan eu namau ond gan rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas.

Erthygl 24: Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl.

Yr effaith ar iechyd meddwl, a gwaith lliniaru

- Mae iechyd meddwl wedi bod yn bryder gwirioneddol i blant a phobl ifanc yn ystod y pandemig fel y nodwyd drwy amrywiol arolygon ac ymchwil, gan gynnwys yr arolwg Coronafeirws a Fi, a'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro arolygon cenedlaethol a rhyngwladol ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r wybodaeth fwyaf dilys a diweddar wrth wneud penderfyniadau.
- Rydym yn mynd ati mewn sawl ffordd, fel cenedl, i geisio rheoli'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws, gan gynnwys drwy ganllawiau penodol i'r boblogaeth gyffredinol am y mesurau pwysig y gall pob person eu cymryd yn bersonol; canllawiau ar gyfer gofal plant, ysgolion a cholegau; gofynion hunanynysu a'r cynllun lefelau rhybudd diweddaraf. Er bod yr holl bethau hyn yn bwysig er mwyn lleihau trosglwyddo, mae angen ystyried y niwed arall y gallai effeithiau'r camau hyn eu cael ar blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys effeithiau anghymesur ar rai cymunedau gan gynnwys y teuluoedd mwyaf difreintiedig, Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Brechiadau COVID-19

- Mae pob oedolyn, a phlant sy'n agored i niwed yn glinigol o 16 oed, bellach wedi cael cynnig eu brechlyn cyntaf, gyda 90% yn dewis manteisio ar y cynnig. Mae 66% wedi cael y ddau ddos ac rydym yn anelu at gynnig ail ddos i bob oedolyn erbyn mis Medi. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol y mae plant yn dibynnu arnynt, fel athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuencid ac ati, wedi cael eu brechu. Maent yn llai tebygol o fod â'r feirws ac yn llai tebygol o'i drosglwyddo.
- Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi bod yn ystyried y potensial ar gyfer brechu plant a phobl ifanc rhwng 12 a 17 oed dros y misoedd diwethaf. Yn benodol, maent wedi bod yn ystyried a ddylid cynnig brechiad i blant, ac os felly pa oeddrannau, beth fydd yr amserlen, a pha frechlyn COVID-19 fydd yn cael ei ddefnyddio? Os cynghorir y dylid brechu, a oes rhai grwpiau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt? Ac a ddylai pobl ifanc 16-17 oed gael eu trin yn wahanol i grwpiau oedran iau?
- Yn ogystal ag ystyried hyn o safbwynt niwed clinigol (er mwyn osgoi derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau) gofynnwyd iddynt hefyd ystyried y mater o safbwynt niweidiau ehangach, sef yn benodol lleihau'r dyddiau 'i ffwrdd o'r ysgol' a'r effaith ar bresenoldeb.
- Maent wedi cymryd tystiolaeth ac wedi gofyn am gyflwyniadau gan ystod eang o arbenigwyr iechyd ac addysg, darparwyr brechlynnau, modelwyr, haematolegwyr a phediatregwyr i sicrhau eu bod yn ystyried materion

ehangach ar wahân i fanteision iechyd uniongyrchol. Byddant yn rhoi eu cyngor o fewn yr wythnosau nesaf.

- Yn y cyfamser, rhoddwyd ystyriaeth i'r niweidiau ehangach fel y'u nodir yn y papur hwn a pha rôl, os o gwbl, y dylai brechiadau ei chwarae wrth eu lliniaru. Mae'n hanfodol bwysig bod yr holl ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â brechiadau COVID-19. Mae angen hefyd ystyried y rhaglenni imiwneiddio hanfodol eraill a diogelu'r rhain rhag tarfu pellach.

Imiwneiddio

- Mae brechu plant yn rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw clefydau eraill yn ystod plentyndod yn lledaenu drwy'r boblogaeth. Mae'r rhaglenni imiwneiddio hyn wedi parhau.
- Mae cynnal rhaglenni imiwneiddio yn flaenoriaeth allweddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag heintiau y gellir eu hatal. Mae rhaglenni imiwneiddio plant wedi parhau fel gwasanaethau hanfodol yn ystod pandemig y coronafeirws, gyda sicrwydd priodol i rieni a mesurau rheoli heintiau ar waith.
- Ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol at bob meddyg teulu a bwrdd iechyd ym mis Mawrth i bwysleisio pwysigrwydd parhau â rhaglenni imiwneiddio plant yn ystod yr ymateb i COVID-19 i ddiogelu iechyd y cyhoedd nid yn unig yn ystod yr achosion ond yn y dyfodol.
- Ym mis Medi, anfonwyd llythyr ar y cyd at bob ysgol (drwy CLILC) gan y Prif Swyddog Meddygol, y Prif Swyddog Nyrsio a'r Cyfarwyddwr Addysg yn Llywodraeth Cymru, yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal yr holl raglenni imiwneiddio, gan gynnwys y fflw, ar hyn o bryd ac yn annog penaethiaid i gefnogi'r sesiynau hyn drwy ganiatáu mynediad i ysgolion yn unol â phrotocolau diogelwch.
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu adroddiadau misol manylach ar imiwneiddio i fonitro effaith COVID-19 ar y nifer sy'n manteisio ar y rhaglen imiwneiddio plant arferol ledled Cymru. Mae'r data cyfredol yn dangos bod nifer y plant ifanc a babanod sydd wedi cael eu brechiadau ar yr adeg briodol dros y saith mis diwethaf yn debyg i'r hyn ydoedd cyn y pandemig. Mae nifer y plant blwydd oed sy'n cael eu himiwneiddio wedi parhau'n uwch na 95% ar gyfer pob brechiad (ac eithrio rotafeirws ar 94.0%, na ellir ond ei roi hyd at 24 wythnos oed).
- Cafodd sesiynau imiwneiddio mewn ysgolion ar gyfer plant hŷn eu hatal ar ôl cau'r ysgolion ar 20 Mawrth 2020. Dechreuodd disgyblion ddychwelyd yn raddol i'r ysgol ar 29 Mehefin 2020, ac fe wnaethant ailagor yn llawn ar 1 Medi 2020. Ar hyn o bryd mae'r nifer sydd wedi cael eu brechu yn unol ag amserlen 2019-20 yn is o'i gymharu â 2018-19¹⁴ ar yr un adeg y llynedd oherwydd tarfu pellach ag amserlen ysgolion. Mae sesiynau 'dal i fyny' yn cael eu trefnu i gynnig brechiadau cyn gynted â phosibl.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r niferoedd ar gyfer yr holl raglenni imiwneiddio cenedlaethol yn agos gyda rhanddeiliaid allweddol y GIG i annog pobl i fanteisio arnynt a galluogi pobl i barhau i gael brechiadau'n ddiogel.

Erthygl 25: Os yw plentyn wedi'i leoli oddi cartref at ddibenion gofal neu amddiffyn (er enghraifft, gyda theulu maeth neu yn yr ysbyty), mae ganddo'r hawl i **adolygiad rheolaidd o'i driniaeth**, y ffordd y mae'n derbyn gofal a'i amgylchiadau ehangach.

- Cafodd trefniadau'r cyfyngiadau symud effaith amlwg ar y trefniadau i blant mewn gofal gael cyswllt â'u teuluoedd. Fodd bynnag, cyhoeddwyd canllawiau gweithredol gennym ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant i nodi ein disgwyliadau o ran y ffyrdd y dylai cymorth i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal barhau i ddigwydd mewn ffordd ddiogel. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant wedi parhau i weithredu drwy gydol 2020.
- Mae'r Operational Guidance wedi'u diweddarau sawl gwaith i adlewyrchu'r newidiadau yn y trefniadau mewn ymateb i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar amser teulu (trefniadau cyswllt ar gyfer plant a'u teuluoedd)

Erthygl 26: Dylai'r Llywodraeth ddarparu arian ychwanegol i blant teuluoedd mewn angen.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu teuluoedd sydd mewn tlodi drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, prydau ysgol am ddim, banciau bwyd ac ati – mae angen i hyn barhau fel nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd.
- Plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol oedd yn fwy tebygol o ddweud yn yr arolwg bod angen help arnynt i sicrhau bod gan eu teulu ddigon o fwyd. Roeddent yn fwy tebygol o sôn am arwyddion o ansicrwydd ynghylch bwyd. Soniwyd am hyn hefyd gan randdeiliaid sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r gymuned Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
- Mae VAWDASV wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc ledled Cymru, gan gynnwys cwnsela sy'n seiliedig ar drawma a gweithwyr plant mewn lloches.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i awdurdodau lleol i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y berthynas rhwng rhieni.

Erthygl 27: Mae gan blant **yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ymateb i'w hanghenion corfforol a meddyliol**. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio darparu hyn.

- Mae plant a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai gorlawn a thlotach sy'n ei gwneud yn anoddach aros gartref a dysgu gartref.
- Dywedodd plant a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fod y cyfyngiadau'n effeithio ar eu gallu i gadw corff a meddwl iach, a bod diffyg lle neu fyw mewn tai gorlawn wedi gwneud hyn yn galetach.
- Roedd plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o sôn am effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a bod cau gwasanaethau yn cael effaith fawr ar sut yr oeddent yn teimlo.
- Nododd yr adroddiad 'Babies in Lockdown' fod bron i hanner (47%) y rhieni wedi dweud bod eu baban wedi mynd yn fwy dibynnol arnynt. Dywedodd chwarter (26%) fod eu baban yn crio mwy nag arfer. Roedd nifer y rhai a nododd bod babanod yn crio mwy, yn strancio, ac yn fwy dibynnol arnynt ddwywaith yn uwch ymhlith y rhai ar yr incwm isaf na'r rhai ar yr incwm uchaf.

- Nododd yr adroddiad hwn hefyd fod 6 o bob 10 rhiant yn wedi mynegi pryderon sylweddol am eu hiechyd meddwl.

Wrth ymateb mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu

- Teuluoedd sydd mewn tlodi, drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, prydau ysgol am ddim, banciau bwyd ac ati – mae angen i hyn barhau fel nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd.
- Plant sydd mewn perygl o oedi yn eu datblygiad, drwy'r Gronfa Datblygu Plant
- Mae plant a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai gorlawn a thlotach sy'n ei gwneud yn anoddach aros gartref a dysgu gartref.
- Dywedodd plant a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fod y cyfyngiadau'n effeithio ar eu gallu i gadw corff a meddwl iach, a bod diffyg lle neu fyw mewn tai gorlawn wedi gwneud hyn yn galetach.
- Roedd plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o sôn am effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a bod cau gwasanaethau yn cael effaith fawr ar sut yr oeddent yn teimlo.
- Nododd yr adroddiad 'Babies in Lockdown' fod bron i hanner (47%) y rhieni wedi dweud bod eu baban wedi mynd yn fwy dibynnol arnynt. Dywedodd chwarter (26%) fod eu baban yn crio mwy nag arfer. Roedd nifer y rhai a nododd fod babanod yn crio mwy, yn strancio ac yn dibynnu mwy arnynt ddwywaith yn uwch ymhlith y rhai ar yr incwm isaf na'r rhai ar yr incwm uchaf.
- Nododd yr adroddiad hwn hefyd fod 6 o bob 10 rhiant yn mynegi pryderon sylweddol am eu hiechyd meddwl.

Erthygl 28: Mae gan blant hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

- Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn mwynhau peidio â mynd i'r ysgol neu ddewis dysgu gartref os oeddent yn anabl.
- Roedd ymatebwyr Du Cymreig neu Brydeinig 7-11 oed yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn am eu haddysg nag ymatebwyr Gwyn Cymreig neu Brydeinig.
- Roedd ymatebwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn poeni am fynd ar ei hôl hi gyda'u dysgu, gan boeni am ddechrau blwyddyn ysgol newydd neu ysgol newydd ym mis Medi.
- Roedd plant a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawer mwy tebygol o ddweud bod cau llyfrgelloedd wedi effeithio ar eu dysgu, ar draws ystodau oedran. Roedd plant 7-11 oed yn llawer mwy tebygol o ddweud bod cau canolfannau cymunedol a'r ffaith nad oeddent yn gallu mynd allan wedi effeithio ar eu dysgu.
- Mae anghenion digidol wedi ei gwneud yn anodd i rai plant gael gafael ar gymorth a chefnogaeth – gallai hyn fod oherwydd nad oes ganddynt becyn TG neu am nad oes ganddynt ddigon o 'ddata' i gael mynediad at ddysgu ar-lein neu wasanaethau cymorth perthnasol. Roedd hyn yn wir am rai teuluoedd yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae angen i ni sicrhau nad yw teuluoedd dan anfantais oherwydd tlodi a/neu ddiffyg

TG a data. Dywedodd pobl ifanc wrth y Prif Weinidog eu bod yn cael eu profi a'u hasesu'n gyson yn yr ysgol a bod y pwysau'n ormod. Fe wnaethant ddweud hefyd fod y rhai a oedd yn cael eu dysgu gartref yn teimlo eu bod wedi'u gadael ar ôl.

Mae plant a phobl ifanc, ar y cyfan, yn gadarnhaol o ran gallu parhau â'u haddysg a mynd i'r ysgol a'r coleg. Mewn trafodaeth ddiweddar gyda'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, gofynnwyd i bobl ifanc am eu barn am addysg yn ystod y cyfnod atal byr a dyma'u hymateb:

- Dylid ystyried sesiynau ar-lein pan fetho popeth arall gan fod rhai pobl ifanc yn teimlo'n llai hyderus i e-bostio a gofyn am help – mae'n llawer haws yn yr ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb.
- Os caiff adnoddau ar-lein eu defnyddio'n iawn gyda'r cymorth cywir gall weithio'n dda iawn ond mae achosion lle mae pobl ifanc wedi cael PowerPoints neu swp o waith a neb yn holi sut maent yn ymdopi.
- Roeddent yn teimlo bod ganddynt lawer llai o amser i ddod i adnabod eu hathrawon, felly nid ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn am help – efallai mai dim ond am ran o hanner cyntaf y tymor y bu rhai yn yr ysgol oherwydd gofynion hunanynysu, felly nid oeddent wedi meithrin perthynas ag athrawon newydd.
- Mae rhai wedi bod yn wynebu problemau tlodi digidol – nid dyfeisiau yn unig ond mynediad i gysylltiadau Wi-Fi priodol.
- Nid oedd cymaint o wiriadau llesiant y tro hwn; roedd PowerPoint ymwybyddiaeth ofalgar wedi'i anfon.
- Roedd yn teimlo fel pe bai rhywbeth yn cael ei anfon allan, a dyna ni. Mynegwyd pryderon am bobl ifanc ar aelwydydd lle nad oedd pethau'n iawn, ac roedd teimlad y dylid galw heibio iddynt hefyd.
- Roedd ysgol arbennig wedi bod ar agor drwy'r cyfnod ac yn defnyddio hyblygrwydd i wneud y gorau y gallent, wedi addasu cryn dipyn.

Yn y tymor hwy, mae'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â mynediad bylchog neu gyfyngedig at addysg a/neu asesiad a chymorth datblygiadol yn barhaus ac yn gadael eu hôl:

- Llai o allu neu awydd i symud i addysg bellach neu uwch;
- Llai o bosibiliadau cyflogaeth;
- Lefelau tlodi uwch, a gwaethygu'r bwlch cyrhaeddiad;
- Mwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod;
- Mwy o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau;
- lechyd gwael.

Gall oedi datblygiadol hyd yn oed mewn un maes gael effaith sylweddol ar gwrs bywyd unigolyn.

- Gall dros 50% o blant mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ddechrau yn yr ysgol gyda diffygion o ran eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu²⁷.
- Ni chyrhaeddodd un o bob pedwar plentyn a oedd yn cael trafferth gydag iaith yn bump oed y safon ddisgwyliedig mewn Saesneg ar ddiwedd yr ysgol gynradd, o gymharu ag un o bob 25 o blant a oedd â sgiliau iaith da yn bump oed²⁸.
- Ar ôl rheoli ar gyfer amrywiaeth o ffactorau eraill a allai fod wedi chwarae rhan (lefel addysgol y fam, gorlenwi, pwysau geni isel, rhiant yn ddarllenwyd gwael, ac ati), roedd plant a oedd â sgiliau dieiriau arferol ond geirfa wael yn 5 oed, yn 34 oed, un gwaith a hanner yn fwy tebygol o fod yn ddarllenwyr gwael neu fod â phroblemau iechyd meddwl a mwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith â phlant a oedd fel arfer yn datblygu iaith yn 5 oed²⁹.
- Canfuwyd mai geirfa yn 5 oed yw'r rhagfynegydd gorau (o ystod o fesurau yn 5 a 10 oed) ynghylch a oedd plant a brofodd amddifadedd cymdeithasol yn ystod plentyndod yn gallu 'mynd yn groes i'r duedd' a dianc rhag tlodi yn ddiweddarach mewn bywyd fel oedolyn³⁰.

Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) yn ddigwyddiadau sy'n peri straen yn ystod plentyndod, megis dioddef camdriniaeth, esgeulustod, neu dyfu i fyny ar aelwyd lle mae camddefnyddio alcohol neu sylweddau, salwch meddwl, trais domestig neu ymddygiad troseddol sy'n arwain at garcharu³¹. Gall profiadau eraill hefyd gael effaith andwyol ar fywyd plentyn, megis tlodi a phrofiadau fel pandemig byd-eang.

- Mae ACE yn gyffredin, gyda thua hanner y boblogaeth oedolion (18-69 oed) yng Nghymru yn dweud eu bod wedi profi o leiaf un ACE, a 14% yn sôn am bedwar neu fwy³².
- Gall ACE gael effaith andwyol ar iechyd drwy gydol oes unigolyn, gan gyfrannu at ystod eang o ganlyniadau gwaeth, gan gynnwys canlyniadau addysgol gwaeth, mwy o anghydraddoldeb iechyd ac afiachusrwydd. Yng Nghymru, mae'r rhai sy'n dioddef pedwar ACE neu fwy chwe gwaith yn fwy tebygol o fod yn ysmygwr, bedair gwaith yn fwy tebygol o yfed alcohol ar lefelau niweidiol, ddwywaith yn fwy tebygol o ddioddef o glefyd cronig³³ (e.e. asthma, canser, gordewdra, clefyd y galon a chlefyd anadlol;³⁴ a chwe gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael triniaeth ar gyfer salwch meddwl (e.e. iselder neu orbryder)³⁵.

Mae hanes o ddod i gysylltiad ag ACE hefyd wedi bod yn gysylltiedig â'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd³⁶. Gall ACE a'u heffeithiau negyddol ymestyn y tu

²⁷ Locke et al, 2002

²⁸ Achub y Plant, 2016

²⁹ Law, 2010

³⁰ Blanden, 2006

³¹ (Felitti et al., 1998).

³² (Hughes et al., 2018)

³³ (Bellis et al., 2015a

³⁴ Ashton et al., 2016

³⁵ Hughes et al., 2018

³⁶ Bellis et al., 2017a; Siartiwir et al., 2010.

hwnt i un genhedlaeth – gan gael eu dyblygu drwy ryngweithio cymhleth rhwng ffactorau amgylcheddol personol a chymdeithasol, gan arwain at eu trosglwyddo rhwng cenedlaethau³⁷.

Er nad yw'r cyfle i gael addysg yn ateb i bob effaith economaidd-gymdeithasol, mae'n amlwg bod y cyfle i gael addysg o ansawdd uchel yn helpu i unioni amrywiaeth o ffactorau tymor hwy. Cydnabyddir hyn yn Symud Cymru Ymlaen. At hynny, byddai cynnal amser mewn ysgolion yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon ynghylch cymdeithasu, ynysu ac iechyd meddwl. Byddai'n galluogi plant a phobl ifanc i ddod i gysylltiad ag oedolion dibynadwy y tu allan i amgylchedd y cartref, sy'n un o'r ffactorau gwydnwch allweddol o ran ACE.

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid o £29m dros 2 flynedd i helpu plant a phobl ifanc i 'ddal i fyny' ond nid yw'n hysbys eto pa mor llwyddiannus fydd hyn, yn arbennig i'r rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf a'r rhai nad ydynt yn mynychu'r ysgol.

Datblygwyd y Gronfa Datblygiad Plant, sef tua £3.5m yn 2020/21, i ganolbwyntio'n benodol ar blant dan 5 oed. Bydd yn galluogi darparu cymorth ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru lle mae oedi neu oedi posibl, yn enwedig o ran lleferydd, iaith a datblygiad; sgiliau echddygol manwl a bras a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Yn ogystal, mae rhaglenni fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, ochr yn ochr â'r cynnig gofal plant, yn parhau i gefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Erthygl 29: Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau pob plentyn i'r eithaf. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliannau eu hunain ac eraill.

- Mae pobl ifanc wedi sôn am bryderon am eu dyfodol eu hunain o ran cyfleoedd cyflogaeth ac addysg
- Roedd ymatebwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod wedi bod yn dysgu sgiliau newydd nag ymatebwyr Gwyn Cymreig neu Brydeinig, ymhlith y grŵp oedran 7-11 oed, ond roeddent yn llawer mwy tebygol o ddweud hyn nag ymatebwyr Gwyn Cymreig neu Brydeinig yn y grŵp oedran 12-18.
- Roedd ymatebwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod wedi bod yn darllen ac ysgrifennu (ymhlith pobl ifanc 12-18 oed), a choginio (ymhlith plant 7-11 oed), yn ystod y cyfyngiadau symud.

Erthygl 31: Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

- Roedd ymatebwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod wedi bod yn ymarfer yn yr awyr agored, ar draws y grwpiau oedran.
- Roedd pobl ifanc 7-11 oed Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn chwarae'n amlach nag o'r blaen. Dywedodd pobl ifanc wrth y Prif Weinidog eu bod am gael mwy o gyfleoedd i chwarae chwaraeon wedi'u trefnu.

³⁷ Larkin et al., 2012; Leitch, 2017; Lomanowska et al., 2017

- Fe wnaethant ddweud hefyd eu bod am fynychu prosiectau ieuenctid wedi'u trefnu
- Roedd ymatebwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod wedi bod yn ymarfer yn yr awyr agored, ar draws y grwpiau oedran.
- Roedd pobl ifanc 7-11 oed Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn chwarae'n amlach nag o'r blaen.
- Dywedodd pobl ifanc wrth y Prif Weinidog eu bod am gael mwy o gyfleoedd i chwarae chwaraeon wedi'u trefnu.
- Fe wnaethant ddweud hefyd eu bod am fynychu prosiectau ieuenctid wedi'u trefnu

Mae cyfleusterau chwarae yn rhan hanfodol o hawl y plentyn i chwarae. Mae meysydd chwarae a pharciau awyr agored wedi lliniaru effaith gwasanaethau dan do cyfyngedig, ac yn sicrhau bod plant yn cadw'r cyfle i chwarae. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant o gartrefi sydd heb fynediad i fannau awyr agored a / neu sy'n brin o le dan do. Ar gyfer plant hŷn, mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn darparu mannau diogel i blant a phobl ifanc hŷn gyfarfod, cymdeithasu a chael cymorth yn ôl yr angen ym mhob lefel ond y lefel uchaf.

Mae gweithgareddau dan do wedi'u trefnu, megis grwpiau rhieni a plant, yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad plentyn – yn gymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol. Gwyddom o adroddiad diweddar Ofsted fod plant yn dioddef cam yn ô, gan ddod i'r ysgol mewn cewynnau, gyda llai o sgiliau lleferydd ac iaith ac ati. Mae gan Lywodraeth Cymru rywfaint o gamau lliniaru yn y flwyddyn ariannol 2020/21 drwy'r Gronfa Datblygu Plant.

I bobl ifanc, mae'n bwysig iddynt allu cwrdd â ffrindiau y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Mae'n debyg bod lleoliad rheoleiddiedig yn lle mwy diogel i gyfarfod i'r rhai sy'n gallu fforddio prynu diodydd mewn caffi er enghraifft. I'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig efallai na fyddant yn gallu manteisio ar y cyfle hwn.

Erthygl 35: dylid **amddiffyn plant** rhag cael eu herwgydio, eu gwerthu neu eu symud yn anghyfreithlon i le gwahanol yn eu gwlad neu y tu allan iddi at ddibenion camfanteisio

- Mae rhwydweithiau troseddol trefnedig wedi addasu eu gweithrediadau drwy gydol y pandemig fel y gallant barhau i sicrhau enillion ariannol drwy gamfanteisio ar blant.
- Mae'r trydydd sector wedi adrodd bod plant a phobl ifanc wedi wynebu mwy o risg o fagu perthynas amhriodol chamfanteisio ar-lein
- Mae gwybodaeth i gefnogi'r broses o ganfod a datgelu cam-drin plant wedi'i datblygu a'i hyrwyddo i'r cyhoedd, i ymarferwyr ac i'r plant a'r bobl ifanc eu hunain.
- Rydym yn parhau i gysylltu â phartneriaid diogelu, gan gynnwys yr heddlu, ar y mater hwn ac yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Swyddfa Gartref.
- Mae Gwasanaeth Annibynnol Gwarcheidwad Masnachu Plant yn parhau i weithredu ledled Cymru.

- Rydym wedi parhau i ariannu MEIC, llinell gymorth gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac wedi darparu cyllid pellach o £27,500.00 (heb gynnwys TAW) i Pro-Mo Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu darpariaeth MEIC mewn ymateb i Covid-19, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth MEIC yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc yng Nghymru yn llawn ar gyfer yr ymateb uniongyrchol i COVID-19. Mae'r gwasanaeth MEIC ar gael 7 diwrnod yr wythnos rhwng 8 y bore a hanner nos) ac mae wedi aros ar agor drwy gydol y pandemig COVID-19 er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gael drwy'r amser i blant a phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth wedi addasu ei adnoddau i'w alluogi i ymateb i'r blaenoriaethau a'r pryderon gwahanol sy'n dod i'r amlwg ymhlith plant a phobl ifanc o ganlyniad i'r pandemig.

Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i dawelu meddyliau plant?

Mae plant wedi bod yn pryderu ac yn dal i bryderu ac mae ganddynt gwestiynau am y modd y mae'r cyfyngiadau wedi effeithio arnynt hwy, eu teuluoedd a'u dyfodol. Mae cyfathrebu uniongyrchol â phlant a phobl ifanc wedi cael derbyniad da. Roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r amser a gymerodd y Prif Weinidog i egluro pam mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud. Er mwyn cydymffurfio â'r CCUHP mae'n rhaid i ni barhau i ofyn am eu barn wrth i ni weithio drwy Gynllun Rheoli'r Coronafeirws.

Gallwn ddefnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau cyfathrebu presennol i ddosbarthu gwybodaeth a chyngor i rieni, er enghraifft y cynllun Magu plant. Rhwch Amser Iddo a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Fagu Plant, Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf.

Ystyriaethau o ran hawliau plant yn y dyfodol

Mae'r ystyriaethau eraill y dylid eu cadw mewn cof wrth roi Cynllun Rheoli'r Coronafeirws ar waith yn cynnwys:

- Deall y goblygiadau i blant a phobl ifanc lle mae aelodau o'r teulu yn cael symptomau COVID-19;
- Penderfyniadau ynghylch brechu plant a phobl ifanc (rydym wrthi'n ymgynghori â phobl ifanc 16 ac 17 oed ynghylch brechiadau);
- Deall goblygiadau'r disgwyliadau i weithio gartref yn y tymor hwy;
- Goblygiadau hirdymor effaith iechyd meddwl a chorfforol gwael i blant a phobl ifanc;
- Goblygiadau ar gyfer achosion parhaus o hunanynysu ar ddysgu ac iechyd meddwl a chorfforol (rydym wrthi'n ceisio barn plant a phobl ifanc sydd wedi profi achosion parhaus o hunanynysu drwy brofi'n bositif am y coronafeirws, neu drwy fod yn rhan o swigen gswllt);
- Effeithiau tymor hwy ar yr economi a goblygiadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd.